RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
14/2018
DYDDIAD CYHOEDDI:
13/03/2018

# Gwerthusiad o raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau

## Adroddiad 2: Adroddiad Gwerthuso Interim

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-78903-714-2

Gwerthusiad o raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau
Adroddiad 2: Adroddiad Gwerthuso Interim

Endaf Griffiths, Wavehill

Mair Bell, Wavehill

David Parker

Andy Parkinson, Consilium Research

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid barn Llywodraeth Cymru o anghenraid.

I gael gwybodaeth bellach, cysylltwch â:

Richard Thurston, Dirprwy Brif Swyddog Ymchwil

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 5324

E-bost: richard.thurston@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**


1. Cyflwyniad ........ 5
2. Cynnydd Hyd Yma ........ 8
3. Astudiaethau Achos yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ........ 18
4. Canfyddiadau Arolwg o Athrawon a fu'n Cyfranogi ........ 48
5. Canfyddiadau Arolwg o Artistiaid a Sefydliadau Celfyddydol a Gymerodd Ran ........ 64
6. Canfyddiadau Cyfweliadau â Rhanddeiliaid ........ 72
7. Casgliadau ac Argymhellion ........ 83

Atodiad 1: Rhagor o fanylion am Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol (Maes 1) ........ 89

Atodiad 2: Rhagor o fanylion am Raglen Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan (Maes 2) .. 92

Atodiad 3: Data ychwanegol o'r arolwg o athrawon ac artistiaid sy'n cymryd rhan ........ 95

**Rhestr o ffigurau**

Darparwyd yr holl luniau gan yr ysgolion a fu'n rhan o'r gwaith. ........................................3
Ffigur 2.1: Nifer yr ysgolion sydd â statws Ysgol Greadigol Arweiniol, fesul blwyddyn academaidd ........................................10
Ffigur 2.2: Cynrychiolaeth Ysgolion Creadigol Arweiniol Cylch 1 a Chylch 2, fesul rhanbarth ........................................11
Ffigur 2.3: Cynrychiolaeth Ysgolion Creadigol Arweiniol Cylch 1 a Chylch 2, yn ôl ysgolion cynradd ac uwchradd ........................................11
Ffigur 2.4: Canran yr ysgolion fesul chwartel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014) – Ysgolion Creadigol Arweiniol a phob ysgol yng Nghymru ........................................12
Ffigur 2.5: Cynrychiolaeth dosbarthiad grantiau Cronfa Profi'r Celfyddydau, fesul rhanbarth ........................................14
Ffigur 2.6: Canran yr ysgolion fesul chwartel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014) – grantiau Cronfa Profi'r Celfyddydau a phob ysgol yng Nghymru ........................................15
Ffigur 2.7: Data Google Analytics ar gyfer y Parth Dysgu Creadigol........................................16
Ffigur 4.1: Barn yr athrawon ar agweddau rheoli a chyflawni Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ac awgrymiadau o welliannau (A) ........................................51
Ffigur 4.7: Canfyddiadau athrawon o'u hysgolion: cyn yr ymyriad ac ar ddiwrnod yr arolwg63
Ffigur 5.1: Adborth artistiaid ar reoli a chyflawni Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ...66
Ffigur 5.5: Canfyddiadau artistiaid o…. – cyn iddynt ymwneud â'r rhaglen, ac ar ddiwrnod yr arolwg........................................70
Ffigur 5.6: Ymatebion yr artistiaid pan ofynnwyd iddynt gytuno neu anghytuno â chyfres o osodiadau cysylltiedig yn cychwyn: "O ganlyniad i raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau…" ........................................71
Ffigur A.1: Dosbarthiad yr ymatebwyr, yn ôl Awdurdod Lleol (n=108) ........................................95
Ffigur A.2: Dosbarthiad yr ymatebwyr, yn ôl blwyddyn academaidd a addysgir (n=108, atebion lluosog yn bosibl)........................................96
Ffigur A3: Dosbarthiad yr ymatebwyr, yn ôl pwnc a addysgir (n=108) ........................................97
Ffigur A.4: Nifer y blynyddoedd y bu'r ymatebwyr yn addysgu mewn ysgolion (n=108).......98
Ffigur A.5: Cyfrwng iaith addysgu'r ymatebwyr (n=108) ........................................98
Ffigur A.6: Statws cyflogaeth ymatebwyr arolwg yr artistiaid (n=70)........................................99
Ffigur A.7: Grŵp oedran, rhyw ac ethnigrwydd ymatebwyr arolwg yr artistiaid (n=70).........99
Ffigur A.8: Blynyddoedd o brofiad ymatebwyr arolwg yr artistiaid (n=70) ..........................100
Ffigur A.9: Prif ffurf gelf / ymarfer creadigol ymatebwyr arolwg yr artistiaid (n=70) ............100
Ffigur A.10: Lleoliad ymatebwyr arolwg yr artistiaid (n=70)........................................101

**Diolchiadau**

Hoffem ddiolch i'r amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau a gyfrannodd at yr adroddiad hwn. Ni fyddai'r gwerthusiad yn bosibl heb y cyfraniadau hyn. Diolch yn benodol i holl ymatebwyr yr arolygon a drafodir yn yr adroddiad a'r ysgolion, yr athrawon, y disgyblion a'r artistiaid a gyfrannodd at yr astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn.

**Darparwyd yr holl luniau gan yr ysgolion a fu'n rhan o'r gwaith.**

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| CCE | Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg (sefydliad rhyngwladol sy'n hybu creadigrwydd ymysg plant) |
| CSC | Consortiwm Addysg Canol De Cymru |
| EAS | Consortiwm Addysg De-ddwyrain Cymru |
| ERW | Consortiwm Addysg De-orllewin a Chanolbarth Cymru |
| GwE | Consortiwm Addysg Gogledd Cymru |
| RSA | Y Gymdeithas Frenhinol er Hybu'r Celfyddydau, Gweithgynhyrchion a Masnach |
| YCA | Ysgolion Creadigol Arweiniol |

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir

1.1 Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymateb i adroddiad yr Athro Dai Smith ar yr arolwg o'r Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru (2013), yn cytuno â'r holl argymhellion a wnaed. Roedd yr ymateb hefyd yn addo datblygu cynllun a fyddai'n cadarnhau'n ffurfiol y rôl ganolog a ragwelai'r adroddiad ar gyfer addysg y celfyddydau yn ysgolion Cymru gan gyflawni hefyd yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu bryd hynny i sicrhau'r cyfranogiad mwyaf yn y celfyddydau a chydweithio â Chyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygu cynllun gweithredu i'r celfyddydau a phobl ifanc. Mewn adroddiad dilynol, Dyfodol Llwyddiannus (2015), a ddaeth yn sgil adolygiad annibynnol o drefniadau cwricwlaidd ac asesu yng Nghymru, bu i'r Athro Graham Donaldson hefyd gadarnhau o'r newydd bwysigrwydd creadigrwydd yn natblygiad ein plant a'n pobl ifanc.

1.2 Yr ymateb oedd cyhoeddi Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau – cynllun gweithredu i Gymru: 2015–2020 — a rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, a lansiwyd ym mis Mawrth 2015, yn bartneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru. Caiff y rhaglen ei rheoli gan dîm oddi mewn i Gyngor Celfyddydau Cymru, o dan gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Ymgyfranogi. Caiff ei gefnogi gan fuddsoddiadau cydradd gan Gronfa'r Loteri Fawr a chyllid yr Adran Addysg a Sgiliau, sy'n gyfanswm o ryw £20m dros bum mlynedd. Cliciwch ar y ddelwedd ar y dde i wylio fideo byr sy'n cyflwyno'r rhaglen[1].



1.3 Mae'r rhaglen yn cynnwys dau faes o weithgareddau addysgol. Mae Maes 1, Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, yn canolbwyntio ar gyrhaeddiad drwy greadigrwydd. Y mae'n ymyriad dwys sy'n golygu bod athrawon, 'Asiantau Creadigol' ac 'Ymarferwyr Creadigol' yn cydweithio i gyflenwi dull creadigol o ddysgu. Rhagwelir y bydd y cynllun hwn yn cynorthwyo tua thraean o'r ysgolion yng Nghymru yn ystod hyd oes o bum mlynedd rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

[1] Os nad yw'r ddolen ar y dde'n gweithio, gallwch wylio drwy glicio ar y ddolen ganlynol neu dorri a gludo'r URL i mewn i'ch porwr: https://www.youtube.com/watch?v=xKgYsEcjnqI

1.4 Mae Maes 2, Rhaglen Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan, yn cynnwys amrywiaeth o wahanol weithgareddau a ddyluniwyd i gynyddu a gwella cyfleoedd i athrawon, dysgwyr, artistiaid a sefydliadau celfyddydol/diwylliannol/treftadaeth gydweithio:

a) Mae'r *Parth Dysgu Creadigol* wedi'i ddylunio i fod yn ffynhonnell o wybodaeth ar-lein a hwb cydweithio i athrawon, dysgwyr, Ymarferwyr Creadigol, sefydliadau ac ymarferwyr;
b) Sefydlu pedwar o *Rwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg* gyda chylch gwaith (ymysg pethau eraill) i ddarparu cyfleoedd i athrawon ac artistiaid ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau;
c) *Hyrwyddwyr Lleol y Celfyddydau*, wedi'u rheoli gan Rwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg, sydd â'r rôl o hyrwyddo arferion gorau a chynorthwyo eraill i fabwysiadu dulliau tebyg;
d) *Cronfa Profi'r Celfyddydau*, sy'n cynnig grantiau i ysgolion i ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymgysylltu â phrofiadau creadigol, diwylliannol a celfyddydol newydd.

**Diben a dull y gwerthusiad**

1.5 Caiff y gwerthusiad ei gynnal gan gwmni ymchwil gymdeithasol ac economaidd Wavehill, mewn cydweithrediad â Consilium Research and Consultancy a'r RSA (y Gymdeithas Frenhinol er Hybu'r Celfyddydau, Gweithgynhyrchion a Masnach). Yn gyffredinol, ei ddiben yw archwilio dyluniad, cyflawniad, effaith a gwerth am arian rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

1.6 Yn ystod ei hoes, nid yn unig y bydd y gwerthusiad yn asesu effeithiolrwydd y rhaglen mewn perthynas â'i nodau a'i hamcanion gwreiddiol, ond bydd hefyd yn cysylltu'r canfyddiadau â llenyddiaeth sy'n disgrifio effeithiau'r celfyddydau a chreadigrwydd mewn ysgolion. Drwy hyn, bydd yn cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer dysgu a datblygu mewn perthynas ag addysg greadigol ac yn helpu i gyfarwyddo'r ddadl yn y dyfodol ynghylch arferion a pholisïau yn genedlaethol a rhyngwladol.

1.7 Nid yw'r ail adroddiad interim hwn yn cwmpasu'r holl elfennau hynny; bydd yn canolbwyntio ar asesu'r cynnydd a wnaed hyd yma a dechrau archwilio tystiolaeth o ganlyniadau sy'n dod i'r amlwg. Mae'n dilyn yr adroddiad gwerthuso cyntaf, a

gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017, a archwiliai sail resymegol y rhaglen ac a ddefnyddiai Theori Newid[2] i archwilio'r newidiadau (neu'r canlyniadau) a ragwelir ar gyfer rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau a sut y gallent gael eu mesur. Yn ei hanfod, roedd yr adroddiad cyntaf yn darparu'r sylfaen y mae camau dilynol y gwerthusiad yn adeiladu arni. Roedd hefyd yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth cychwynnol ac yn trafod sail resymegol y rhaglen[3].

1.8 Roedd yr ymchwil a gynhaliwyd yn ystod y cam hwn o'r gwerthusiad yn cynnwys:

- Arolygon o athrawon (n=108) ac artistiaid a sefydliadau celfyddydol (n=70) sy'n ymwneud â'r rhaglen, yn bennaf drwy Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol;
- Ymweliadau 'astudiaeth achos' â saith ysgol a gefnogir gan Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol;
- Cyfweliadau â rhanddeiliaid (n=22) a fu'n ymwneud ag amryw elfennau o raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, staff Cyngor Celfyddydau Cymru, ac unigolion a fu'n ymwneud â chyflawni gwahanol elfennau'r rhaglen (e.e. Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg).

**Strwythur yr adroddiad hwn**

1.9 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn: mae Adran 2 yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wneir gan y rhaglen, gan gynnwys nifer yr ysgolion a gynorthwyir. Mae Adran 3 yn cyflwyno'r astudiaethau achos ar gyfer yr ysgolion yr ymwelodd y tîm gwerthuso â hwy yn ystod cam hwn y gwerthusiad. Mae Adrannau 4 a 5 yn ystyried canfyddiadau arolwg yr athrawon a'r artistiaid a'r sefydliadau celfyddydol sy'n cymryd rhan yn y rhaglen, yn y drefn honno. Mae Adran 6 wedyn yn trafod canfyddiadau'r cyfweliadau â rhanddeiliaid y prosiectau. Yn olaf, mae Adran 7 yn gosod allan y casgliadau y mae modd eu llunio yn sgil y cam hwn o'r gwerthusiad, yr argymhellion a wneir, a'r camau nesaf yn y broses werthuso.

[2] Gall Theori Newid gael ei disgrifio fel map sy'n amlinellu'r pethau (canlyniadau canolraddol) y mae angen iddynt ddigwydd er mwyn cyflawni'r canlyniad terfynol.
[3] Mae copi o adroddiad cyntaf y gwerthusiad wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

## 2. Cynnydd Hyd Yma

### Cyflwyniad

2.1 Mae'r adran hon yn rhoi diweddariad ar gyflawni rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau fel yr oedd y sefyllfa ym mis Ebrill 2017.

### Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol (Maes 1)

2.2 Mae Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad drwy greadigrwydd. Y mae'n ymyriad dwys sy'n golygu bod athrawon, 'Asiantau Creadigol' ac 'Ymarferwyr Creadigol' yn cydweithio i gyflenwi dull creadigol o ddysgu. Mae pob ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol a phob ysgol gynradd ac uwchradd wirfoddol a gynorthwyir, gan gynnwys pob ysgol arbennig, yng Nghymru yn gymwys i wneud cais i fod yn Ysgol Greadigol Arweiniol, gan gynnwys cyfleusterau addysgu arbenigol oddi mewn i ysgolion.

2.3 Mae trosolwg o'r broses ymgeisio a'r broses weithredu ar gyfer Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol i'w gweld yn Atodiad 1. Ond i grynhoi fan hyn, mae ysgolion yn ymgeisio drwy broses gystadleuol i ddod yn rhan o Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ac wedyn yn gweithio gydag 'Asiant Creadigol' i ddatblygu prosiect a fydd yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer yr ysgol. Treulir tymor cyntaf y flwyddyn ysgol (tymor yr hydref) yn cynllunio'r rhaglen ar gyfer tymor y gwanwyn. Caiff gweithgaredd dysgu creadigol yr ystafell ddosbarth rhwng y disgyblion, yr athrawon a'r 'Ymarferydd Creadigol' ei gynnal yn ystod tymor y gwanwyn, a chaiff gwerthusiad myfyriol mewnol o'r gweithgaredd ei gynnal yn nhymor yr haf. Caiff yr ysgolion eu cynorthwyo am ddwy flynedd – gyda strwythur yr ail flwyddyn yr un â strwythur y flwyddyn gyntaf, gyda'r blaenoriaethau a'r gweithgareddau wedi'u cyfarwyddo gan yr hyn a ddysgwyd yn y flwyddyn gyntaf.

2.4 Caiff Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ei gyflawni dros dri chylch, gyda'r ysgolion sy'n rhan o'r cynllun yn cael eu cynorthwyo am ddwy flynedd:

- Cylch 1: blynyddoedd academaidd 2015/16 a 2016/17
- Cylch 2: blynyddoedd academaidd 2016/17 a 2017/18
- Cylch 3: blynyddoedd academaidd 2017/18 a 2018/19

2.5 Mae'r cylchoedd hyn yn gorgyffwrdd, felly o fis Medi 2016, bu Ysgolion Creadigol Arweiniol Blwyddyn 2 Cylch 1 yn cyd-redeg ag Ysgolion Creadigol Arweiniol Blwyddyn 1 Cylch 2. Bydd hyn yn parhau mewn ffordd fel bod, o fis Medi 2017,

Ysgolion Creadigol Arweiniol Blwyddyn 2 Cylch 2 yn cyd-redeg ag Ysgolion Creadigol Arweiniol Blwyddyn 1 Cylch 3.

2.6 Yn gynnar yn 2017, cyflwynwyd ‘maes datblygu’ newydd ar gyfer Blwyddyn 3, gyda’r nod o gynorthwyo grŵp o ysgolion Cylch 1 ym mhob rhanbarth i gyflawni rhaglen o gymorth ysgol-i-ysgol yn eu hardal leol yn unol â’r Model Ysgolion Arloesol cwricwlaidd newydd. Y sail resymegol i hyn oedd bod Cyngor Celfyddydau Cymru eisiau adeiladu ar wybodaeth ac arbenigedd ysgolion Cylch 1 drwy eu gwahodd i ymgeisio i barhau yn y cynllun am drydedd flwyddyn. Y mae hefyd yn cynyddu nifer yr ysgolion sy’n ymwneud â’r cynllun. Datblygwyd y maes newydd hwn o gynllun peilot o’r dull a gyflenwyd gan ddetholiad o ysgolion Cylch 1 yn y flwyddyn flaenorol.


2.7 Ar adeg llunio’r adroddiad hwn, câi ysgolion Cylch 1 eu gwahodd i gyflwyno datganiad o ddiddordeb mewn cymryd rhan yn natblygiad y maes, gyda mwyafswm o chwech o leoedd ar gael ym mhob rhanbarth. I fod yn gymwys i ymgeisio, mae’n rhaid i’r ysgolion recriwtio ac ymrwymo i gydweithio â mwyafswm o ddwy ysgol nad ydynt wedi bod yn ymwneud â’r cynllun hyd yma.

*Nifer yr ysgolion yr ymgysylltwyd â hwy*

2.8 Wrth greu’r rhaglen yn 2015, rhagwelwyd y byddai Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cynorthwyo traean o’r ysgolion yng Nghymru (darpariaeth ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg) yn ystod ei phum mlynedd. Yn 2015 roedd 1,582 o ysgolion cymwys yng Nghymru; y nod, felly, oedd ymgysylltu â 522 o ysgolion.

2.9 Mae’r 279 o ysgolion yr ymgysylltwyd â hwy yng Nghylchoedd 1 a 2 felly yn cynrychioli dros 50% o darged y cynllun. Pe byddai holl geisiadau Cylch 3 yn cael eu cymeradwyo (nad yw’n sicr o ddigwydd), byddai hyn yn dod â chyfanswm nifer yr ysgolion sy’n cymryd rhan yn y cynllun i 506. Ar adeg llunio’r adroddiad hwn, roedd cam asesu’r ysgolion ar gyfer Cylch 3 ar y gweill, gyda 210 o geisiadau (yn cynnwys 227 o ysgolion) wedi’u derbyn gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Pe byddai’r ysgolion sy’n ymgysylltu drwy’r maes datblygu newydd (gweler paragraff 2.6) yn cael eu cynnwys yn y cyfanswm (n=36), yn ogystal â’r rhai a gymerodd ran yn y cynllun peilot y flwyddyn flaenorol (n=19), mae’r cyfanswm yr ymgysylltwyd â hwy yn cynyddu i 548, gan olygu y byddai’r cynllun yn cyrraedd ei darged.

**Ffigur 2.1: Nifer yr ysgolion sydd â statws Ysgol Greadigol Arweiniol, fesul blwyddyn academaidd**





2.10 Mae Ffigur 2.1 yn dangos nifer yr ysgolion sydd â statws Ysgol Greadigol Arweiniol ym mhob blwyddyn academaidd, gan ddefnyddio nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ar gyfer Cylch 3 yn y ffigurau ar gyfer blynyddoedd academaidd 2017/18 a 2018/19. Ar ei uchafbwynt, mae'n debygol y bydd yn agos at 400 o ysgolion yn cymryd rhan yn 'llawn' yn y cynllun (heb gynnwys ysgolion sy'n cymryd rhan yn y maes datblygu). Mae'n debygol felly mai yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18 y bydd y baich gweinyddol (nifer yr ysgolion i'w cynorthwyo, monitro ac ati) ar ei fwyaf i dîm y rhaglen.

*Dosbarthiad yr ysgolion yr ymgysylltwyd â hwy*


2.11 Mae Ffigur 2.2 yn dangos cynrychiolaeth ysgolion Cylch 1 a Chylch 2 (cyfanswm) fesul rhanbarth (Consortia Addysg Rhanbarthol). Mae'r bar glas yn dangos cyfran yr holl ysgolion yng Nghymru ym mhob rhanbarth, ac mae'r bar coch yn dangos cyfran yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ym mhob rhanbarth yng Nghymru. Er bod y dosbarthiad yn gymharol debyg i boblogaeth yr ysgolion yng Nghymru, y mae ysgolion yng Ngogledd Cymru (GwE) wedi'u tangynrychioli, tra bo ysgolion yn Ne-ddwyrain Cymru (EAS) wedi'u gorgynrychioli. Os mai'r uchelgais yw i'r cyfranogiad yn y cynllun gyfateb i wir ddosbarthiad ysgolion yng Nghymru, gallai fod yn briodol cymryd camau i gynyddu nifer yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yng Ngogledd Cymru.

**Ffigur 2.2: Cynrychiolaeth Ysgolion Creadigol Arweiniol Cylch 1 a Chylch 2, fesul rhanbarth**




2.12 O gymharu â phoblogaeth yr holl ysgolion yng Nghymru, mae ysgolion cynradd wedi'u tangynrychioli ymysg y grŵp o Ysgolion Creadigol Arweiniol, ac mae ysgolion uwchradd wedi'u gorgynrychioli (Ffigur 2.3). Unwaith eto, felly, gallai fod yn briodol cymryd camau i gynyddu nifer yr ysgolion cynradd sy'n cymryd rhan.


**Ffigur 2.3: Cynrychiolaeth Ysgolion Creadigol Arweiniol Cylch 1 a Chylch 2, yn ôl ysgolion cynradd ac uwchradd**



2.13 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach yng Nghymru. Y mae wedi'i ddylunio i nodi'r ardaloedd bach hynny lle mae'r crynodiadau uchaf o sawl gwahanol fath o amddifadedd. O'r herwydd, mae'r Mynegai yn fesur o ddangosyddion amddifadedd lluosog sy'n fesur ar sail ardal ac yn fesur o amddifadedd cymharol. Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf yn 2014[4].

2.14 Mae Ffigur 2.4 yn dangos canran yr ysgolion sy'n cymryd rhan yng Nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yng Nghymru gyfan fesul chwartel y Mynegai. Y mae'n dangos cyfatebiaeth agos iawn rhwng dosbarthiad yr ysgolion sydd â statws Ysgolion Creadigol Arweiniol a dosbarthiad yr holl ysgolion yng Nghymru, gan awgrymu nad yw amddifadedd yn cael effaith sylweddol ar gyfranogiad yn y cynllun.

**Ffigur 2.4: Canran yr ysgolion fesul chwartel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014) – Ysgolion Creadigol Arweiniol a phob ysgol yng Nghymru**




[4] Mae gwybodaeth bellach am Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru i'w gweld fan hyn: http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?lang=cy

**Rhaglen Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan (Maes 2)**

2.15 Mae Rhaglen Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan yn cynnwys amrywiaeth o wahanol weithgareddau a ddyluniwyd i gynyddu a gwella cyfleoedd i athrawon, dysgwyr, artistiaid a sefydliadau celfyddydol/diwylliannol/treftadaeth gydweithio. Mae cyflwyniad sylfaenol i gydrannau allweddol y rhaglen wedi'i gynnwys isod, ac mae manylion pellach i'w gweld yn Atodiad 2.

*Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg*

2.16 Cylch Gwaith Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg, ymysg pethau eraill, yw darparu cyfleoedd i athrawon ac artistiaid ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau. Y maent hefyd yn rheoli Hyrwyddwyr Lleol y Celfyddydau, a fydd â'r rôl o hyrwyddo arferion gorau a chynorthwyo eraill i fabwysiadu dulliau tebyg.

2.17 Cwblhawyd y 15 mis cyntaf o gyllid ar gyfer y rhwydweithiau ym mis Mawrth 2017, gyda chyflwyniadau'n cael eu paratoi gan bob un o'r pedwar rhwydwaith i Gyngor Celfyddydau Cymru am ail flwyddyn (12 mis) o gyllid. Lansiodd y rhwydweithiau raglen Hyrwyddwyr y Celfyddydau, a fydd yn nodi athrawon eithriadol ym mhynciau'r celfyddydau ac ymarferwyr eithriadol y celfyddydau a fydd yn ceisio ysbrydoli a chynorthwyo eu cymheiriaid.

*Cronfa Profi'r Celfyddydau*

2.18 Mae Cronfa Profi'r Celfyddydau wedi'i dylunio i annog ysgolion i ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc 'fynd un cam ymhellach' wrth archwilio profiadau creadigol, diwylliannol a chelfyddydol. Y mae iddi ddwy elfen, a lansiwyd y ddwy ym mis Mawrth 2016.

2.19 Mae Ewch i Weld yn rhoi cyfle i ysgolion wneud cais am grantiau bach untro o hyd at £1,000 i dalu am ymweliadau unigol â digwyddiadau celfyddydol o ansawdd uchel mewn lleoliadau ledled Cymru. Gallai'r profiadau gynnwys ymweliadau â pherfformiadau ac arddangosfeydd neu ymweliadau i brofi gweithwyr proffesiynol y celfyddydau yn datblygu a chreu eu gwaith.


2.20 Diben Cydweithio Creadigol yw dwyn ysgolion a sefydliadau diwylliannol ynghyd er mwyn gweithio ar brosiectau arloesol a gaiff eu cynnal am hyd at un flwyddyn academaidd. Mae grantiau o rhwng £5,000 a £25,000 ar gael i dalu am hyd at 90% o gostau prosiect.

2.21 Cyflwynwyd newid ym mis Ebrill 2017 mewn ymateb i'r hyn a ystyriai Cyngor y Celfyddydau yn nifer siomedig o geisiadau o ansawdd uchel i'r gronfa hon. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno opsiwn 'Blasu' (grant o rhwng £5,000 a £7,500) ar gyfer prosiectau ar raddfa llai gydag elfen gref o arbrofi a/neu gymryd risg yn greadigol. Caiff y prosiectau hyn eu disgrifio yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Gyngor y Celfyddydau fel 'rhoi blaen y droed yn y dŵr' a 'rhoi cynnig ar rywbeth cwbl newydd'.

2.22 Mae'r data a ddarparwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer blwyddyn 2016/17 ar adeg llunio'r adroddiad hwn yn dangos y cymeradwywyd 106 o grantiau Ewch i Weld a 22 o grantiau Cydweithio Creadigol.


2.23 Mae Ffigur 2.5 yn dangos dosbarthiad nifer y grantiau a gymeradwywyd fesul rhanbarth consortiwm addysg yng Nghymru. Er cymhariaeth, mae dosbarthiad pob ysgol yng Nghymru hefyd wedi'i ddangos. Yn achos grantiau Ewch i Weld, mae'n dangos bod ysgolion yng Ngogledd Cymru (GwE) a De-ddwyrain Cymru wedi'u tangynrychioli, tra bod y gwrthwyneb yn wir yn achos De-orllewin a Chanolbarth Cymru (ERW) a Chanol De Cymru (CSC). Mae dosbarthiad grantiau Cydweithio Creadigol yn wahanol, gyda Gogledd Cymru (GwE) a De-orllewin a Chanolbarth Cymru (ERW) yn dominyddu. Nid yw'n glir ar hyn o bryd pam fod y gwahaniaethau hyn yn bod, ond y mae'n fater y gallai gweinyddwyr y rhaglen ddewis ei archwilio.

**Ffigur 2.5: Cynrychiolaeth dosbarthiad grantiau Cronfa Profi'r Celfyddydau, fesul rhanbarth**



2.24 Mae Ffigur 2.6 yn dangos dosbarthiad y grantiau a gymeradwywyd a'r ysgolion yng Nghymru fesul chwartel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae dosbarthiad grantiau Ewch i Weld yn agos i ddosbarthiad ysgolion yng Nghymru, ond y mae'n amlwg bod grantiau Cydweithio Creadigol o'r 25% o wardiau o amddifadedd lleiaf yng Nghymru wedi'u tangynrychioli a bod y trydydd chwartel wedi'i orgynrychioli. Efallai bod hyn yn rhywbeth y bydd gweinyddwyr y rhaglen yn dymuno mynd i'r afael ag ef.

**Ffigur 2.6: Canran yr ysgolion fesul chwartel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014) – grantiau Cronfa Profi'r Celfyddydau a phob ysgol yng Nghymru**





*Y Parth Dysgu Creadigol*

2.25 Platfform i rannu gwybodaeth ar-lein yw'r Parth Dysgu Creadigol, a lansiwyd ym mis Mawrth 2016 ac a gaiff ei reoli gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru. Y mae wedi'i ddylunio i fod yn ffynhonnell o wybodaeth a chydweithio i athrawon, dysgwyr, sefydliadau celfyddydol/diwylliannol ac ymarferwyr. Caiff deunydd ei ychwanegu at y porth fel y bydd ar gael.

2.26 Mae Ffigur 2.7 yn dangos data Google Analytics[5] ar gyfer y Parth Dysgu Creadigol: golygon tudalennau[6], ymwelwyr unigryw â'r wefan, a nifer yr adnoddau a welwyd.

**Ffigur 2.7: Data Google Analytics ar gyfer y Parth Dysgu Creadigol**




2.27 Defnyddiwyd dwy echelin-y i'w gwneud yn haws cymharu'r data, gyda'r brif echelin (ar y chwith) yn cael ei defnyddio ar gyfer nifer y golygon tudalennau a'r echelin ar y dde yn cael ei defnyddio ar gyfer nifer yr ymwelwyr unigryw a nifer yr adnoddau a welwyd.

2.28 Fel y byddai rhywun mwy na thebyg yn disgwyl, mae cydberthynas agos rhwng nifer y golygon tudalennau (sy'n cyrraedd brig o 9,137 ym mis Mawrth 2017) a nifer yr ymwelwyr unigryw (sy'n cyrraedd brig o 2,402 ym mis Mawrth 2017). Mae llinell tuedd linol y ddau yn bositif. Cyfnodau o wyliau ysgol sy'n esbonio'r brigau/cafnau yn nifer y golygon tudalennau. Patrwm tebyg sydd i nifer yr adnoddau a welwyd, gan gyrraedd brig o ychydig dros 1,000 ym mis Ionawr 2017 a mis Mawrth 2017. Unwaith eto, mae llinell y duedd linol yn bositif. Er mai cadarnhaol yw'r duedd o gynnydd yn nefnydd o'r wefan, nid oes gennym ddata i gymharu'r ffigurau hyn â hwy er mwyn ffurfio barn ar y lefelau o ddefnydd. Fodd

[5] Gwasanaeth dadansoddi data'r we a gynigir gan Google yw Google Analytics sy'n dilyn trywydd traffig gwefan ac yn adrodd ar hynny

[6] Achos o dudalen yn cael ei llwytho (neu'i hail-lwytho) mewn porwr.

bynnag, bydd y ffigurau hyn yn parhau i gael eu monitro wrth i'r gwerthusiad fynd rhagddo.

2.29 Pecyn cymorth ar-lein yw Celc, sydd ar gael o fis Mai 2017 (ac felly heb ei adolygu yn yr adroddiad hwn). Fe'i dyluniwyd i ddangos sut gall y celfyddydau creadigol ddarparu cyfleoedd ysgogol a chyfoethog i helpu athrawon i ateb gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae Celc wedi'i ddylunio ar gyfer athrawon Sylfaen Uwch, Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 3, gan ddarparu syniadau sy'n ysbrydoli, dolenni defnyddiol ac arweiniad ymarferol i athrawon er mwyn diwallu anghenion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

# 3. Astudiaethau Achos yr Ysgolion Creadigol Arweiniol

## Cyflwyniad

3.1 Mae’r adran hon yn cyflwyno astudiaethau achos ar saith o ysgolion sy’n cymryd rhan yng Nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Cawsant eu dethol gan dimau rhanbarthol yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, mewn cydweithrediad â’r tîm gwerthuso, yn enghreifftiau o arferion gorau o ysgolion Cylch 1 a gyflawnodd gysyniad yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn effeithiol. Ar y cam hwn, nid y bwriad yw adolygu sampl gynrychioliadol o’r ysgolion sy’n rhan o’r cynllun. Felly nid yw’n bosibl asesu ar y cam hwn p’un a yw’r astudiaethau achos yn nodweddiadol o’r ysgolion sy’n rhan o Gynllun yr Ysgolion Arweiniol Creadigol fel cyfanwaith. Yn hytrach, y diben oedd adolygu’r ysgolion hynny a ddewiswyd i ddangos potensial y cynllun; hynny yw, enghreifftiau o arferion gorau.

3.2 Cynhaliwyd gwaith maes yr astudiaethau achos yn gynnar yn 2017, sawl mis ar ôl cwblhau’r flwyddyn gyntaf o weithgarwch (ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2015/16). Roedd y canlynol yn rhan o ymweliadau’r astudiaethau achos:

- Uwch ymchwilydd o’r tîm gwerthuso yn ymweld â’r ysgol;
- Cyfweliadau yn ystod yr ymweliad ag uwch reolwyr yr ysgol sy’n rhan o’r cynllun;
- Cyfweliadau yn ystod yr ymweliad â’r athro/athrawon sy’n ymwneud â’r gwaith o gyflawni Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn yr ysgol;
- Grwpiau ffocws gyda disgyblion a gymerodd ran yn y cynllun;
- Cyfweliadau naill ai yn ystod yr ymweliad neu wedi hynny dros y ffôn â’r Asiant Creadigol ac, mewn rhai achosion, yr Ymarferwyr Creadigol a fu’n cynorthwyo’r ysgol sy’n rhan o’r cynllun.

3.3 Y saith o ysgolion dan sylw oedd (nid mewn unrhyw drefn benodol):

- Ysgol Gynradd Bryn, Caerffili
- Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley, Merthyr Tudful
- Ysgol Gyfun Cennydd Sant, Caerffili
- Ysgol Pen Coch ac Ysgol Maes Hyfryd, Sir y Fflint (astudiaeth achos ar y cyd)
- Ysgol Cynwyd Sant, Maesteg
- Ysgol Bro Teifi, Ceredigion

**Astudiaeth Achos 1: Ysgol Gynradd Bryn**

*Cefndir*

3.4 Mae Ysgol Gynradd Bryn ym Mhontllanfraith (ger Coed-duon). Mae'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed. Bwrdeistref Sirol Caerffili yw'r awdurdod lleol. Ar adeg yr ymweliad, roedd 191 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 27 a fynychai'r dosbarth meithrin ar sail ran amser. Mae'r disgyblion yn cychwyn yn y dosbarth meithrin yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed.

3.5 Mae amcangyfrif o 13.6% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Dyblodd y ffigwr hwn yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf. Ystyrir bod gan amcangyfrif o 16% o'r disgyblion anghenion addysgol ychwanegol, gan gynnwys nifer fach iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigurau hyn hefyd yn is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

3.6 Daw 97 y cant o'r disgyblion o gefndiroedd gwyn Prydeinig. Nid oes yr un disgybl yn siarad Cymraeg yn y cartref nac yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

3.7 Nifer fach iawn o ddisgyblion oedd wedi'u gwahardd dros dro yn ystod y flwyddyn flaenorol. Nifer fach iawn o ddisgyblion sy'n 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol. Ym mis Chwefror 2012 y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf. Penodwyd y Pennaeth presennol ym mis Medi 2009.

3.8 Fel ysgol gymharol fach, wyth yn unig o athrawon sydd gan Ysgol Gynradd Bryn, ac yng nghyd-destun Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, mae'n ymddangos bod hyn wedi golygu bod y negeseuon a'r egwyddorion craidd sy'n sylfaen i'r rhaglen wedi treiddio drwy'r holl grwpiau blwyddyn yn gyflym.

*Amcan*

3.9 Yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16, ceisiodd yr ysgol ddefnyddio ei statws fel Ysgol Greadigol Arweiniol i fynd i'r afael â mater y tynnwyd sylw ato yn ei harolygiad gan Estyn yn 2013: cyrhaeddiad isel mewn ysgrifennu gan fechgyn. Hefyd, roedd data arolwg PASS diweddar (Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol) yn dangos bod bechgyn Blwyddyn 5, yn benodol, yn teimlo'n llai bwriadus ynglŷn â dysgu, felly penderfynwyd y byddai 14 o fechgyn o'r grŵp blwyddyn hwnnw yn ffocws i ymyriad yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, gan roi cynnig ar y dull ac archwilio pa addysgeg allai gael ei chreu.

*Cyflawni*

3.10 O’r cychwyn cyntaf, roedd llais y disgyblion yn allweddol – rhoddwyd cyfle i’r bobl ifanc gyfrannu’r deunydd recriwtio a’u cyfarwyddo, a chyfweld â phob artist a gweithiwr proffesiynol creadigol a ymgeisiai i weithio yn yr ysgol. Yn y diwedd, dewiswyd awdur ac actor.

3.11 Roedd y broses gynllunio yn un o gydweithio – gydag athrawon ac artistiaid yn cydweithio i ddylunio’r ymyriad — a nodwyd bod angen gwneud ysgrifennu’n beth cyffrous, gwirioneddol, ac wedi’i wreiddio mewn profiadau cyffredin (datgelodd data Agweddau Disgyblion at eu Hunain a’r Ysgol nad oedd bechgyn Blwyddyn 5 yn cydweithio ac nad oeddynt mewn gwirionedd wedi bondio fel grŵp).

3.12 Am 16 wythnos yn ystod tymor y gwanwyn, 2016, bu’r awdur yn gweithio gyda bechgyn Blwyddyn 5 am un diwrnod yr wythnos. Yn ystod yr amser hwnnw, nid oedd y bechgyn yn dilyn yr amserlen, ac roeddynt yn ymdrochi mewn cyfres o sefyllfaoedd chwarae rôl ysgogol a phryfociol a awgrymai amrywiaeth eang o bosibiliadau. Dyluniwyd yr ysgogiadau i fod yn benagored ac fel bod gofyn eu datblygu ymhellach er mwyn cwblhau’r prosiect. Dyma fydd tasg y bechgyn.

*Canlyniadau*

3.13 O siarad gyda’r Dirprwy Bennaeth a Chydlynydd Ysgol yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, daeth yn amlwg yn sydyn i’r prosiect fynd â’r athrawon i gyfeiriadau newydd y tu hwnt i’w ‘parthau cyfforddus’. Wrth drafod sut roedd yr elfen ysgrifennu wedi’i phlethu i mewn i’r elfennau dramatig a chwarae rôl, dwedwyd i’r athrawon golli hyder wrth iddynt sylweddoli, ar ôl naw o’r 16 wythnos, na wnaed ymgais ar ysgrifennu hyd hynny. Er bod y prosiect yn hwyl ac yn ennyn y bechgyn i ymgysylltu, datblygodd pryderon nad oedd, efallai, yn cynnig digon i wella ysgrifennu. Awgrymodd yr artist a weithiai ar y prosiect eu bod yn aros ychydig yn hwy cyn dechrau ar yr elfennau llythrennedd mwy ffurfiol, gan esbonio y byddai’r canlyniadau’n fwy pwerus o ymdrochi’n ddyfnach ac mewn ffordd mwy parhaol yn y chwarae rôl.

3.14 Gwelwyd bod hyn yn wir. Ar ôl wythnos 11, pan ddechreuwyd cyflwyno tasgau ysgrifennu, dwedwyd bod y bechgyn wedi ymgolli gymaint yn y byd dychmygol a grewyd gan yr awdur/actor a’u bod yn poeni gymaint am y cymeriadau yr oeddynt wedi helpu i’w ffurfio fel bod eu gwaith ysgrifennu’n llifo’n hawdd.

3.15 Roedd amrywiaeth o grwpiau gallu ymysg y bechgyn o ran ysgrifennu. Meddai'r athrawon fod rhai o'r bechgyn yn yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn ysgrifennu'n fedrus iawn ar ddiwedd y prosiect ac, mewn ffordd, roedd eu potensial wedi'i 'ddatgloi' gan y ffordd ymgysylltiol yr oedd yr artist wedi gosod y gweithgaredd. Roedd eraill, is eu gallu, yn dangos gwahanol fathau o welliant – gallu i fod yn agored am gymeriadau, trafod eu nodweddion a dangos diddordeb a hyder cynyddol wrth ysgrifennu.

3.16 Teimlai'r athro dosbarth i'r gwaith gael effaith yn y ffyrdd canlynol:

3.17 I'r bechgyn a gymerai ran, roedd yn ailfywiogi'u diddordeb mewn dysgu yn gyffredinol; roedd yn eu helpu i fondio fel grŵp a theimlo synnwyr o ddiben a pherthyn tuag at yr ysgol. Yn olaf, o ran tasgau wedi'u safoni gan yr athro, meddai'r athro iddo gael effaith fesuradwy ar eu hysgrifennu a'u llafaredd:

- Gwnaed cynnydd gan 100% o'r disgyblion
- Gwnaeth 64% gynnydd o ddwy neu ragor o is-lefelau (yn seiliedig ar waith wedi'i asesu a'i safoni gan athrawon)
- Roedd 79% bellach yn gweithio ar Lefel Cwricwlwm Cenedlaethol CA2 neu uwch
- Roedd 43% wedi cyrraedd y targed personol a osodwyd.

3.18 I'r artist a gyd-gynlluniodd ac a gyd-gyflawnodd y prosiect, roedd wedi eu helpu i ddeall deinameg bywyd ysgol yn well, ble i gydsynio ar bwyntiau cynllunio a ble i sefyll yn gadarn er mwyn cynnal grym y prosiect – roedd oedi cyn cychwyn ar y cam ysgrifennu'n enghraifft dda o hyn.

3.19 I'r athrawon yn Ysgol Gynradd Bryn, trefnwyd amser rhyddhau o'r dosbarth er mwyn i bawb gael cyfle i weld y dulliau ar waith drwy fod yn bresennol mewn o leiaf un diwrnod cyfan o sesiwn. Arweiniodd hyn at y staff yn derbyn ac, yn y pen draw, yn hyrwyddo'r dulliau hyn. Mae tymor y gwanwyn bellach wedi'i ddynodi'n dymor dysgu creadigol, lle caiff y mathau hyn o ddulliau eu cynnal a'u monitro o ran effaith. Dyma effaith barhaus ac un y mae'r ysgol eisoes wedi'i hymwreiddio yn ei hethos a'i harferion.

*Casgliad*

3.20 O safbwynt yr athrawon, nid oes amheuaeth bod profiad Ysgol Gynradd Bryn o'r Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cael ei ystyried yn eithriadol o gadarnhaol, ond nid oes modd gwybod mor gynnar ym mywyd y rhaglen p'un a yw'r gwaith a wnaed yno yn 2015/16 yn arwydd o waith yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn fwy cyffredinol.

3.21 Efallai bod elfennau o fod hon yn enghraifft eithriadol a fydd bob amser yn drysu beth bynnag fydd 'cyfartaledd' cyffredinol gwaith yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Er enghraifft, roedd maint bychan yr ysgol yn ddi-os yn fuddiol mewn perthynas â rhannu'r hyn a ddysgwyd. Hefyd, roedd y staff, bron yn gytbwys, yn cynnwys grŵp o weithwyr proffesiynol newydd o 3-4 blynedd a staff llawer mwy profiadol o 15 mlynedd neu fwy. Yn gynyddol, dyfalai'r athro dosbarth y gallai'r cymysgedd o arloesedd, profiad a maint delfrydol y sefydliad fod wedi golygu bod y prosiect cychwynnol yn cael mwy o effaith.

3.22 Fodd bynnag, mewn enghreifftiau effeithiol iawn, hyd yn oed os mai eithriadau ydynt yn hytrach na'r arferol, mae modd dysgu gwersi pwysig; ymhellach, ar gyfer Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn fwy cyffredinol, mae rhai o nodweddion nodedig prosiect Ysgol Gynradd Bryn yn cynnwys:

- Cydbwysedd effeithiol o bartneriaeth rhwng yr artist a'r athro
- Roedd myfyrio'n barhaus cyn cynllunio o gymorth i dargedu'r dysgwyr a rhoi ffocws i ddyluniad yr ymyriad
- Roedd dulliau bwriadol o rannu gwybodaeth yn golygu bod modd i holl athrawon yr ysgol ymgysylltu â dull yr artist a chael dealltwriaeth ohono
- Mae cefnogaeth yr uwch dîm arwain wedi golygu bod defnyddio dulliau creadigol yn yr hirdymor yn haws i bawb ei fabwysiadu
- Roedd dull bwriadus o gasglu tystiolaeth yn golygu bod canfyddiadau disgyblion, dyfyniadau, gwaith wedi'i safoni gan athrawon, adborth rhieni a myfyrdodau athrawon oll yn rhan o'r adroddiad gwerthuso terfynol
- Mae Arferion Creadigol y Meddwl wedi'u plethu i mewn i strategaeth yr ysgol mewn perthynas ag asesu'n fwy cyffredinol – mae'r arferion bellach yn rhan o'r fasged o sgiliau a'r priodoleddau y mae athrawon a dysgwyr yn chwilio'n weithredol amdanynt.

**Astudiaeth Achos 2: Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley**

*Cefndir*

3.23 Mae Ysgol yr Esgob Hedley yn ysgol gyfun o'r 1960au ar fwy nag un safle, wedi'i lleoli ychydig i'r de o Fannau Brycheiniog. Yn hanesyddol, byddai'r ardal wedi cynnig cyflogaeth yn bennaf drwy weithgynhyrchu neu mwyngloddio. Ond ers y 1980au, bu dirywiad cyson mewn diwydiant ac felly cynnydd mewn diweithdra rhwng cenedlaethau.

3.24 Yn sgil hynny, mae'r ysgol yn wynebu heriau niferus. Daw mwyafrif helaeth y disgyblion o Flaenau'r Cymoedd, gan wasanaethu plwyfi Aberdâr, Hirwaun, Merthyr Tudful, Ynysowen, y Gurnos, Dowlais, Glyn Ebwy, Tredegar a Rhymni. Mae'r ysgol yn gwasanaethu dalgylch o anfantais economaidd, sy'n ganlyniad i ddirywiad diwydiant trwm, yn arbennig mwyngloddio a gwneuthuro dur yng Nghymoedd De Cymru a'r ardaloedd o amgylch. Mae 23 y cant o'r plant ar gofrestr prydau ysgol am ddim ac mae gan 24% Saesneg fel iaith ychwanegol. Yn lleol, mae cymunedau Pwylaidd a Philipinaidd cryf, wedi'u gyrru'n rhannol gan gyflogaeth yn y ffatri prosesu cig a'r ysbyty lleol yn eu trefn.

3.25 Fel ysgol ffydd, mae'n denu plant o ddalgylch eang. Mae naw o goetsis yn cludo plant o radiws o 18 milltir, yn ymestyn mor bell â Brynmawr a Glyn-nedd. Ar adeg yr ymweliad, roedd 490 o blant ar y gofrestr, gyda 116 o ymgeiswyr ar gyfer carfan Blwyddyn 7 y mis Medi canlynol.

3.26 Mae gan dair ysgol gynradd Gatholig gysylltiadau cryf ag Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley ac mae'r ysgol bob amser yn chwilio am ffyrdd i gysylltu ag athrawon eraill, dysgwyr a'u teuluoedd yn y gymuned leol.

*Amcanion*

3.27 Mae hanes taith Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley tuag at statws Ysgol Greadigol Arweiniol yn deillio o newid Pennaeth ddeng mlynedd yn ôl. Bryd hynny, gwelodd y pennaeth newydd fod ansawdd da o ddarpariaeth yn y cwricwlwm craidd a'r addysgu pwnc arbenigol, ond gwelodd fod angen mynd i'r afael â ddiffyg dyhead ac uchelgais ymysg y dysgwyr. Er hynny, bu'r ysgol y agored i amrywiaeth o ymyriadau a luniwyd i gynyddu dyhead ac ymgysylltiad â'r byd yn ehangach. Cafodd athrawon eu hannog i ddatblygu drwy ymweliadau lleol, cenedlaethol a thramor, gan alluogi i werthoedd ac ethos yr ysgol esblygu.

3.28 Pan lansiwyd Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, gwelodd y Dirprwy Bennaeth ar unwaith y potensial oedd iddo i fynd â'r ysgol i lefel arall. Roedd athro cydlynol yr Ysgolion Creadigol Arweiniol eisoes yn hen gyfarwydd â dull Pum Arfer Greadigol y Meddwl o ddysgu, fel a amlinellwyd gan Art Costa, a gwelodd gysylltiadau â'r Olwyn Greadigol, yn ogystal â'r rhagdueddiadau sy'n sail i ymarfer creadigol.

*Cyflawni*

3.29 Bu Asiant Creadigol pwrpasol yr ysgol yn gefnogol iawn drwy gydol y cyfnod, ac ar wahân i ganfyddiad Cydlynydd Ysgol yr Ysgolion Creadigol Arweiniol o broses or-fiwrocrataidd gwerthusiad Blwyddyn 1, mae dyluniad cyffredinol y rhaglen a safle a rôl y personél sy'n ymwneud â hi yn teimlo'n iawn ac yn addas i'r diben. Meddai, er bod dyluniad yr ymyriad yn ymddangos yn 'drwm o ran pobl', roedd yn bwysig bod Asiant Creadigol yn gweithredu fel ffrind beirniadol a llwybr at artistiaid a gweithwyr proffesiynol creadigol sy'n ddibynadwy.

3.30 Bu i Gydlynydd yr Ysgol raeadru'r hyfforddiant a dderbyniodd cyn cychwyn ar Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol i gymheiriaid yn Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley. Roedd canfyddiad bod rhai athrawon yn fwy parod i dderbyn y cysyniadau nag eraill ond, fel Dirprwy Bennaeth, roedd modd i'r Cydlynydd gynnig rhywfaint o broffil a statws i'r ymyriad ac roedd yr athrawon a'r disgyblion yn frwdfrydig ynglŷn â'r prosiectau cychwynnol mewn Saesneg a Chelf. Pwysleisiai bwysigrwydd cael cefnogaeth uwch athrawon. Pan fo angen ymrwymo amser, pan allai fod angen tynnu plant oddi ar yr amserlen draddodiadol er mwyn cyflawni potensial y prosiect, awgrymwyd y gallai fod angen i'r Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth sicrhau bod yr ymrwymiad yn parhau, yn arbennig yn ystod adegau o asesu neu arholi dwys.

3.31 Cyn i'r prosiectau gychwyn, sicrhaodd yr ysgol fod ei chynllun i ddod â dysgu'n fyw drwy brofiadau mwy dilys mewn Saesneg a Chelf yn cydweddu â'i Chynllun Gwella Ysgol trosfwaol a'i fod hefyd yn dilyn trywydd sy'n cydredeg â statws Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley fel Ysgol Arloesi.

3.32 Roedd gan bob un o'r athrawon a fu'n ymwneud â'r ddau brosiect cyntaf – moderneiddio datganiad dramatig o *Romeo and Juliet* a dylunio a gweithgynhyrchu tlysau yn arddull oes Elisabeth – ddiddordeb yn y posibiliadau a gwyd wrth i bobl broffesiynol a chreadigol ddod a'u harddulliau gweithio a'u geirfa arbenigol i mewn i'r amgylchedd dysgu. Y gweithwyr proffesiynol creadigol a fu'n

gysylltiedig â'r prosiect oedd actor ac awdur a arweiniai ar ochr drama gyda disgyblion Blwyddyn 8 a gemydd proffesiynol a weithiai gyda Blwyddyn 10.

*Canlyniadau*

3.33 Roedd y disgyblion a fu'n ymwneud â'r ddau brosiect yn ddiamwys eu canmoliaeth i'r broses gyfan ac yn awyddus i rannu'u canfyddiadau o'r buddion a'r effeithiau.

3.34 Gan siarad am briodoleddau penodol y gweithwyr proffesiynol dan sylw, meddai disgyblion Blwyddyn 8:

> "Roedden nhw'n gwneud y dysgu yn hwyl a llai ffurfiol; roedden nhw'n rhannu storïau am eu bywydau eu hunain ac yn gadael ichi fynd i mewn ychydig i'w bywydau nhw, a oedd yn gwneud i bawb ymlacio a theimlo fel ein bod ni'n fwy cydradd."

> "Esboniodd Karen sut roedd hi'n gweithio o adref, a'i bod hi'n defnyddio pob math o ddeunydd crai, metel sgrap hyd yn oed. Fe wnaeth hi un fodrwy a gostiodd ryw £20 iddi, ond cafodd ei gwerthu am £500. Fe wnaeth imi feddwl fod modd i'r mathau hyn o swyddi, lle gallwch wneud yr hyn rydych chi'n ei hoffi fwyaf, fod yn realistig." (Disgybl Blwyddyn 10)

3.35 Roedd y disgyblion fel arfer yn ymwneud â 2-3 o sesiynau cychwynnol (yn paratoi neu'n ymchwilio) ac wedyn 5-6 o sesiynau pellach (yn gweithio'n fwy ymarferol, yn ymarfer golygfeydd neu'n prototeipio gemwaith). Roedd yr arddull fwy ymarferol hon o ddysgu yn rhywbeth a ysgogai'r holl bobl ifanc. Fel y dywedodd un bachgen ifanc: "Roedd y dysgu'n fwy ymarferol, ac roedden ni'n defnyddio gwahanol ofodau. Roedd y cyfan i weld yn llifo'n well."

3.36 Gan ofyn i'r disgyblion fyfyrio ynglŷn â beth oeddynt wedi'i fwynhau fwyaf a'i fwynhau leiaf, diddorol oedd gweld hollt clir iawn rhwng ochr greadigol, archwiliadol y prosiect a'r adegau hynny pan oedd angen troi at ddulliau mwy traddodiadol o gofnodi a myfyrio ar weithgarwch — yn ei hanfod, dyma ddwy arddull wahanol o ddysgu. Ar yr ochr gadarnhaol, roedd 'y paratoi ar sail gwaith crefft (creu propiau, dylunio gemwaith ac ati), cydweithio â chyfoedion wrth ddysgu'n ymarferol (byrfyfyrio, rhannu syniadau, cyd-greu), y perfformiad terfynol, yr actio, yr ymarferion, creu'r rhannau, weldio a sodro'. Y rhannau'r oeddynt yn eu mwynhau leiaf oedd 'ysgrifennu, golygu, gwneud yr ymchwil ddesg ymlaen llaw ac, i rai, yr ennyd gyntaf frawychus o siarad gerbron cynulleidfa'. Mae nifer o ffactorau ar waith fan hyn a allai esbonio ymatebion y disgyblion. Mae rhywbeth egnïol a hwyliog am ddysgu'n ymarferol – creu pethau, archwilio syniadau, gwella drwy

brofi a methu mewn ffyrdd ymarferol, ac ati. Mae’n ymddangos bod rhywbeth ynglŷn â chamau o weithgarwch sy’n dychwelyd at ddysgu mwy theoretig, wrth y ddesg, sy’n lleihau ysgogiad ac ymgysylltiad â dysgu. Mae awgrymiadau hefyd o hollt rhwng dysgwyr sy’n cael eu denu gan agweddau perfformio’r celfyddydau a’r rhai sy’n mwynhau’r elfennau technegol a chrefft yn fwy. Gallai hyn esbonio pam fod y syniad o ‘gynulleidfa’ yn gael ei weld yn beth cadarnhaol a negyddol yn y grŵp, a ystyriai’r ymyriad yn gwbl gadarnhaol yn eu hasesiad cyffredinol ohono.

3.37 Meddai’r Dirprwy Bennaeth ei bod yn bosibl na fyddai agweddau cadarnhaol y disgyblion tuag at yr ymyriad wedi bod mor amlwg ddeng mlynedd ynghynt, cyn i’r ysgol ddechrau gweithredu amryw strategaethau i helpu i hybu hyder a dyhead y dysgwyr. Teimlai mai pwysig oedd cydnabod hyn, yn yr ystyr y gallai fod parodrwydd neu dderbyngarwch o ran y mathau o gyfleoedd y mae Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn eu cynnig. Yn hyn o beth, roedd Ysgol Uwchradd yr Esgob Headley wedi ymgymryd â gwaith paratoadol a oedd yn eu galluogi i fanteisio’n llawn ar gyfle’r Cynllun. Heb fod y sefyllfa honno’n bodoli, teimlai y gallai statws Ysgol Greadigol Arweiniol fod wedi bod yn llethol i gychwyn.

3.38 Rhoddodd yr athrawes Saesneg a fu’n gweithio ochr yn ochr â’r Ymarferwyr Creadigol ystyriaeth i’r hyn a ddysgodd o’r broses. Yn ei barn hi, bu’r dysgu ar lefel dechnegol — ffyrdd i ddefnyddio’r gofodau perfformio’n well, gwahanol ymarferion cynhesu drama diddorol, dulliau ar gyfer ymarfer a rheoli’r trafodaethau a ddeilliai ohonynt, ac ati. Ni fu’n newid enfawr o ran safbwynt nac athroniaeth. Efallai nad yw hyn yn fater o syndod, o ystyried bod i addysgu drama hanes hir o fod yn faes mwy rhydd ac arbrofol o’r cwricwlwm, efallai’n debycach o ran arddull a naws i gymheiriaid proffesiynol ym myd theatr nag y gall pynciau eraill yn y cwricwlwm ei hawlio. Nid syndod, felly, oedd clywed yr athrawes ddosbarth yn awgrymu nad oedd addysgeg yr actorion yn rhy annhebyg i’w haddysgeg hithau.

3.39 Yn hynny o beth, ni chafodd hithau’n bersonol synnwyr newydd o eirfa, disgwrs na naws. Yn hytrach, meddai fod defnydd yr actor o ofod – i ymarfer a pherfformio’n gyhoeddus ynddo – yn teimlo’n go radical. Yn sgil hyn, ailystyriai’r ffordd y mae’r adran Saesneg ar hyn o bryd yn meddwl am eu gofodau dysgu; hefyd, mae hi a’i chymheiriaid, yn ei hanfod, yn ailadrodd prosiect ‘moderneiddio Shakespeare', gan ganolbwyntio ar *Hamlet* y tro hwn, a’i arwain heb fewnbwn yr actor.

*Casgliad*

3.40 At ei gilydd, bu profiadau Blwyddyn 1 Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley fel Ysgol Greadigol Arweiniol yn eithriadol o gadarnhaol. Mae ymrwymiad ar lefel uwch i werthoedd Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau a chred yn y buddion y gall cwricwlwm sy'n gyfoethog o'r celfyddydau ei gynnig. Dangosodd Cydlynydd Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ddealltwriaeth ddofn o'r cyswllt rhwng sgiliau creadigol ac Arferion Creadigol y Meddwl, fel sydd wedi'i osod allan yn yr hyfforddiant paratoadol a luniwyd gan Greadigrwydd, Diwylliant ac Addysg, a gwell cyfleoedd o lwyddiant yn yr ysgol a'r byd yn ehangach. Nid oes amheuaeth y bydd y ffaith bod yr ysgol yn gyfarwydd â gwaith Art Costa wedi helpu. Disgrifiodd yr ysgol fel gwaith sy'n dal i fod ar y gweill. Ar hyn o bryd, teimlai fod yr elfennau creadigol rywfodd yn plethu drwy arddulliau addysgu eraill, ac yn eu cyfoethogi; roedd rhai ohonynt yn fwy traddodiadol, ac yn canolbwyntio ar atgyfnerthu gwybodaeth a sgiliau sylfaenol. Yn y dyfodol, ystyriai'r potensial am fwy o synergedd rhwng datblygu gwybodaeth graidd ac addysgegau creadigol, ond beth bynnag a ddaw, nid oes amheuaeth ynglŷn â'r dilysrwydd a'r effaith y mae'r daith eisoes yn ei chael ar athrawon a phobl ifanc.

**Astudiaeth Achos 3: Ysgol Gymunedol Cennydd Sant**

*Cefndir*

3.41 Ym Mwrdeistref Sirol Caerffili y mae Ysgol Cennydd Sant. A hithau wedi'i lleoli ar dir helaeth, gyda golygfeydd o Fasn Caerffili lled-wledig, y mae'n ysgol gymunedol 11-18 gymysg boblogaidd o ragor na 1,100 o ddisgyblion. Yn hanesyddol, tref fwyngloddio oedd Caerffili, ac ers y dirywiad yn y diwydiant hwnnw, er rhai pocedi o adfywiad a rhai cyfleoedd yn y sectorau manwerthu, mae diweithdra wedi parhau'n uchel ac nid anghyffredin yw diweithdra rhwng y cenedlaethau mewn teuluoedd.

*Amcan*

3.42 Roedd Pennaeth Daearyddiaeth yn awyddus i archwilio manteision dulliau mwy creadigol o ddysgu gyda grŵp wedi'i dargedu o bobl ifanc y teimlid bod ganddynt botensial a oedd heb ei gyflawni yn y pwnc. Roedd rhesymau amrywiol a chymhleth am hyn, ond gyda'i gilydd roedd y grŵp yn cynrychioli plant a oedd wedi colli rhywfaint o'u brwdfrydedd am ddysgu, a chanddynt ddiffyg ysgogiad weithiau, a dyluniwyd y prosiect hwn i roi hwb i'w sgiliau academaidd (casglu data a chyflwyno yn arbennig) a'u hunanhyder.

*Cyflawni*

3.43 Fel un o'r tonnau cyntaf o ysgolion yng Nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, mae'r ysgol bellach yn tynnu at derfyn eu gweithgareddau a gyllidir, ond mae ganddynt gynlluniau i ymestyn cyrhaeddiad ac effaith addysgegau creadigol gyda charfannau penodol o ddisgyblion.

3.44 Arweiniwyd y flwyddyn gyntaf o weithgarwch gan Bennaeth Daearyddiaeth, a weithredai'n Gydlynydd Ysgolion Creadigol Arweiniol yn dilyn ymadawiad y Dirprwy Bennaeth. Hithau hefyd oedd arweinydd prosiect yr ystafell ddosbarth ar ymyriad a geisiai ddatblygu gwybodaeth ddaearyddol a sgiliau data drwy ffotograffiaeth.



3.45 Gan weithio'n agos gydag artist-ffotograffydd, bu i grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 8 sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ddyfnhau eu dealltwriaeth o'r amgylchedd lleol a chysyniadau ehangach o afonydd yn llifo o'u tarddiad i'r môr. Fel rhan o'r prosiect hwn, bu'r plant yn gweithio gyda ffotograffydd proffesiynol i gofnodi cwrs afon leol ar bwyntiau strategol, gan ddangos gwahaniaethau allweddol yn nodweddion yr afon a'r tirlun ffisegol o'i hamgylch.

3.46 Rôl y ffotograffydd oedd annog y plant i ymgysylltu'n ddyfnach â'r amgylchedd, gan edrych yn agosach ar olygfeydd neu ffurfiau cerrig gyda llygad artist am fanylder a chanfod ffyrdd i gipio prydferthwch naturiol yn ogystal â chrynhoi gwybodaeth ddaearyddol.

*Canlyniadau*

3.47 Wrth siarad gyda'r plant a gymerai ran yn y prosiect hwn, roedd yn eglur i'r gwaith adael ei farc. Pan ymwelwyd â'r ysgol i baratoi'r astudiaeth achos hon, roedd yn tynnu at flwyddyn galendr lawn ers iddynt gychwyn ar y prosiect, ond siaradent amdano â ffresni a brwdfrydedd a wnâi iddo deimlo'n fwy diweddar. Roedd y modd

yr oeddynt yn cofio manylion bach, ac mor feddylgar oedd eu myfyrdodau ynghylch effaith, yn ddiffuant ac yn ymddangos yn arwydd o ba mor wahanol fu'r profiad iddynt o'r hyn a ystyrient yn ysgol 'normal'.

3.48 Esbonient iddynt sianelu'u gwaith dysgu daearyddol i dri phrif allbwn: llyfrau braslunio, blogiau Tumblr, ac arddangosfa ffotograffig yng Nghastell Caerffili.

3.49 Pan ofynnwyd p'un a yw'r mathau hyn o allbwn yn teimlo'n wahanol i fyfyrdodau arferol ar ddysgu, neu'n well na hwy, o ran eu hasesu gan athrawon, cyfeiriodd pob un at y synnwyr o lawenydd a deimlent yn y gwaith. Roedd cydweithio yn miniogi'u synnwyr gweledol ac yn codi ansawdd eu gwaith fel y teimlent fod eu ffotograffau o safon broffesiynol. Disgrifiodd un ferch y synnwyr o deimlo balchder bron yn broffesiynol wrth sefyll yng Nghastell Caerffili a chlywed pobl wrth gerdded heibio yn rhoi sylwadau cadarnhaol am ffotograffau a dynnodd. Roedd yr hwb i hunanhyder disgyblion yn amlwg, hyd yn oed flwyddyn yn ddiweddarach.

3.50 Pan ofynnwyd iddynt ddewis y peth y gwnaethant ei fwynhau fwyaf a'r peth y gwnaethant ei fwynhau leiaf ynglŷn â'r prosiect, roedd eu hymateb yn unfrydol: ystyriwyd mai'r elfennau gorau oedd yr agweddau ymarferol, awyr agored, a'r ymagwedd fwy proffesiynol at ffotograffiaeth. Yr elfennau lleiaf poblogaidd oedd pan fyddai'r cwricwlwm 'traddodiadol' yn cripio'n ôl i mewn, e.e. gorfod llenwi'r siartiau bar ar sbwriel a gwastraff a ganfuwyd wrth ymyl yr afon.

3.51 Roedd y disgyblion yn mwynhau'r ffordd y daeth ffotograffiaeth yn ddull i'w cael i fynd allan o'r ystafell ddosbarth ac yn agosach at ddysgu yn y byd go iawn. Roedd y syniad allweddol a gawsant drwy'r prosiect yn un twyllodrus o syml, ond pwerus: os ydych yn dysgu am afonydd, ewch at afon, yn hytrach nag i ystafell ddosbarth. Roedd dwy ochr i bŵer y ffotograffau wedi'u fframio: roeddynt yn waith artistig ynddynt eu hunain, ond roeddynt hefyd yn dod â'r ennyd ddilys honno'n ôl i'r ysgol, ac roedd y plant yn cysylltu â hynny mewn ffordd gadarnhaol iawn. Fel y dywedodd un ferch: "Fe allen ni fod wedi dysgu'r un wybodaeth ddaearyddol wrth eistedd fan hyn wrth y ddesg. Ond flwyddyn yn ddiweddarach, dydw i ddim yn meddwl y byddwn i'n cofio gymaint ag ydw i, am iddo fod yn well. Roedden ni tu allan, roedd yn hwyl, roedden ni'n rhannu'r holl beth fel grŵp – roedd yn gwneud yr holl beth yn fwy cofiadwy."

3.52 Pan ofynnwyd i'r plant p'un a oedd y prosiect hwn wedi effeithio arnynt y tu hwnt i'r dysgu daearyddol craidd, roeddynt oll yn awgrymu y bu'r ddealltwriaeth a gawsant gan y ffotograffydd o fywyd gwaith artist yn agoriad llygad ac yn ysbrydoliaeth.

"Pan oedd [y ffotograffydd] yma byddai hi'n siarad am ei bywyd. Mae hi'n go enwog ac wedi ennill gwobrau. Roedd hynny'n gyffrous, ond roedd yn ddiddorol mewn ffyrdd eraill, am ei bod hi'n dod o'r ardal hon ac roedd hi'n union fel ni. Roedd wirioneddol yn agoriad llygad."

3.53 Roedd effeithiau symlach hefyd. Esboniodd un ferch ifanc iddi fwynhau bod yn yr awyr agored a cherdded gymaint nes iddi ofyn i'w theulu os gallent fynd i gerdded gyda'i gilydd yng nghefn gwlad weithiau, sydd bellach yn rhywbeth maen nhw'n gwneud yn aml. Er y gallai'r newidiadau hyn fod yn anodd eu mesur ac, mewn ffordd, ar raddfa go fach, y maent yn cysylltu'n gryf â nodau trosfwaol Ysgol Cennydd Sant.

3.54 Esboniodd Dirprwy Bennaeth yr ysgol fod tair ffordd bwysig y gwnaeth Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol helpu'r ysgol i gyflawni'i blaenoriaethau. Yn gyntaf, roedd yn faes allweddol o waith sydd â'r nod o wella lefelau ymgysylltiad â dysgu ymysg disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Yn ail, fe'i dyluniwyd i fod yn rhaglen o ddysgu a gaiff ei rannu a'i ddosbarthu, felly ystyriai ei bod yn bwydo i mewn i flaenoriaethau DPP ar draws yr ysgol gyfan. Yn ail, roedd yn gyfle rheolaeth-ganol ysgogol iawn i Bennaeth Daearyddiaeth, a fu'n rheoli'r gyllideb a'r gwaith gweinyddol cyffredinol.

3.55 Roedd pob un o'r plant a fu'n disgrifio eu cyfranogiad ac yn siarad am eu ffotograffau yn dod o'r garfan o rai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim; roedd pob un wedi dangos rhyw lefel o anghenion dysgu ychwanegol, tangyflawni a/neu bresenoldeb gwael yn yr ysgol. O ganlyniad i gymryd rhan yn y prosiect, teimlai'r Dirprwy Bennaeth ei bod yn eglur eu bod bellach yn effro i ddysgu'n gyffredinol ac, yn ôl gwaith wedi'i asesu gan athro mewn Daearyddiaeth, roeddynt yn gwneud cynnydd rhagorol ar 1-3 is-lefel ar gyfartaledd. Yng ngeiriau un bachgen:

> "Ry'n ni wedi cael llawer iawn o'r prosiect yma. Nid beth wnaethon ni llynedd yn unig, ond nawr mae gennyn ni gyfleoedd newydd i wneud pethau creadigol. Mae gennyn ni brosiect fel hwn yn yr Almaen, felly fe allwn ni deithio yno ac ail-wneud rhywfaint o'r dysgu wnaethon ni fan hyn gyda phlant o'r Almaen a Syria. Mae wedi gwneud imi deimlo'n well ynglŷn â bod yn yr ysgol. Mae'n fwy o hwyl, a fyddwn i ddim eisiau colli allan ar rywbeth fel hyn pe byddai'n codi eto."

3.56 Mae cynaliadwyedd yn ystyriaeth allweddol i'r ysgol a diddorol oedd clywed eu barn ar hyn. Mae math o gynaliadwyedd a gaiff ei arddel ganddynt a ddaw yn

naturiol drwy rannu arferion athrawon a chynyddu sgiliau drwy DPP wedi'i arwain gan gymheiriaid. Bydd hyn yn sicrhau y caiff nid yn unig athrawon arweiniol y prosiect, ond staff eraill hefyd nad oeddynt yn ymwneud yn uniongyrchol, eu hysgogi i ystyried addysgegau creadigol. Fodd bynnag, mae adegau eraill pan fydd angen ffotograffydd proffesiynol neu debyg er mwyn rhoi cychwyn ar thema neu gynhyrchu dull newydd o ddysgu gan ddefnyddio ffurf benodol ar gelf neu gyfrwng penodol — yn hyn o beth bydd angen i ysgolion fod yn ddyfeisgar ac entrepreneuraidd â'u cyllidebau eu hunain. Y mae ymrwymiad i fod felly, ac roedd y Dirprwy Bennaeth yn gadarn ei sicrwydd eu bod yn bwriadu cynnal eu hymgysylltiad â'r dull hwn o ddysgu ac addysgu.

3.57 Awgrymodd Pennaeth Daearyddiaeth y gallai fod dadl dros gyllid Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau neu, yn y pen draw, cyllid mewnol yr ysgol, er mwyn gallu cynnig pwynt Cyfrifoldeb Dysgu ac Addysgu am gydlynu gwaith yn arddull Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Byddai dwy fantais i hynny, yn ei barn hi: byddai'n sicrhau statws a gweledededd y gwaith hwn yn y tymor hir a hefyd yn golygu y byddai amser oddi ar yr amserlen ar gyfer Cyfrifoldeb Dysgu ac Addysgu yn creu llai o ddibyniaeth ar athrawon cyflenwi i lenwi'n ôl dros 'amser prosiect' sy'n cael ei dreulio ar gydgynllunio a gwerthuso.

3.58 Gan adeiladu tuag at y dyfodol, mae Ysgol Cennydd Sant bellach yn ehangu'r prosiect ffotograffiaeth. Mae cyllid wedi'i sicrhau i fynd â'r prosiect ffotograffiaeth, gan gynnwys y grŵp gwreiddiol o blant, i'r Almaen fel rhan o brosiect 'gefeillio ysgolion' gan gynnwys plant o'r Almaen a Gweriniaeth Tsiec a phlant sy'n ffoaduriaid o Syria yn ymuno mewn menter gyffrous, draws-ddiwylliannol.

*Casgliad*

3.59 O ystyried mai'r uchelgais pennaf ar gyfer ymyriad yr Ysgolion Creadigol Arweiniol oedd helpu dysgwyr sy'n derbyn prydau ysgol am ddim i ymgysylltu a'u helpu i adeiladu eu huchelgais a'u dyhead, y canfyddiad oedd i brosiect Blwyddyn 1 fod yn llwyddiannus iawn.

3.60 Yr her, sy'n cael ei chydnabod yn glir gan yr ysgol, fydd canfod ffyrdd i gynnal y gwaith wrth symud ymlaen a sicrhau ei fod yn bwydo i mewn i newidiadau sydd ar fin digwydd ym myd addysg yng Nghymru, wedi'u hysbrydoli gan Adroddiad Donaldson. Mae Ysgol Cennydd Sant yn parhau i fod yn optimistaidd ynglŷn â hyn. Fel y dywedodd y Dirprwy Bennaeth:

"Y mae synergedd pendant rhwng yr Ysgolion Creadigol Arweiniol a Donaldson. Un ffordd o edrych ar hyn, yn nhermau cynaliadwyedd, ac o ystyried y newidiadau sydd ar y gweill, yw ei bod yn edrych fel y bydd disgwyl inni weithio mwy yn y ffordd hon. Mae bod yn Ysgol Greadigol Arweiniol wedi golygu ein bod ar y droed flaen."

**Astudiaeth Achos 4: Ysgol Pen Coch ac Ysgol Maes Hyfryd**

*Cefndir*

3.61 Ysgolion a gynhelir yn Sir y Fflint yw Ysgol Pen Coch ac Ysgol Maes Hyfryd, a agorwyd yn 2009 yn dilyn adrefnu darpariaeth addysg arbennig. Mae'r ddwy ysgol yn darparu cefnogaeth i blant sydd ag amrywiaeth o anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys anawsterau dysgu cymedrol, difrifol a chymhleth, e.e. anhwylderau'r sbectrwm awtistig. Mae hefyd gan lawer o ddisgyblion anawsterau cysylltiedig o ran cyfathrebu, ymddygiad neu'r synhwyrau.

3.62 Mae Ysgol Pen Coch yn darparu addysg i 94 o ddisgyblion 2-11 oed. Saesneg yw prif iaith bron i bob un o'r disgyblion, ac nid oes yr un plentyn sy'n siarad Cymraeg fel ei iaith gyntaf yn y cartref. Yn adroddiad arolygiad cyntaf yr ysgol gan Estyn ym mis Ebrill 2011, nodwyd bod yr ysgol yn 'dda', a bod y disgyblion yn cyflawni safonau da yn eu dysgu ac mewn sgiliau dysgu allweddol.

3.63 Mae Ysgol Maes Hyfryd yn darparu addysg i hyd at 135 o ddisgyblion 11-19 oed. Mae yn yr ysgol ystafelloedd y synhwyrau, ystafell chwarae meddal, a chyfleusterau chwarae awyr agored a chwaraeon da. Yn debyg i Ysgol Pen Coch, Saesneg yw prif iaith bron i bob un o'r disgyblion. Mae traean y disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan.

3.64 Yn adroddiad arolygiad cyntaf yr ysgol gan Estyn ym mis Ionawr 2012, nodwyd bod yr ysgol yn 'dda', gyda darpariaeth dda i ddisgyblion feithrin sgiliau cyfathrebu, rhifedd a technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) drwy'r holl gwricwlwm. Meddai'r tîm arolygu bod y rhagolygon ar gyfer gwella yn 'dda'. Un o'r meysydd yr argymhellir y caiff ei wella yn adroddiad yr arolygiad oedd sicrhau, yn yr achosion hynny lle mae'r addysgu'n rhagorol, bod yr athrawon yn rhannu eu harferion da drwy'r ysgol gyfan.

*Amcan*

3.65 Ar ôl lansio Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, roedd y ddwy ysgol wedi ymgeisio ar wahân i ymuno â charfan Cylch 1. Ond gan ddilyn cyfarwyddyd Cyngor Celfyddydau Cymru, dyfarnwyd cyllid i'r ysgolion ar gyfer prosiect ar y cyd i ganolbwyntio ar wella'r cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd i ddisgyblion Blwyddyn 6 Ysgol Pen Coch sy'n symud i Ysgol Maes Hyfryd yn y flwyddyn academaidd ddilynol.

3.66 Nod y prosiect ar y cyd oedd mynd i'r afael â nifer o flaenoriaethau datblygu a nodwyd gan y ddwy ysgol, sef:

- Gwella'r cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 Ysgol Pen Coch sy'n symud i Ysgol Maes Hyfryd;
- Gwella sgiliau cyfathrebu, yn arbennig y fframwaith llafaredd, drwy ddatblygu siarad a gwrando;
- Creu cwricwlwm mwy personol sy'n ymgorffori sgiliau bywyd allweddol (cyfathrebu a llythrennedd digidol) a fydd yn trosglwyddo i mewn i sgiliau dysgu gydol oes;
- Ymwreiddio'r Cwricwlwm Cymreig yng nghynnwys y prosiect.

3.67 Roedd y ddwy ysgol eisiau defnyddio'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn gyfle i gryfhau'r arfer o gydweithio ac annog disgyblion i chwarae rhan fwy wrth gynllunio eu dysgu eu hunain. Roedd cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd llythrennedd a chymhwysedd digidol a gyflwynwyd fel rhan o ddiwygiadau cwricwlaidd Donaldson yn ysgogiad i'r prosiect wrth ddarparu 'map' i'r disgyblion yn unol â'u hanghenion unigol.

*Cyflawni*

3.68 Roedd prosiect Blwyddyn 1, 'Digging up the Past', yn canolbwyntio ar yr Oes Efydd ac yn defnyddio celfyddyd adrodd stori (wedi'i gyfuno â defnyddio technoleg ddigidol) i ddatblygu perfformiad amlsynhwyraidd gan ddisgyblion o'r ddwy ysgol. Cyflawnwyd y prosiect yn bennaf oddi ar y safle yn yr Eco-ganolfan, sef



ysgol goedwig a gaiff ei chynnal gan Ysgol Maes Hyfryd.

3.69 Dewiswyd dau athro gan uwch dimau arwain y ddwy ysgol i ymwneud â'r prosiect.

3.70 Roedd gan y ddwy ysgol brofiad blaenorol o weithio gydag Ymarferwyr Creadigol allanol, er i hyn yn bennaf olygu gweithgareddau tymor byr wedi'u harwain gan yr Ymarferwyr Creadigol. Defnyddiai prosiect yr Ysgolion Creadigol Arweiniol sesiynau cydgynllunio a gwerthuso grŵp rhwng yr athrawon a'r Ymarferwyr Creadigol yn ddull i gryfhau natur gydweithiol y prosiect a galluogi i'r hyn a ddysgwyd gael ei rannu ac i sgiliau newydd gael eu datblygu.

3.71 Roedd y dull rhydd, symudol ac organig a ddefnyddiwyd yn hanner cyntaf y prosiect yn defnyddio sesiynau gweithdy wedi'u strwythuro'n rhydd i annog creadigrwydd a chydweithio rhwng yr artistiaid a'r disgyblion. Canlyniad hyn oedd cynhyrchiad mwy priodol ac effeithiol a oedd yn addas i anghenion a hoffterau'r disgyblion. Wrth i'r prosiect fynd rhagddo, camodd yr Ymarferwyr Creadigol yn ôl o'u rolau er mwyn caniatáu i'r athrawon ymgymryd â'u rolau creadigol a chymryd mwy o gyfrifoldeb arweiniol wrth gyflawni'r gweithgareddau creadigol. Adlewyrchwyd hyn hefyd wrth i'r disgyblion gymryd mwy o gyfrifoldeb personol am eu cyfraniadau yng nghamau olaf y prosiect. Hwyluswyd a chynorthwywyd y broses gydweithio drwy benodi Asiant Creadigol o Gyngor Celfyddydau Cymru.

3.72 Roedd cyflawni'r prosiect yn yr Eco-ganolfan yn galluogi i'r athrawon a'r Ymarferwyr Creadigol sefydlu cymuned ddysgu. Bu hyn yn effeithiol wrth hybu cydweithio a pherthnasoedd effeithiol rhwng disgyblion o ran pwysau gan gyfoedion neu batrymau ymddygiad yn yr ysgol. Galluogai'r Eco-ganolfan i'r disgyblion gael eu hysbrydoli gan fyd natur a rhannu antur ymdrochol ar y cyd. Yn yr Eco-ganolfan, gadawyd patrymau ymddygiad ysgol yn yr ysgol a datblygwyd patrymau ymddygiad newydd a alluogai'r disgyblion i ymgysylltu'n effeithiol oddi mewn i'r amrywiaeth o weithgareddau a heriau creadigol a gyflwynwyd drwy gyflawni'r prosiect.

*Canlyniadau*

3.73 Dangosai pob un o'r disgyblion welliant yn eu llythrennedd drwy gydol y broses, gan ddefnyddio gridiau asesu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd i fesur cynnydd. Ymgorfforwyd targedau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yng Nghynlluniau Addysg Unigol y disgyblion, gan dracio cynnydd ym meysydd 'Siarad' a 'Chydweithio a Thrafod'. Roedd eu cynnydd i'w weld hefyd yn ystod y perfformiad terfynol yn yr Eco-Ganolfa. Yn ogystal â chynorthwyo datblygiad

sgiliau llythrennedd yn ymarferol, roedd y prosiect hefyd yn ysgogi dychymyg y disgyblion. Drwy adrodd storïau yn ddychmygus a gweithio ‘yn eu rôl’ a thrwy ymestyn technegau ‘sedd boeth’, gwelodd yr athrawon fod modd i’r rhan fwyaf o’r disgyblion wella eu sgiliau llythrennedd drwy gyfathrebu eu sgiliau ffuglennol.

3.74 Roedd yr holl ddisgyblion yn weithgar yn yr ymarferion ac yn cael eu hysgogi i gyfrannu’n greadigol at y perfformiad; ymhellach, nododd yr athrawon fod hyder y disgyblion hynny a oedd yn swil yn tyfu yn ystod y tymor. Roedd eu perchnogaeth o’r prosiect yn annog y disgyblion i weithio’n fwy annibynnol ac yn cynnal eu diddordeb. Roedd y staff addysgu a oedd yn ymwneud â’r prosiect hefyd yn nodi bod y disgyblion yn dangos empathi yn eu cymeriad tuag at ei gilydd ac yn cyfathrebu ymadroddion a gweithredoedd a oedd yn dangos yn glir eu dealltwriaeth o’r hyn a fyddai’n ddisgwyliedig o ran rôl y cymeriad a fabwysiadwyd ganddynt.

3.75 Tystiolaeth arall o hyn yw’r ffilm o’r perfformiad terfynol, ac yn ystod yr ymweliad â’r ysgol gallai’r disgyblion ddwyn eu cymeriadau i gof a thrafod y rolau’r oeddynt yn eu chwarae yn y grŵp.

> “Dwi wedi mwynhau yma...dwi wedi dysgu am fwd. Dwi’n go dda ar roi mwd ar y tŷ crwn. Mi allwn i gofio sut i’w wneud o eto taswn i’n gorfod …Dwi’n well ar adrodd stori. Mi wnes i greu stori Fox Ninja; mi allwn i wneud rhagor taswn i eisiau. Dwi’n meddwl mod i’n dda ar adrodd stori.” (Disgybl Ysgol Pen Coch)

3.76 Bron i flwyddyn ar ôl bod yn rhan o brosiect ‘Digging up the Past’, gallai’r disgyblion yr ymgysylltwyd â hwy fel rhan o’r ymweliad â’r ysgol ddwyn i gof y tasgau a’r gweithgareddau a oedd yn ymwneud â chreu eu storïau ffuglennol a chynllunio eu perfformiad amlsynhwyraidd. Siaradai’r disgyblion â balchder a brwdfrydedd am eu rhan yn y prosiect a’r rolau’r oeddynt yn eu chwarae.

3.77 Roedd adborth y staff addysgu, fel rhan o’r ymweliad â’r ysgol a’r hyn a gofnodwyd yn Ffurflen Werthuso Prosiect yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, yn pwysleisio’r ffaith i’r prosiect alluogi’r ysgolion i archwilio sut mae modd gwneud defnydd effeithiol o welliannau mewn sgiliau cyfathrebu fel rhan o brosiect pontio. Bu’r elfen hon o’r prosiect yn llwyddiannus, a defnyddiwyd gweithgareddau drama ac adrodd stori i wella sgiliau cyfathrebu’r disgyblion sydd, yn ei dro, wedi caniatáu i’r disgyblion chwarae rôl i ymarfer cyfathrebu’n effeithiol gyda’i gilydd mewn amgylchedd diogel, ffuglennol a oedd wedyn yn trosi i amgylchedd go iawn yr ysgol. Roedd agwedd ffisegol tasgau’r prosiect yn golygu nod angen gweithio fel

tîm, ac roedd hynny'n gwella sgiliau cyfathrebu'r disgyblion ymhellach, ac felly hefyd yr angen iddynt ailadrodd eu storïau ffuglennol.

3.78 Yn y pen draw, mae'r datblygiadau a gyflawnwyd yn sgiliau cyfathrebu a chydweithio'r disgyblion wedi hwyluso gwelliant yn y cyfnod pontio rhwng Ysgol Pen Coch ac Ysgol Maes Hyfryd, ac mae tystiolaeth anecdotaidd y staff addysgu'n pwysleisio'r effaith gadarnhaol yn sgil hynny ar gynnydd disgyblion a'u hymgysylltiad wrth ddysgu.

3.79 Un elfen a fu'n heriol i'r prosiect oedd myfyrio a hunanwerthuso ymysg disgyblion, gan fod hwn yn faes y mae disgyblion anghenion arbennig yn ei weld yn anodd. O'r herwydd, defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i ganfod tystiolaeth o'r effeithiau cadarnhaol ar ddisgyblion, gan gynnwys arsylwadau athrawon, cofnodion o drafodaethau gyda'r disgyblion, cynadleddau achos disgyblion gyda rhieni a staff, dyddlyfr dysgu'r disgyblion a thystiolaeth ddigidol/ffotograffig prosiect yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.

3.80 Mae'r prosiect wedi helpu'r ddwy ysgol i ddatblygu eu dysgu creadigol ac ymwreiddio Arferion Creadigol y Meddwl mewn cynllun tymor canolig trawsgwricwlaidd. Cyn cyflwyno Arferion Creadigol y Meddwl i'r disgyblion, ymgyfarwyddodd yr athrawon â'r eirfa benodol er mwyn nodi a blaenoriaethu'r hyn fyddai'n ganlyniadau dysgu pwysig i'r disgyblion fel rhan o brosiect yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Cafodd dysgu creadigol cynaliadwy wedi'i ymwreiddio, ei ddatblygu wrth i'r athrawon nodi a chanmol arferion fel dyfalbarhad, disgyblaeth, dychymyg ac archwilio drwy gydol y gwaith o gyflawni'r prosiect. Wrth i'r prosiect fynd rhagddo, daeth yn haws i'r disgyblion werthuso a gwybod pa mor dda'r oeddynt yn dysgu o'u gweithredoedd.

3.81 Yr uchelgais i'r ddwy ysgol yw ymwreiddio'r Pump o Arferion Creadigol y Meddwl a chynnal sesiynau dysgu creadigol sy'n sicrhau y caiff cynlluniau tymor canolig eu datblygu mewn ffordd sy'n fwy trawsgwricwlaidd. Caiff holl elfennau dysgu seiliedig ar sgiliau eu hymgorffori mewn cynllun tymor canolig er mwyn datblygu cynllun gwaith generig ar gyfer y dyfodol sy'n canolbwyntio ar sgiliau yn hytrach na'r dull thematig presennol ar sail testun.

3.82 Nododd yr ysgolion fod sicrhau cysondeb yn y dull a defnyddio Arferion Creadigol y Meddwl yn ffactor llwyddiant allweddol; y bwriad yw ymwreiddio iaith creadigrwydd yn y dull addysgegol a ddefnyddir gan bob athro ar draws y ddwy ysgol.

3.83 Mae'r hyn a ddysgwyd o flwyddyn gyntaf Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi cyfarwyddo'r dull a ddefnyddir ym mhrosiect yr ail flwyddyn a ddatblygwyd gan staff Ysgol Pen Coch ac Ysgol Maes Hyfryd. Cynhaliwyd sesiynau datblygu proffesiynol er mwyn rhannu'r profiadau a'r dulliau creadigol a ddefnyddiwyd wrth gyflawni prosiect yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, er bod rhagor o waith yn yr arfaeth er mwyn cefnogi'r broses o ymwreiddio'r model o weithio yn llawnach ar draws y ddwy ysgol.

*Casgliad*

3.84 Bu prosiect yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn gyfle i gyd-ddylunio a chyd-gyflawni ymyriad creadigol dyfnach gan ddefnyddio dull tîm cydweithiol. Mae hyn wedi galluogi'r athrawon i ddysgu ffyrdd mwy creadigol o weithio gan yr Ymarferwyr Creadigol. Mae prosiect yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi codi ymwybyddiaeth yr athrawon o effeithiolrwydd chwarae rôl byrfyfyr wrth hybu perthnasoedd cyfoedion, meddwl yn greadigol, annibyniaeth bersonol, a hyder ar lafar. Dysgwyd ffyrdd newydd i ymgysylltu â thechnolegau digidol hefyd, gan gynnwys defnyddio technegau sgrin werdd ac animeiddio stop-symudiad, sydd wedi parhau i gael eu defnyddio gan y ddau athro yn yr ystafell ddosbarth. Nododd y ddau athro iddynt ddod yn fwy ymwybodol o effeithiolrwydd creadigrwydd wrth gyflwyno gwersi, yn arbennig sut i fod yn fwy hyblyg drwy ddilyn eu trywydd eu hunain ar y pryd a chael eu cyfyngu lai gan gynlluniau gwersi wedi'u cyfarwyddo.

3.85 Effaith allweddol ar ymarfer yr athrawon oedd cydweithio wrth gynllunio. Roedd cydweithio'n greadigol yn galluogi arweinwyr yr ysgolion i ymestyn hyn i gymuned ehangach yr ysgol drwy gydweithio mewn ffordd debyg ag athrawon eraill. Roedd dysgu cydweithiol hefyd yn rhoi hyder i'r ddau athro ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy rhydd yn y gwersi.

3.86 Mae'r Ymarferwyr Creadigol hefyd wedi meithrin amrywiaeth o sgiliau a phrofiadau newydd drwy gyflawni prosiect yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, gan gynnwys technegau rheoli ymddygiad, defnyddio'r awyr agored yn ofod dysgu, a syniadau a dulliau newydd o weithio gyda disgyblion AAA. Darparodd y prosiect gyfle hefyd i'r Ymarferwyr Creadigol ddysgu oddi wrth ei gilydd a chael dealltwriaeth ddyfnach o ffurf gwahanol ar gelfyddyd sydd â'r potensial i arwain at gyweithiau creadigol yn y dyfodol.

3.87 Mae ethos yr Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi'i rannu'n fwy llwyddiannus drwy sgyrsiau anffurfiol gyda staff a fu'n chwilfrydig ynglŷn â'r prosiect. Bu'n fwriad

hefyd sefydlu rhwydwaith proffesiynol yn y Parth Dysgu Creadigol. Bu i Ysgol Maes Hyfryd ac Ysgol Pen Coch fynd i'r Cyfarfod Rhwydweithio Ysgolion, a drefnwyd i rannu'r hyn a ddysgwyd drwy'r prosiect. Dyma drobwynt wrth iddynt gydnabod eu cryfderau ac roedd modd iddynt drafod a rhannu'r hyn a ddysgwyd gydag ysgolion eraill o wahanol Ysgolion Creadigol Arweiniol.

**Astudiaeth Achos 5: Ysgol Cynwyd Sant**

*Cefndir*

3.88 Ym Maesteg y mae Ysgol Cynwyd Sant, a chaiff ei chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed, er mai ychydig o'r plant sy'n dod o gartrefi Cymraeg. Yn ogystal ag o'r dref ei hun, daw'r disgyblion hefyd o nifer o bentrefi yn yr ardaloedd o amgylch. Prin iawn yw'r disgyblion a ddaw o gefndiroedd lleiafrif ethnig neu gymysg. Mae 303 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys rhai 3-4 oed sy'n mynychu'r dosbarth meithrin.

3.89 Mae tua 13% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd lleol a chenedlaethol o ryw 20%. Ystyrir bod gan 11% o'r disgyblion anghenion addysgol ychwanegol, sydd hefyd yn is na'r cyfartaledd lleol a chenedlaethol, er i'r ganran hon leihau'n sylweddol o 33% yn 2011, a oedd tua dwbl y cyfartaledd lleol a chenedlaethol ar y pryd.

3.90 Mae gan Ysgol Cynwyd Sant 12.4 o athrawon cyfwerth ag amser llawn a chymhareb disgybl:athro o 25:1, sef tua thri disgybl yn rhagor i bob athro na'r cyfartaledd lleol a chenedlaethol.

3.91 Mae dangosyddion cyflawniad cyffredinol yr ysgol yn ei rhoi yn chwartel uchaf ysgolion cynradd Cymru. Mae barnau safonol ar allu'r ysgol i wella a'i gallu i gynorthwyo ysgolion eraill hefyd yn rhoi Ysgol Cynwyd Sant yn y chwartel uchaf.

3.92 Mae Ysgol Cynwyd Sant yn Ysgol Dysgu Proffesiynol, sy'n golygu ei bod yn cydweithio â Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i archwilio cyfleoedd datblygu proffesiynol oddi mewn i'r gweithlu addysgu. Penodwyd y Pennaeth presennol ym mis Medi 2000 a chynhaliwyd arolygiad diwethaf yr ysgol ym mis Medi 2016, fel yr oedd yn cyflawni ei hail flwyddyn o weithgarwch yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.

*Amcan*

3.93 Roedd Cydlynydd yr Ysgol a'r Asiant Creadigol eisiau targedu carfan Blwyddyn 4 yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16. Roedd y disgyblion hyn wedi tangyflawni

yn eu hasesiadau ar ddiwedd y cyfnod sylfaen ac roedd yr ysgol wedi nodi bod sgiliau llythrennedd yn wendid, yn arbennig rhuglder llafar yn y Gymraeg. Credir bod hyn yn rhannol am mai ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gartrefi Cymraeg.

3.94 Roedd ysgrifennu sgript a pherfformiad yn rhan o'r prosiect, a byddai'r disgyblion yn creu eu fideos 'sut i goginio' eu hunain.

*Cyflawni*

3.95 Cynhaliodd yr Asiant Creadigol sesiwn gynllunio gyda'r disgyblion lle y cyflwynodd eirfa a chysyniadau newydd mewn perthynas â chreadigrwydd drwy gemau a gweithgareddau. Teimlai fod hyn yn paratoi'r disgyblion ar gyfer eu sesiynau gyda'r Ymarferydd Creadigol ac yn rhoi iddynt iaith gyffredin i drafod a myfyrio ar y profiad.



3.96 Drwy holiaduron a thasgau, lluniodd y disgyblion thema ar gyfer eu prosiect, a theimlir i'r synnwyr hwn o berchnogaeth alluogi'r disgyblion i ymgysylltu'n hyderus â'r Ymarferydd Creadigol a chofleidio agwedd berfformio'r prosiect.

3.97 Bwriad yr ysgol oedd cynnwys 33 o ddisgyblion Blwyddyn 4 o ddau ddosbarth; ond, yn dilyn y sesiynau cyntaf, daeth yn glir mai mwy ymarferol fyddai gweithio gydag un dosbarth yn unig, gan leihau nifer y cyfranogwyr i 17.

3.98 Am 11 wythnos, yn ystod tymor y gwanwyn 2016, bu'r Ymarferydd Creadigol yn gweithio gyda'r grŵp. Bu'r Ymarferydd Creadigol yn arwain y sesiynau ac yn ymgysylltu â'r athrawon drwy drafodaethau cynllunio a myfyrio, cyn, yn ystod, ac ar ôl cyfnod cyflawni'r prosiect.

3.99 Ar sail y berthynas hon, roedd modd i'r athrawon barhau â gwaith y prosiect gyda'r disgyblion rhwng sesiynau gyda'r Ymarferydd Creadigol er mwyn cyflawni uchelgeisiau'r prosiect yn ystod y cyfnod a oedd wedi'i ddynodi.

3.100 Cynhaliodd yr Asiant Creadigol sesiwn benodol gyda'r disgyblion mwy abl a thalentog, a bu'r Ymarferydd Creadigol yn cynnal sesiynau penodol i gynorthwywyr dosbarth a sesiwn arall i athrawon yr ysgol gyfan fel rhan o weithgarwch Hyfforddiant Mewn Swydd. Roedd Pennaeth a Dirprwy Bennaeth yr ysgol yn awyddus i rannu technegau dysgu creadigol ar draws yr ysgol yn y ffordd hon.

*Canlyniadau*

3.101 Roedd system asesu Incerts a ddefnyddiwyd gan yr athro dosbarth yn dangos i'r rhan fwyaf o'r disgyblion gyflawni'u targedau mewn llafaredd Cymraeg ar gam cynnar a bod y cynnydd yn fwyaf trawiadol ymysg y bechgyn. Roedd newidiadau eraill a nodwyd gan athrawon, yr Asiant Creadigol a'r Ymarferydd Creadigol yn cynnwys gwell cydweithio, dyfalbarhad, canolbwyntio a hyder.

3.102 Mewn trafodaeth naw mis ar ôl y prosiect, nid yn unig yr oedd gan y disgyblion atgofion melys am eu rhan yn y prosiect, ond gallent hefyd fyfyrio am eu profiad gan ddefnyddio geirfa a chysyniadau a gyflwynwyd gan yr Asiant Creadigol a'r Ymarferwyr Creadigol.

3.103 Mynegai'r disgyblion iddynt yn benodol fwynhau rhyddid a her y tasgau lle'r oedd yn rhaid iddynt ymchwilio ac archwilio yn ogystal â deinameg symud o gwmpas a gweithio y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

3.104 Roed cyflwyno'r Ymarferydd Creadigol i'r disgyblion fel gweithiwr proffesiynol allanol y tu allan i'r proffesiwn addysgu wedi rhoi model rôl i'r disgyblion, nid yn unig o ran sgiliau creadigol ond hefyd o ran defnyddio'r Gymraeg yn ymarferol a hyderus y tu allan i sefyllfa arferol yr ystafell ddosbarth.

3.105 Teimlai'r athrawon iddynt ddysgu gwersi allweddol gan yr Ymarferydd Creadigol wrth fod yn fwy hyblyg ac arbrofol, amrywio gweithgareddau, ac ymgorffori symud yn y gwersi, a nodwyd ei bod yn ymddangos bod y disgyblion yn cynnal yr hyn a ddysgant yn well wrth iddynt fedru cyfeirio at weithgareddau hwyliog a chofiadwy.

3.106 Yn fwy cyffredinol, mae athrawon ar draws yr ysgol wedi'u hyfforddi i ddefnyddio sgrin werdd yr ysgol a chawsant eu cyflwyno i gysyniadau a dulliau dysgu creadigol. Cyn eu gweithdy Hyfforddiant Mewn Swydd, teimlai 90% o'r athrawon nad oeddynt yn greadigol.

*Casgliad*

3.107 Mae Ysgol Cynwyd Sant yn ysgol sy'n perfformio'n gryf a bu'n astudiaeth achos gan Estyn ar gyfer gwella llythrennedd drwy ddysgu creadigol yn dilyn ei arolygiad ym mis Hydref 2016[7]. Fodd bynnag, dylid cydnabod bod sylfaen bresennol ar gyfer dysgu creadigol yn yr ysgol, fel a ddangosir gan yr elfennau canlynol:

- Cafodd yr ysgol ei chydnabod am ei darpariaeth ragorol i ddatblygu dealltwriaeth a phrofiadau diwylliannol disgyblion yn ei harolygiad Estyn yn 2011.
- Roedd y Pennaeth, y tîm arwain a'r llywodraethwyr eisoes yn rhannu ymrwymiad clir i amlygu'r disgyblion i amrywiaeth eang o weithgareddau'r celfyddydau creadigol yn ystod eu haddysg gynradd, gyda'r nod o'u galluogi i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dyfodol ar sail y profiadau hyn o lygad y ffynnon.
- Roedd Cynllun Datblygu'r Ysgol ar gyfer 2015–16 yn blaenoriaethu dysgu creadigol drwy dargedu safonau llythrennedd drwy'r celfyddydau.
- Roedd yr arweinwyr addysgu ar gyfer llythrennedd a rhifedd wedi ailddylunio'r templedi cynllun gwers i gynnwys elfen greadigol.

3.108 Mae ymrwymiad presennol yr ysgol i'r celfyddydau creadigol a pherfformio diwylliannol wedi caniatáu iddi fwrw iddi'n syth gan ehangu ei galluoedd mewn dysgu creadigol drwy Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol a sicrhau ei bod yn manteisio'n llawn ar hyfforddiant, fframwaith, cyllid a chysylltiadau.

3.109 Mae hyn hefyd wedi galluogi i ymwreiddio dysgu creadigol y tu hwnt i'r rhai a fu'n ymwneud â'r prosiect yn uniongyrchol.

3.110 Fel yn achos yr ysgolion eraill a gyflwynir yn adran yr astudiaethau achos, mae gwersi pwysig i'w dysgu ar gyfer Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn fwy cyffredinol, o enghreifftiau mor effeithiol:

- Mae darparu gofod penodol yn yr ysgol ar gyfer gweithgareddau creadigol (ystafell sgrin werdd, yn yr achos hwn) yn cynnig canolbwynt a chyfle i athrawon ar draws yr ysgol ymgysylltu â phrosiectau dysgu creadigol.

---

[7] Estyn: Gwella llythrennedd trwy ddysgu creadigol

- Mae arddangosiadau o ymarfer creadigol ar draws yr ysgol (sgriniau teledu wedi'u gosod ar y waliau yn y dderbynfa a'r coridorau yn dangos fideos y myfyrwyr) yn gynrychiolaeth gyson, ddeniadol a balch o gyflawniadau'r disgyblion ac uchelgais yr ysgol.
- Mae rôl yr Asiant Creadigol yn galw am gydbwysedd deallus. Mae caniatáu i athrawon arwain ar gynllunio prosiect, drwy ymatal rhag darparu atebion a datrys ymholiadau'n unig, a thrwy ofyn cwestiynau, gwrando a rhoi lle iddynt weithio drwy syniadau, yn dangos parch at y dull partneriaeth ac yn allweddol i sicrhau'r buddion mwyaf i'r ysgol, yr Asiant Creadigol a'r Ymarferydd/Ymarferwyr Creadigol o ran ffyrdd o gydweithio.
- Fodd bynnag, unwaith y mae perthnasoedd cydweithiol wedi'u sefydlu, dylai'r Asiant Creadigol fod wrth law i gynorthwyo ac annog yr ysgol a'r Ymarferydd/Ymarferwyr Creadigol gyda dealltwriaeth o bwysau a blaenoriaethau eraill yr ysgol.
- Mae neilltuo amser i fyfyrio'n rheolaidd drwy gydol y prosiect (hanner ffordd, o leiaf) yn rhoi cyfleoedd i sicrhau'r effaith fwyaf ymysg disgyblion a chynllunio i ledaenu'r elfennau newydd a ddysgwyd ar draws yr ysgol.

**Astudiaeth Achos 6: Ysgol Bro Teifi**

*Cefndir*

3.111 Yn Llandysul Ceredigion, y mae Ysgol Bro Teifi. Sefydlwyd yr ysgol ym mis Medi 2016, ac mae'n ysgol newydd ar gyfer pob oedran, a'r ysgol cyfrwng Cymraeg gyntaf o'i bath. Cafodd Ysgol Dyffryn Teifi, ynghyd â phedair ysgol gynradd a fwydai iddi (Ysgol Aberbanc, Ysgol Pontsian, Ysgol Coedybryn ac Ysgol Llandysul), oll yn ysgolion Cymraeg, ei chai ym mis Gorffennaf 2016 a throsglwyddwyd y disgyblion i'r safle newydd.

3.112 Caiff yr ysgol uwch a'r ysgol is eu cadw mewn dwy adain ar wahân yn yr adeilad, er y gall disgyblion o bob rhan o'r ysgol rannu offer a chyfleusterau. Y mae lle i 1,038 o ddisgyblion, gyda 780 ar y gofrestr ar hyn o bryd, wedi'u dosbarthu ar draws tri chyfnod academaidd: meithrin hyd at Flwyddyn 4; Blwyddyn 5 hyd at Flwyddyn 8; a Blwyddyn 9 hyd at Flwyddyn 13. Dyma ddull newydd iawn sy'n gwaredu strwythur dilyniant y cyfnodau allweddol traddodiadol, a chafodd ei argymell yn Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru (Donaldson, 2015).

3.113 Mae'r ardal o amgylch yn wledig ac yn ardal Gymraeg gref, er y daw'r disgyblion o gymysgedd o gartrefi Cymraeg a Saesneg. Prin iawn yw'r disgyblion a ddaw o gefndiroedd lleiafrif ethnig neu gymysg.

3.114 Mae tua 10% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sef hanner y cyfartaledd lleol a chenedlaethol o ryw 20%.Ystyrir bod gan 23% o'r disgyblion anghenion addysgol ychwanegol, sy'n agos i'r cyfartaledd lleol a chenedlaethol.

3.115 Cyflogwyd y Pennaeth am 12 mis cyn i'r ysgol agor er mwyn cynllunio ar gyfer cyflwyno ac integreiddio'r disgyblion a'r staff, yn ogystal â dylunio systemau a phrosesau newydd a chydlynu'r gwaith o osod cyfleusterau'r ysgol.

*Amcan*

3.116 Dewisodd y Pennaeth gymryd rhan yng Nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn ystod y flwyddyn cyn cau'r pump o ysgolion cymunedol lleol, a blwyddyn gyntaf yr ysgol newydd. Gan fod yn ymwybodol o'r tarfu ar gymunedau a theuluoedd, a'r effaith gymhleth y gallai hyn gael ar ddisgyblion yn y cyfnod pontio traddodiadol o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, dyluniwyd y prosiect ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16 i dargedu carfannau Blwyddyn 6 y pedair ysgol gynradd fwydo.

3.117 Ceisiai'r prosiect roi i'r disgyblion brofiad cyffredin, gwerthfawrogiad o'u hardal leol, eu treftadaeth, y Gymraeg a diwylliant Cymru, a synnwyr o berthyn i gymuned gyffredin, estynedig, ac ysgol newydd.

3.118 Roedd codi safonau mewn rhifedd hefyd yn ffocws i'r prosiect, gan y pwysleisiwyd bod rhifedd yn wendid yn y pedair carfan o ddisgyblion Blwyddyn 6, ac mae'n gonglfaen allweddol yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol, ynghyd â gwella llythrennedd a sgiliau digidol.



3.119 Sbardun arall i ymgysylltu yn y rhaglen oedd y cyfle i ddwyn staff addysgu'r ysgolion ynghyd er mwyn cyd-ddatblygu dulliau blaengar ac arloesol. Roedd hyn hefyd yn cynnwys athrawon Ysgol Uwchradd Dyffryn Teifi.

3.120 Roedd y prosiect yn astudio'r afon leol, Afon Teifi, drwy ysgrifennu creadigol a barddoniaeth, dawns a chelf.

*Cyflawni*

3.121 Cynhaliodd yr Asiant Creadigol sesiwn gweithdy cychwynnol ym mhob un o'r pedair ysgol er mwyn deall diddordebau creadigol y disgyblion, eu canfyddiadau o'u creadigrwydd eu hunain, a'r meysydd hynny ym mathemateg a rhifedd a oedd yn eu poeni.

3.122 Gweithiodd yr Asiant Creadigol wedyn gyda Chydlynydd yr Ysgol ac athrawon ym mhob ysgol i ddatblygu'u syniadau. Recriwtiwyd tri o Ymarferwyr Creadigol (artist, dawnsiwr a bardd) i weithio gyda 40 o ddisgyblion Blwyddyn 6 o'r pedair ysgol gynradd.

3.123 Cynhaliwyd wyth o weithdai ym mhob un o'r pedair ysgol dros chwe wythnos tymor y gwanwyn, 2016, dan arweiniad un neu ddau o'r Ymarferwyr Creadigol. Hanner ffordd, cynhaliwyd diwrnod o weithdy i ddwyn yr holl ddisgyblion ynghyd dan arweiniad athro daearyddiaeth yr ysgol uwchradd, athrawon eraill, a'r tri Ymarferydd Creadigol. Roedd y sesiwn hon yn cynnwys ymweliadau ar hyd Afon Teifi a'i dilyn i'w haber.

3.124 Ni pharhaodd yr athrawon â'r prosiect gyda'r disgyblion rhwng y sesiynau gyda'r Ymarferwyr Creadigol, gan ei bod yn bwysig i'r pedair ysgol symud ymlaen drwy'r gweithdai ar yr un cyflymder.

3.125 Roedd cydlynu prosiect cymhleth gyda chlwstwr o ysgolion, athrawon a thri o Ymarferwyr Creadigol mewn cyn lleied o amser yn heriol.

3.126 Rhoddwyd llyfr ysgrifennu i bob disgybl i gofnodi eu gweithgareddau yn y prosiect, a defnyddiwyd blog i rannu storïau a chynnydd. Arweiniwyd y disgyblion drwy offeryn hunanasesu creadigol ar ddechrau ac ar ddiwedd y prosiect a llenwodd or Ymarferwyr Creadigol ffurflenni gwerthuso yn dilyn pob gweithdy.

*Canlyniadau*

3.127 Sylwodd yr athrawon, yr Asiant Creadigol a'r Ymarferwyr Creadigol sut y gwnaeth y disgyblion wella eu gallu i gydweithio. Cynyddodd eu hyder a'u diddordeb, daethant yn fwy chwilfrydig a dychmygus, a thrwy ddatrys problemau datblygwyd eu canolbwyntio a'u dyfalbarhad. Gwnaethant sylwadau hefyd ar ddefnydd hyderus y disgyblion o'r Gymraeg, e.e. gafael ar eirfa ehangach a'u sgiliau llafaredd yn gyffredinol. Roedd y newidiadau'n fwyaf nodedig ymysg disgyblion sydd fel arfer yn swil.

3.128 Calonogwyd y disgyblion gan yr ethos nad oes unrhyw 'ateb anghywir'. Yn yr ysgol, gall disgyblion deimlo o dan bwysau i berfformio a chydymffurfio; felly roedd natur arbrofol, agored y prosiect yn canfod cydbwysedd da o fod yn chwa o awyr iach ac yn galonogol.

3.129 Mewn trafodaeth naw mis ar ôl y prosiect, roedd y disgyblion yn falch i gael arddangos y delweddau haniaethol o'r afon y buont yn gweithio arnynt mewn grwpiau bach, y llinellau cysylltiedig o farddoniaeth, a'u llyfrau nodiadau ar gyfer y prosiect. Roeddynt yn cofio eu dawns a gyflwynwyd i'r afon ac nid oeddynt yn ymwybodol bod y prosiect wedi cynnwys rhifedd yn elfen graidd. Dyma gadarnhad o'r dulliau bwriadol gynnil a ddefnyddiwyd yn y prosiect i osgoi cyfeirio'n glir at fathemateg, a allai fod wedi creu risg o rai disgyblion yn colli diddordeb.

3.130 Nododd y disgyblion iddynt fwynhau gweithio fel grŵp, natur ymarferol y gweithgareddau, a'r cyfle i symud o amgylch y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Pan ofynnwyd iddynt fyfyrio ynglŷn â'r athrawon a'u dulliau, roeddynt yn glir mai'r gwersi'r oeddynt wedi'u mwynhau fwyaf oedd y rhai lle'r oedd synnwyr bod yr athro wedi gofyn eu barn, ac wedi ymddiried a dangos hyder ynddynt.

3.131 Teimlai'r tri o Ymarferwyr Creadigol iddynt ddysgu gwersi pwysig oddi wrth ei gilydd a bod ganddynt ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ehangach o sut gall dulliau creadigol gael eu defnyddio ar draws amryw gyfryngau. Gwerthfawrogent y cyfle i weithio mewn ffordd gydweithiol gyda'r plant oherwydd eu ffordd ffres o feddwl a'r twf amlwg, ond teimlent rywfaint yn rhwystredig gan y cyfyngiadau amser ar y gweithdai. Nodwyd bod yr angen i lenwi ffurflen adborth a gwerthuso ar ôl bob sesiwn yn sicrhau eu bod yn treulio amser yn myfyrio ar eu profiadau ac adeiladu ac addasu eu dulliau ar gyfer y sesiynau canlynol.

3.132 Teimlai'r athrawon iddynt ddysgu gwersi allweddol gan yr Ymarferwyr Creadigol wrth ganiatáu rhagor o gyfleoedd ar gyfer llais y disgybl ac i'r disgyblion gael arwain a chymryd perchnogaeth o'u dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Nodwyd iddynt ddysgu technegau i integreiddio gemau a gweithgareddau mewn gwersi ac roeddynt yn fwy hyderus ynglŷn â bod yn arbrofol yn eu dulliau addysgu. Roeddynt wedi'u taro'n benodol gan sut oedd gwaith y prosiect yn datgelu nodweddion ymysg y disgyblion nad oeddynt wedi sylwi arnynt yn flaenorol; o ganlyniad, roeddynt wedi dod i adnabod y disgyblion yn well ac roeddynt yn fwy cyfarwydd â'u potensial.

3.133 Teimlai Cydlynydd yr Ysgol i'r prosiect ddangos dysgu ac addysgu creadigol ar waith, a oedd yn flaenorol wedi ymddangos yn gysyniad go haniaethol, ac roeddynt wedi'u plesio â'r model a'r dull o weithio.

*Casgliad*

3.134 Amgylchiadau'r ysgol hon fu'r prif sbardun y tu ôl i'r dull o fynd i'r afael â Chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, sy'n ei gosod ar wahân ac yn cynnig astudiaeth achos ddiddorol.

3.135 Roedd prosiect Bro Teifi project, a ddyluniwyd ac a gynhaliwyd gyda'i chlwstwr o ysgolion cynradd bwydo yn 2015/16, yn uchelgeisiol iawn o ran cwmpas a maint. Drwy gynnwys pump o ysgolion a thri o Ymarferwyr Creadigol mewn prosiect i wella rhifedd a chreu synnwyr o le a pherthyn drwy gelf, dawns ac ysgrifennu creadigol, roedd gan Gydlynydd yr Ysgol a'r Asiant Creadigol y weledigaeth a'r ddealltwriaeth i sicrhau y câi'r cyfleoedd mwyaf posibl eu cyflwyno gan y rhaglen.

3.136 Ni ddylid ystyried yn rhy isel y gwaith rheoli a chydlynu sy'n ofynnol i gyflawni prosiect mor gymhleth ac amlweddog. Yn yr un modd, mae'r amrywiaeth o weithgareddau a thechnegau creadigol a becynwyd yn daclus (ac yn dynn) yn y sesiynau gweithdai a amserlennwyd yn awgrymu arddull a dull gweithredu sy'n arloesol ac wedi'u hystyried yn drylwyr.

3.137 Y mae teimlad bod y prosiect wedi dod i ben yn rhy fuan, gan gyfeirio at 'gwrs carlam'. Fel yn achos ysgolion eraill a fu'n rhan o gylch cyntaf Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, cyfnod byr oedd ar gael i gyflawni, a gallai hynny fod wedi cyfannu at deimlad cyffredinol bod diffyg amser er mwyn elwa'n llawn o'r prosiect.

3.138 Mae'r rhai a fu'n ymwneud â'r prosiect yn cytuno iddo gyflawni canlyniadau rhagorol yn hunan-effeithiolrwydd a chreadigrwydd y disgyblion; fodd bynnag, nid oedd y canlyniadau dysgu mewn perthynas â rhifedd mor glir. Nododd yr athrawon y gallai hyn fod wedi'i wella petaent wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Ymarferwyr Creadigol yn amlach; ond ni allai'r athrawon eu hunain ddod o hyd i'r amser i wneud hynny.

3.139 Mae'r cyfnod cyflawni cymharol fyr ar draws y pum safle ysgol wedi golygu mai cyfyngedig fu'r cyfleoedd ffurfiol i rannu'r hyn a ddysgwyd mewn perthynas ag addysgu creadigrwydd ac yn greadigol ymysg staff eraill. Yn 2016/17, gyda phrosiect yr ail flwyddyn ac ar un safle ysgol yn unig, disgwylir y bydd yr elfen hon o'r prosiect wedi gwella. Fel ysgol newydd, y mae pob uchelgais, a chyfle, i sefydlu dysgu creadigol yn nodwedd graidd o ethos a fframwaith addysgu'r ysgol.

## 4. Canfyddiadau Arolwg o Athrawon a fu'n Cyfranogi

### Cyflwyniad

4.1 Diben yr arolwg hwn (a gaiff ei ailadrodd wrth i'r gwerthusiad fynd rhagddo) yw casglu data ar yr athrawon sy'n cymryd rhan yn rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau a dechrau archwilio canlyniadau'r cynlluniau. Defnyddiwyd dulliau cymysg gan gynnwys cwestiynau meintiol ac ansoddol er mwyn casglu adborth cyfoethog ac ategu'r data caled a gasglwyd.

4.2 Mae'n bwysig nodi y caiff yr arolwg hwn ei gynnal yn ystod oes y rhaglen. O'r herwydd, dylai'r canlynol – sy'n seiliedig ar un don o'r arolwg – gael eu hystyried yn ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yn unig, ac a fydd yn datblygu wrth i waith maes y gwerthusiad fynd rhagddo ac wrth i nifer yr athrawon sy'n cymryd rhan yn yr arolwg gynyddu.

4.3 Cymrodd cyfanswm o 108 o athrawon ran yn y don hon o'r arolwg, a gynhaliwyd yn ystod mis Ionawr 2017. Ar y cyfan, cynhaliwyd yr arolwg drwy gyfweliadau ffôn (74 o ymatebion), er bod fersiwn ar-lein o'r holiadur ar gael hefyd (36 o ymatebion).

4.4 Roedd poblogaeth gychwynnol o 94 o gyfranogwyr wedi'u cynnwys gan fod y manylion cyswllt wedi'u darparu gan dîm Cyngor Celfyddydau Cymru o gronfeydd data eu timau rhanbarthol. Manylion cyswllt Cydlynwyr Ysgol Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol oeddynt yn bennaf, ond roeddynt hefyd yn cynnwys athrawon, a gymerai ran yng Nghylch 1 Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Mae nifer yr ymatebion yn uwch am i'r cyfweleion gael eu gwahodd i anfon dolen i fersiwn ar-lein yr holiadur i'w cydweithwyr a gymerodd ran yn y cynllun. Gofynnwyd hefyd i staff Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg anfon dolen i'r arolwg ar-lein i athrawon a fu'n ymwneud â'u gweithgareddau fel rhan o Faes 2.

### Ein sampl

4.5 Roedd 97 o'r 108 o ymatebwyr (90%) yn dod o Ysgol Greadigol Arweiniol, a 79 o ymatebwyr (73%) yn dweud eu bod yn Gydlynwyr Ysgol. Nid yw hyn yn syndod, o ystyried mai dyma'r cysylltiadau sydd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer ysgolion sy'n cymryd rhan. Fodd bynnag, y mae angen ystyried y canfyddiadau a drafodir isod yn y cyd-destun hwn: mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn Gydlynwyr, ac felly'n debygol o fod wedi chwarae rôl allweddol wrth ymgeisio am statws Ysgol Creadigol Arweiniol a datblygu gweithgareddau yn eu hysgol.

4.6 Mae'r graffiau sydd i'w gweld yn Atodiad 3 yn dangos dosbarthiad ein sampl yn nhermau lleoliad, blynyddoedd a addysgir a'r pwnc a addysgir. Maent yn dangos dosbarthiad eang ledled Cymru yn ddaearyddol ac yn nhermau'r blynyddoedd a'r pynciau a addysgir. Mae hyn yn gadarnhaol o ran rhaglen 'profi'r cysyniad' ac yn awgrymu bod Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o athrawon a phynciau.

**Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol (Maes 1)**

*Ysgogiadau i gymryd rhan*

4.7 Mae deall ysgogiad athrawon i gymryd rhan yn y rhaglen a'i chynlluniau yn bwysig am sawl rheswm. Er enghraifft, gall gyfarwyddo'r gwaith o ddatblygu dulliau i gynnwys athrawon yn y cynllun yn y dyfodol.

4.8 Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos, nid er syndod efallai, mai'r prif ysgogiad a nodwyd gan yr athrawon oedd 'diddordeb' yn y pwnc (76%, n=66/96), a 'datblygiad proffesiynol' (69%) wedi hynny. Dyma oedd yr ymatebion eraill: 'gofynnwyd imi gymryd rhan' (24%) ac 'roedd athrawon eraill yn ei wneud' (14%).

4.9 Gan dybio bod ein sampl yn gynrychioliadol o'r boblogaeth o athrawon sy'n cymryd rhan yn y cynllun, mae hyn yn awgrymu, ar y cyfan, mai'r athrawon sy'n rhan o'r rhaglen ar y cam hwn yw'r rhai a fu â diddordeb blaenorol yn y pwnc a/neu awydd i ddefnyddio hyn yn gyfle i ddatblygu eu hunain oddi mewn i'w proffesiwn. O'r herwydd, gellid dadlau mai dyma'r grŵp o athrawon a oedd hawsaf, neu'n fwyaf priodol, i fod yn rhan o'r math hwn o raglen.

4.10 Efallai nad yw hyn yn syndod ar y cam hwn yn oes y rhaglen, ac o wybod bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn Gydlynwyr ar gyfer Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn eu hysgol. Ond pwysig yw ei nodi, oherwydd er mwyn bod yn llwyddiannus mewn perthynas â 'phrif-ffrydio' y dull addysgu a gaiff ei hybu gan y rhaglen hon, y mae'n debygol y bydd angen mynd y tu hwnt i'r grŵp hwn o athrawon (gan dybio nad yw pob athro yn rhannu'r un ysgogiad).

*Adborth ar y broses reoli a chyflawni*

4.11 Roedd adborth yr athrawon ar amryw agweddau ar reoli a chyflawni Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn gadarnhaol ar y cyfan (Ffigur 4.1). Roedd yr ymatebwyr yn benodol o gadarnhaol ynglŷn â'r cymorth a gawsant gan dîm Cyngor Celfyddydau Cymru, gydag 83% o'r ymatebwyr yn nodi 'da' neu 'ragorol'


wrth ymateb. Roedd yr adborth ar brofiadau'r ymatebwyr wrth weithio gyda'r Asiantau Creadigol a'r Ymarferwyr Creadigol hefyd yn gadarnhaol iawn.

4.12 Roedd yr ymatebwyr yn lleiaf cadarnhaol ynglŷn â'r prosesau ymgeisio a'r prosesau myfyrio a gwerthuso, gydag ymatebwyr yn dweud eu bod yn 'cymryd gormod o amser', yn 'ailadroddus' a/neu'n 'feichus'. Cynigai'r arolwg gyfle i'r athrawon awgrymu gwelliannau i wahanol elfennau'r rhaglen; mae'r prif ymatebion i'w gweld yn y ffigur ar y dudalen nesaf.

4.13 Mae'r adborth hwn yn bwysig am fod y rheiny'n gamau allweddol yn y broses gyflenwi, yn arbennig o ystyried y pwyslais ar 'brofi'r cysyniad' a rhannu canfyddiadau oddi mewn i'r rhaglen hon. Ond pwysig yw nodi nad yw'r adborth negyddol yn awgrymu y cafodd yr agweddau hynny eu cyflawni'n wael. Ond y mae risg uwch y cânt eu cyflawni'n llai effeithiol, o ystyried y fath adborth.

4.14 Mae elfen o ailadrodd hefyd wedi'i chynnwys yn y broses gynllunio/gwerthuso i annog gwneud cymariaethau cyn ac ar ôl, a chynorthwyo'r athrawon i farnu newid yn well dros amser. Risg anochel i'r dull hwn yw y gallai fod yn rhwystredig i rai cyfranogwyr a rhywfaint yn feichus i'w weinyddu. Ond y mae'n rhan angenrheidiol o'r broses. Mae hefyd angen i'r adborth gael ei ystyried mewn canfyddiad cadarnhaol ehangach o'r broes fel cyfanwaith.

**Ffigur 4.1: Barn yr athrawon ar agweddau rheoli a chyflawni Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ac awgrymiadau o welliannau (A)**





Awgrymiadau o welliannau i'r uchod (ymatebion dros 10% yn unig):

| **Ymatebion wedi'u codio** | **N** | **%** |
|---|---|---|
| Cwtogi, symleiddio a gwaredu ailadrodd | 54 | 64% |
| Byrhau'r hyfforddiant e.e. i un diwrnod | 10 | 12% |
| Llai o ffocws ar hyfforddiant gweithgarwch creadigol | 10 | 12% |

*Cyfanswm nifer yr ymatebwyr = 84*

**Ffigur 4.2: Barn yr athrawon ar agweddau rheoli a chyflawni Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ac awgrymiadau o welliannau (B)**




Awgrymiadau o welliannau i'r uchod (ymatebion dros 10% yn unig):

| **Ymatebion wedi'u codio** | **N** | **%** |
|---|---|---|
| Lleihau hunanwerthuso a'i wneud yn llai ailadroddus | 34 | 45% |
| Sicrhau ymarferwyr o ansawdd da e.e. drwy fetio | 10 | 13% |


*Cyfanswm nifer yr ymatebwyr = 76*

4.15 I gloi'r grŵp hwn o gwestiynau, gofynnwyd i'r ymatebwyr p'un a fyddent yn argymell Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol i athrawon eraill, ac meddai 92% ohonynt y byddent. Ond dylid nodi'r ffaith bod eisoes gan yr athrawon hyn ddiddordeb yn y pwnc, gan fod hyn yn debygol o olygu y byddent yn dueddol o fod yn gadarnhaol ynglŷn â'r cynllun. Bydd yn ddiddorol gweld p'un a fydd yr adborth cadarnhaol hwn yn parhau mewn tonnau dilynol o'r arolwg hwn.

*Canlyniadau canfyddiedig*

4.16 Unwaith eto, roedd yr athrawon yn gadarnhaol pan ofynnwyd iddynt asesu canlyniadau cymryd rhan yng Nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ar y dysgwyr eu hunain, fel athrawon ac i'r ysgol gyfan (Ffigur 4.3).

**Ffigur 4.3: Canlyniadau canfyddiedig yr athrawon o gymryd rhan yng Nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol**




**Adborth ansoddol ar ganlyniadau i'r dysgwyr**

4.17 Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr ymhelaethu ac esbonio eu sgoriau fel rhan o'r dulliau cymysg a ddefnyddiwyd yn yr arolwg hwn. Roedd rhai o'r disgrifyddion allweddol mewn perthynas â'r canlyniadau i'r dysgwyr yn gysylltiedig â'r effaith ar ymgysylltu ac ysgogiad. Nododd sawl ymatebydd hefyd i'r disgyblion ddysgu sgiliau newydd ac ymgymryd â chyfrifoldebau newydd e.e. cymryd rhan yn y broses o recriwtio Ymarferwyr Creadigol. Nodwyd i'r dysgwyr elwa o brofiadau gwahanol a newydd o ddysgu ac na fyddent wedi cael y fath gyfleoedd heblaw am drwy'r prosiect hwn. Roedd yr adborth cadarnhaol eraill yn cynnwys llawer yn dweud bod y disgyblion yn mwynhau dysgu creadigol llawer mwy na dysgu traddodiadol, ac iddo gael effaith benodol o gryf ar ddysgwyr sydd â materion ymddygiad.

4.18 Dyma ddetholiad o sylwadau a wnaed gan athrawon wrth drafod y canlyniad i'r dysgwyr:

> "Roedd ein disgyblion yn dwlu arno, ac wedi elwa cymaint. Bu'n ffordd dda inni ddysgu llawer yn gyflym, ac rydyn ni eisiau ei ymwreiddio ar draws yr ysgol, fel bod modd i'r holl ddisgyblion elwa ohono. Bu'r canlyniadau'n wych.
>
> Rhoddodd y disgyblion lawer o fewnbwn ac maen nhw'n cael dweud eu barn ar sut i'w gyflwyno, felly maen nhw wedi meithrin llawer o sgiliau ac i rai mae wedi gwneud newid sylweddol."

“Yn y ddwy flynedd, mi wnaethon ni gyflawni llawer o dargedau. Bu’n wych i’n dysgwyr o ran cwmpasu’r cwricwlwm a deall y cwricwlwm a dysgu sgiliau newydd, am i ni wneud animeiddio y llynedd ac rydyn ni wedi cyflwyno rhai agweddau i’r cwricwlwm bellach.”

“Llynedd, mi wnaethon nhw lawer o waith gyda mathemateg mewn siapau a gwneud y cyfan yn greadigol, ac roedden nhw i gyd yn gwybod eu siapau. A dyna’r ydyn ni wedi’i ddefnyddio unwaith eto pan wnaethon ni hyn yn annibynnol gyda disgyblion newydd, ac mi weithiodd yn wych unwaith eto. Mae wedi bod yn dda iawn fan hyn am fy mod i wedi gweld yr effaith a gafodd ar y plant hyn ac ar eu mwynhad o’r ysgol.”

“Mae wedi rhoi profiad ymarferol iddynt, cyfleoedd na chawson nhw erioed o’r blaen, am na fyddai ein cyllideb yn ei ganiatáu, a hefyd maen nhw wedi cael eu hamlygu i wahanol fathau o gelfyddydau creadigol.”

“Mi wnaethon nhw ei fwynhau’n fawr. Roedd yn gynhwysol ac yn wahanol iawn i waith ysgol diwrnod arferol.”

“Mae’r cyfleoedd a gawsant wedi caniatáu iddyn nhw ffynnu. Mi wnaethon ni ddau brosiect cwbl wahanol, ac roedd y ddau’n wych, a bu pob plentyn yn cymryd rhan. Bu’n hwb mawr i hyder y plant a fu’n swil a llawer o’n disgyblion nad ydyn nhw’n siarad Saesneg, gan ein bod ni’n ysgol amlddiwylliannol. Mae’r cyfan wedi bod yn dda iawn ac yn hygyrch i bawb.”

“Mae mwynhad y plant o’r broses wedi bod yn rhyfeddol. O ran eu canlyniadau, mi wnaethon nhw gynnydd sylweddol mewn llawer o ddatblygiadau personol a chymdeithasol er nad hynny oedden ni’n ei ystyried yn bwynt ffocws. Yn ogystal â’r meysydd datblygu’r oedden ni’n canolbwyntio arnyn nhw. Mae wedi cael effaith fawr ar eu canlyniadau a’u safonau yn gyffredinol, ond mae hefyd wedi cael effaith enfawr ar sgorio athrawon o ran eu datblygiad hwy.”

### Adborth ansoddol ar ganlyniadau i athrawon

4.19 Roedd y prif ganlyniadau i'r athrawon yn cynnwys datblygu sgiliau newydd a ffyrdd newydd o addysgu, a nodai llawer iddynt ddysgu sut i amrywio eu harddull addysgu gan addysgu mewn ffyrdd mwy creadigol, e.e. addysgu mewn amgylcheddau'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Roedd eraill hefyd yn nodi iddynt ddysgu sgiliau ymarferol mewn perthynas â threfnu prosiectau mawr, ac iddynt rwydweithio a datblygu perthnasoedd ag artistiaid.

> "Mae wedi gwneud i athrawon sylweddoli y gall pethau fod yn fwy hylifol a rhydd a pheidio â bod mor haearnaidd, a phob wythnos maen nhw'n cynhyrchu tudalennau lu o nodiadau. Mae wedi bod yn wych. Y gwaddol yw'r peth pwysig – dewch inni feddwl y tu allan i'r bocs a chael ein harwain yn fwy gan y plentyn."

> "Rwy'n credu ei fod wedi bod yn dda iawn cael gweithio gyda'r disgyblion mewn cyd-destun gwahanol i wersi arferol. Felly mae cael cyfnodau hwy o amser a gweithio ar y prosiect wedi bod yn sefyllfa weithio wahanol, ac rwy'n sicr wedi meithrin sgiliau newydd. Eleni rydyn ni wedi bod yn gweithio ar brosiect ffilm, felly mae'r gwahanol waith animeiddio a defnyddio'r iPads gydag ap benodol oll wedi bod yn bethau'r wyf wedi dysgu ochr yn ochr â'r disgyblion, ac mae'n bosib y gallaf i eu defnyddio mewn gwaith yn y dyfodol."

> "Mae symud y tu allan i amgylchedd yr ystafell ddosbarth yn sicr wedi gwella ein creadigrwydd."

> "Mae wedi rhoi'r cyfle imi weithio gyda phobl newydd, y cyfle i rwydweithio, yn ogystal â gwella fy addysgu, fy null, yn hytrach na bod y cyfan yn llinol iawn. Mewn gwirionedd, rwy'n herio'r ffordd rwy'n addysgu, fel fy mod i'n cynnwys yr hyn a wnaethon ni yn yr hyfforddiant a'i fod ar draws y cwricwlwm yn hytrach na'r pwnc yn unig."

> "O ran ymgysylltu, dyna fu'r agwedd gryfaf. Roedd gennym 20 o fyfyrwyr ym Mlwyddyn 8 a gafodd amrywiaeth o gyfleoedd na fyddent wedi'u cael fel arall. Rwy'n credu iddyn nhw gael eu herio mewn ffordd na fydden nhw wedi'u herio fel arall. Rwy'n credu iddo ddod â bwrlwm i'r ysgol; mae'n waith yr oedd modd inni ei rannu gyda disgyblion a staff eraill ac aelodau'r gymuned, ac mae'r disgyblion a fu'n rhan o'r profiad hwnnw wedi elwa ohono. Rwy'n credu i broffil a nifer y rhai a fu'n gysylltiedig â'r prosiect fod yn hwb go iawn i'w hyder a'u

hunan-barch, a bu o fudd i'w sgiliau rhifedd hefyd, ac aethpwyd i'r afael ag ef mewn ffordd arloesol."

"Mae cael cyfleoedd i weithio gydag Ymarferwyr Creadigol wedi dylanwadu ar ymarfer yr athrawes arweiniol ac wedi caniatáu iddi ystyried ffyrdd gwahanol o gynnal gwersi Cyfnod Allweddol 3."

"Rwy wedi dysgu llawer, pethau fel sgiliau trefnu, gan ein bod ni wedi bod yn gweithio gyda llawer o wahanol bobl a bu'n rhaid imi drefnu cyfarfodydd, ac ati. Ac mae gweithio gyda'r ymarferwyr wedi bod yn dda iawn, gan fy mod i wedi dysgu llawer o bethau ganddyn nhw hefyd. Fyddwn i ddim wedi cymryd risgiau o'r blaen, ond fe wnes i gyda hyn, gan fod gen i'r arbenigydd yn gweithio gyda mi. Rydyn ni wedi bod yn greadigol iawn, a meddwl y tu allan i'r bocs ac wedi newid ein gwaith cynllunio fel ei fod yn cysylltu â Donaldson — fe aethon ni amdani, go iawn."

"Rwy ar fy ennill, ac yn falch iawn, iawn gyda sut rwy wedi gallu gwella fy natblygiad proffesiynol drwy weld dull theatrig o addysgu rhifedd a llythrennedd. Drwy fy nghyfrifoldebau fel cydlynydd, roedd gen i'r cyfle fan hyn i gael profiad bywyd go iawn o weithio gydag asiantaeth allanol a gorfod lledaenu'r wybodaeth honno mewn cyfarfodydd clwstwr, ac ati, lle bu'n rhaid inni rannu profiadau."

"Mae wedi fy ngalluogi i ddatblygu syniadau fy hun yn yr ystafell ddosbarth, a fu o fudd go iawn i'r dysgwyr. Cefais ddwy wers fathemateg wych gyda'r plant a ddaeth o'r gwaith a ddatblygodd, ac meddai un bachgen bach wrthyf i, 'Rwy'n dwlu ar fathemateg nawr!'."

**Adborth ansoddol ar ganlyniadau i'r ysgol**

4.20 Wrth ddisgrifio'r canlyniadau i'r ysgolion, roedd y prif effeithiau y cyfeiriwyd atynt gan yr athrawon yn cynnwys datblygu ffyrdd newydd i addysgu a'r cyfle i weithio gydag arbenigwyr allanol yn y celfyddydau, na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Meddai llawer i'r hyn a ddysgwyd ganddynt gael ei gyflwyno fesul cam drwy'r ysgol ac, mewn rhai achosion, ei rannu gydag ysgolion eraill hefyd.

"Fe wnaethon ni ymgeisio am y grant estyniad o £2,000, sy'n caniatáu inni ddarparu amser digyswllt fel bod modd i athrawon eraill yn yr ysgol arsylwi sesiynau. Felly bu'r cyfle i rannu a dysgu o hyn yn rhagorol, ac fe gawson ni adborth cadarnhaol iawn o hynny."

> “Mae gan yr ysgol ddiwrnod pwnc nawr, felly mae diwrnod wedi’i neilltuo ar gyfer y celfyddydau creadigol a defnyddio’r celfyddydau creadigol i gwblhau sgiliau darllen, rhifedd a llythrennedd, ac mae hynny ar draws yr ysgol gyfan, nid y tîm oedd yn gwneud prosiect yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn unig. Ac ry’n ni hefyd wedi dechrau casglu portffolios o waith a wnaeth y plant ar y diwrnodau hyn, felly mae gennym ni dystiolaeth ohono hefyd – mae wedi gwneud i bawb feddwl yn fwy creadigol.”

> “Mae’n rhywbeth sydd yn awr wedi’n galluogi i sefydlu proses debyg yn ein haddysg brif ffrwd. Dydi e ddim wedi’i fireinio’n llwyr, ac mae dal angen rhoi sglein ar yr ymylon, ond mae wedi’n galluogi i weithredu bloc dysgu newydd yn ein haddysgu o ddydd i ddydd yn yr adran dechnoleg.”

> “Eleni, am ein bod ni’n defnyddio Google Classroom, roedd modd ei gyflwyno fesul cam ar draws yr ysgol gyfan, a chyda’r Flip Learning a Soundtrap a Flat, a ddaeth oll wrth ein ymarferydd – mae’r cyfan yn gweithio’n dda ac mae modd ei rannu.”

> “Mae’n codi proffil yr ysgol yn gyffredinol am y bydd yn rhaid ichi fod yn gweithio’n agos gydag asiantaethau ac ymarferwyr allanol ac rydych chi’n ffurfio perthynas barhaol gyda nhw, felly mae’n tynnu’r gymuned i mewn ac yn gwella perthynas â’r rhieni. Mae’n codi’r safonau a bydd y plant yn mwynhau edrych ar rywbeth fel mathemateg yn fwy creadigol. Yn gyffredinol, bu’n rhaid i’r plant ddatrys problemau, dyfalbarhau a chydweithio y tu allan i amgylchedd gwersi traddodiadol a bu’n dda iawn iddyn nhw ac i ni fel athrawon.”

> “Mae wedi rhoi mwy o ddealltwriaeth a phrofiad i’r ysgol o weithio gydag ymarferwyr allanol ac roedd yn ymchwil weithredol dda ar gyfer datblygu prosiectau cydweithio creadigol pellach rhwng meysydd pwnc.”

4.21 Mae trafodaeth bellach ynglŷn â chanlyniadau canfyddedig cymryd rhan yn y rhaglen ar ddiwedd yr adran hon.

**Rhaglen Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan (Maes 2)**

4.22 Gofynnwyd i’r ymatebwyr hefyd roi sylwadau ar amryw elfennau ail faes y rhaglen, Rhaglen Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan. Fodd bynnag, roedd nifer yr ymatebion i’r cwestiynau hyn yn isel mewn rhai achosion; pwysig yw nodi nad oedd hyn yn annisgwyl, gan mai cymharol newydd oedd y gweithgareddau hynny adeg cynnal yr arolwg hwn. Felly elfennau o Faes 2 yn unig a drafodir yma. Bydd tonnau dilynol o’r arolwg hwn yn mynd i’r afael â hyn.

*Cronfa Profi'r Celfyddydau (Ewch i Weld neu Gydweithio Creadigol)*

4.23 Roedd ychydig o dan hanner (49%; 53/108) yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn ymwybodol o'r gronfa hon. Byddai lefel uwch o ymwybyddiaeth o'r gronfa yn fanteisiol am nifer o resymau, gan gynnwys y ffaith y caiff rhwydweithio ymysg athrawon ac ysgolion ei hybu yn y rhaglen.

*Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg*

4.24 Roedd gwybodaeth am Rwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg wedi'i hollti mewn ffordd debyg, gyda 44% (48/108) o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn nodi eu bod yn ymwybodol o'r rhwydweithiau. Mae'r lefel isel hon o ymwybyddiaeth yn peri rhywfaint o bryder, o ystyried y lefel uchel o ddiddordeb yn y pwnc ymysg ymatebwyr y cwestiwn, a ddylai, byddem yn tybio, eu hannog i fod yn ymwybodol o'r rhwydweithio, o leiaf. Roedd lefelau cyfranogi yn y rhwydweithiau hyd yn oed yn is, gyda dim ond 15% o'r ymatebwyr yn dweud iddynt wneud hynny mewn unrhyw ffordd. Fel Ysgolion Creadigol Arweiniol Cylch 1, byddai eu rôl posibl fel eiriolwyr rôl creadigrwydd mewn ysgolion hefyd yn ymddangos yn amlwg, yn arbennig o ystyried yr adborth cadarnhaol a nodwyd yn yr arolwg hwn. Byddai annog eu hymwybyddiaeth a'u cyfranogiad yn y rhwydweithiau felly'n ymddangos yn briodol. Fodd bynnag, dylid nodi na fu i'r gweithgarwch ddechrau yn llawer o'r rhwydweithiau hyd at ran olaf 2016 ac, mewn un rhanbarth, yn gynnar yn 2017.

*Parth Dysgu Creadigol*

4.25 Meddai 68 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o'r Parth Dysgu Creadigol, sy'n uwch na lefel ymwybyddiaeth y rhwydweithiau. Nid yw'r lefel uwch hon o ymwybyddiaeth yn syndod, gan fod y parth dysgu yn adran ar Hwb y mae disgwyl i'r athrawon ei ddefnyddio'n rheolaidd, tra bo sefydlu'r rhwydweithiau'n gwbl newydd. Er y lefel uchel o ymwybyddiaeth, 42% yn unig a fu i'r parth dysgu, a bu i lawer llai (12 o ymatebwyr yn unig) gyfrannu at y parth. Ar nodyn mwy cadarnhaol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (93%) nad oeddynt wedi bod i'r parth yn mynegi diddordeb mewn gwneud hynny. Y cwestiwn amlwg, felly, yw pam nad ydynt wedi bod i'r parth dysgu.

4.26 Mae'r lefelau isel o ymwybyddiaeth a/neu gyfranogiad yn y Parth Dysgu Creadigol a Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg, fel a awgrymir gan yr arolwg, yn destun pryder. Er nad dyma'r unig ffordd y caiff gwybodaeth am raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau ei lledaenu, y maent yn elfennau allweddol

o'r broses, sy'n hanfodol i lwyddiant y rhaglen (fel a nodwyd gan yr adolygiad o'r Theori Newid yn Adroddiad 1 y gwerthusiad hwn).


**Canlyniadau canfyddiedig**

4.27 I gloi'r arolwg, gofynnwyd cyfres o gwestiynau sy'n archwilio ymhellach fuddion canfyddiedig cymryd rhan yn y rhaglen. Mae'r cwestiynau hyn yn gysylltiedig â dau faes y rhaglen. Fodd bynnag, o ystyried bod mwyafrif yr ymatebwyr i'r don hon o'r arolwg yn gyfranogwyr yng Nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, dylid ystyried y canfyddiadau yn adlewyrchiad o'r cynllun hwnnw'n unig ar yr adeg hon, fel a drafodir isod.

4.28 Wrth ystyried y canfyddiadau, dylid rhoi ystyriaeth i'r ffaith bod y wybodaeth yn seiliedig ar hunanasesiad gan yr athrawon a fu'n cymryd rhan yn y cynllun. Fel cyfranogwyr y rhaglen, mae'n bosibl eu bod yn tueddu i fod yn gadarnhaol tuag at y rhaglen a'r dull y mae'n ei hyrwyddo. Ond mae eu barn o ddiddordeb, fel grŵp sy'n cymryd rhan yn y rhaglen.


4.29 Gofynnwyd i'r athrawon fwrw barn ar eu hunain a'u hysgol yn erbyn cyfres o feini prawf (ar ffurf gosodiadau) a ddatblygwyd fel rhan o'r adolygiad Theori Newid a drafodwyd yn Adroddiad 1 y gwerthusiad, gan fyfyrio'n gyntaf ynglŷn â'r cyfnod cyn iddynt ymwneud â'r rhaglen, ac wedyn unwaith eto ar adeg ymateb i'r holiadur.

**Ffigur 4.4: Newid yng nghanfyddiad athrawon o addysgu fel galwedigaeth: cyn yr ymyriad ac ar ddiwrnod yr arolwg**



4.30 Mae Ffigur 4.4 yn dangos y canlyniadau ar gyfer cyfres o osodiadau yn ymwneud ag addysgu fel galwedigaeth. Mae'n dangos y newid[8] o'u canfyddiad o'u haddysgu cyn ymwneud â'r rhaglen i'w canfyddiad ar adeg cynnal yr arolwg, gydag ychydig iawn o newid yn y rhan fwyaf o achosion. Ond y mae newid yn yr ymateb i'r gosodiad canlynol: 'Rwy'n athro effeithiol', gydag 17% yn fwy cadarnhaol tuag at y gosodiad ar ddiwrnod yr arolwg o gymharu â'u canfyddiad o'u hunain cyn ymwneud â'r cynllun (sy'n cynrychioli newid cadarnhaol fel a nodwyd gan 15 o ymatebwyr).

**Ffigur 4.5: Canfyddiadau athrawon o'r celfyddydau a diwylliant: cyn yr ymyriad ac ar ddiwrnod yr arolwg**




4.31 Canfyddiad cadarnhaol a ragwelwyd i athrawon yn ymwneud â rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau oedd cynnydd yn eu hymwybyddiaeth o weithgareddau celfyddydol a diwylliannol, a'u diddordeb ynddynt, y tu allan i'r ysgol yn ogystal ag oddi mewn i'r ysgol. Mae'r graff uchod yn dangos bod cyfran uchel o'r ymatebwyr yn fwy cadarnhaol pan ofynnwyd iddynt gytuno neu a anghytuno â'r gosodiad ynglŷn â'u hymwybyddiaeth o sector y celfyddydau a diwylliant a'u diddordeb ynddo ar ôl iddynt ymwneud â'r cynllun (nododd 27% newid cadarnhaol). Caiff hyn ei briodoli'n bennaf i ymatebwyr yn symud o 'gytuno' i 'gytuno'n gryf' â'r gosodiad hwn.

[8] Gofynnwyd i'r athrawon fwrw barn ar eu lefel o gytuno â phob gosodiad cyn rhaglen Dysgu Creadigol Drwy'r Celfyddydau ac ar adeg cynnal yr arolwg (graddfa o gytuno = Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Nid yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf). Caiff ymatebwyr sy'n cytuno'n gryfach ar adeg yr arolwg eu cofnodi fel newid cadarnhaol, a'r gwrthwyneb fel newid negyddol.


4.32 Mae’r canfyddiadau hefyd yn datgelu bod bron i bawb o’r ymatebwyr yn cytuno â’r gosodiadau hyn i ryw raddau, cyn ac ar ôl yr ymyriad (roedd o leiaf 96% yn cytuno neu’n anghytuno’n gryf â’r ddau osodiad cyn ac ar ôl yr ymyriad). Mae hyn yn ategu’r casgliad blaenorol bod gan ein sampl o athrawon sy’n cymryd rhan yn y cynllun ddiddordeb cryf yn y sector.

4.33 Mae’r graffiau isod (Ffigur 4.6) yn dangos yr ymatebion i gyfres o osodiadau mewn perthynas â dulliau creadigol o ddysgu ac addysgu. Mae newid cadarnhaol ym mhob achos ar ddiwrnod yr arolwg o gymharu â chyn ymwneud â’r cynllun, sy’n beth cadarnhaol.


4.34 Mae’r newid amlycaf i’w weld mewn perthynas â’r gosodiad hwn: ‘Rwy’n deall sut beth yw ysgrifennu creadigol a dulliau creadigol o ddysgu’, wrth i 46% o’r ymatebwyr (43/94) nodi newid cadarnhaol yn eu barn.

4.35 Fodd bynnag, ar y cyfan, newid o ‘gytuno’ i ‘gytuno’n gryf’ yw hyn. Yn unol â hynny, y canlyniad yw bod barnau blaenorol yr athrawon yn cael eu cadarnhau neu, mewn llawer o achosion, eu cryfhau, ond prin yw’r dystiolaeth (ar hyn o bryd) o safbwyntiau’n newid ymysg y grŵp hwn o athrawon.

**Ffigur 4.6: Canfyddiadau athrawon o ddulliau creadigol o addysgu a dysgu: cyn yr ymyriad ac ar ddiwrnod yr arolwg**



**Ffigur 4.7: Canfyddiadau athrawon o'u hysgolion: cyn yr ymyriad ac ar ddiwrnod yr arolwg**




4.36 Mae Ffigur 4.7 yn dangos newid cadarnhaol yng nghanfyddiad athrawon o'u hysgol ym mhob gosodiad yn dilyn yr ymyriad, yn benodol mewn perthynas â chydweithio â sefydliadau celfyddydol a diwylliannol (roedd 57% yn fwy cadarnhaol), cymhwyso dulliau celfyddydol a chreadigol at ddysgu ac addysgu (30% yn fwy cadarnhaol), a rhannu arferion da mewn addysgu creadigol gydag athrawon eraill (27%).

Ond y mae'r canlyniadau'n dilyn yr un patrwm, gyda barn gadarnhaol flaenorol yn cael ei chryfhau yn hytrach na barn yn cael ei newid (hynny yw symud o gytuno i gytuno'n gryf yn hytrach nag o anghytuno i gytuno). Yr unig eithriad i hyn yw'r ymateb i'r gosodiad canlynol: 'Mae cydweithio â sefydliadau celfyddydol a diwylliannol ac ag ymarferwyr creadigol yn nodwedd gyffredin yn fy ysgol', lle bu symudiad o anghytuno i gytuno. Yn achos y gosodiad hwnnw, roedd y gyfran a gytunai wedi cynyddu o 60% cyn ymwneud â'r rhaglen i 89% yn dilyn yr ymyriad.

4.37 Awgryma hyn fod y rhaglen yn arwain at newid mewn arferion gweithio yn yr ysgol, er i'r arolwg hwn, wrth gwrs, gael ei gynnal yn ystod oes y gweithgareddau yn yr ysgol a ariannwyd gan Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Cwestiwn allweddol i'r gwerthusiad, nad oes modd ei ateb ar hyn o bryd, yw p'un a gaiff y newid hwn mewn arferion gweithio ei gynnal ar ôl i gymorth Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ddod i ben.

# 5. Canfyddiadau Arolwg o Artistiaid a Sefydliadau Celfyddydol a Gymerodd Ran

## Cyflwyniad

5.1 Diben yr arolwg hwn yw casglu data ar yr artistiaid a'r sefydliadau celfyddydol hynny sy'n cymryd rhan yn rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau ac archwilio canlyniadau'r cynlluniau o'u safbwynt hwy. Mae'r arolwg hwn yn dilyn yr un patrwm â'r arolwg o'r athrawon a drafodwyd yn yr adran flaenorol, a chaiff ei gynnal yn flynyddol yn ystod oes y rhaglen. O'r herwydd, dylai'r canlynol – sydd unwaith eto'n seiliedig ar un don o'r arolwg – gael eu hystyried yn ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yn unig, ac a fydd yn datblygu wrth i waith maes y gwerthusiad fynd rhagddo.

5.2 Dyluniwyd yr arolwg i gwmpasu artistiaid a sefydliadau celfyddydol a fu'n ymwneud â'r amryw agweddau ar y rhaglen, gan gynnwys y rhai a fu'n ymwneud yng Nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol fel Asiant Creadigol neu Ymarferydd Creadigol, rhai a fu i ddigwyddiadau a drefnwyd gan Rwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg, yn ogystal â sefydliadau a wnaeth gais am grant Cydweithio Creadigol.

5.3 Cymrodd cyfanswm o 70 o ymatebwyr ran yn y don hon o'r arolwg, a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2017. Arolwg ar-lein oedd hwn a ddosbarthwyd i artistiaid a sefydliadau'r celfyddydau drwy dîm Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, Cyngor Celfyddydau Cymru, a Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg.

## Ein sampl

5.4 Mae ein sampl hyd yma'n cynnwys 52 o artistiaid (74%), 22 o weinyddwyr y celfyddydau ar gyfer sefydliadau celfyddydol (31%), a 10 o ymatebwyr mewn amrywiaeth o rolau eraill (14%). Mae graffiau i'w gweld yn Atodiad 3 sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth gefndir am yr ymatebwyr, gan gynnwys y canlynol:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fenywod gwyn dros 45 oed a chanddynt fwy na 10 mlynedd o brofiad o weithio mewn ysgolion neu gydag ysgolion;
- Hunangyflogedig ydynt yn bennaf ac maent yn ymwneud ag amrywiaeth eang iawn o ffurfiau celf / ymarferion creadigol;
- Mae bron i un ym mhob pedwar yn seiliedig yng Nghaerdydd.

**Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol (Maes 1)**

5.5 Roedd 57 o’r 70 o ymatebwyr (81%) yn ymwneud â Chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol naill ai fel Asiant Creadigol (29) neu fel Ymarferydd Creadigol (28). Ond o’r rhain, 20 o ymatebwyr yn unig a fu’n ymwneud â’r cynllun yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16 (hynny yw, Cylch 1). Dylid cydnabod y niferoedd cymharol fach hyn o ymatebwyr wrth ystyried y dadansoddiad a drafodir isod.


*Ysgogiad i gymryd rhan*

5.6 O’r rhai a fu’n ymwneud â Chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, yr ymateb mwyaf cyffredin mewn perthynas ag ysgogiad i gymryd rhan oedd bod ganddynt ddiddordeb yn y cynllun, sy’n ymateb a roddwyd gan 80% o’r ymatebwyr. Efallai nad yw hyn yn syndod o ystyried bod gan y grŵp, yn y rhan fwyaf o achosion, fel a nodwyd yn flaenorol yn yr adran hon, brofiad helaeth o weithio mewn ysgolion neu gydag ysgolion. Yr ail ymateb mwyaf cyffredin oedd ‘datblygiad proffesiynol’ (64%).

*Adborth ar y broses reoli a chyflawni*

5.7 Mae Ffigur 5.1 yn dangos ymatebion yr artistiaid pan ofynnwyd iddynt nodi eu profiad o’r gwahanol elfennau o’r broses reoli a chyflawni ar gyfer Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Roedd yr ymatebion ar y cyfan yn gadarnhaol ar gyfer pob un o’r agweddau ond yn lleiaf cadarnhaol, fel yn achos yr athrawon, ynglŷn â’r broses ymgeisio (63% yn unig a nododd ei bod yn ‘dda’ neu’n ‘rhagorol’ o gymharu â 74% neu fwy ar gyfer pob agwedd arall).

**Ffigur 5.1: Adborth artistiaid ar reoli a chyflawni Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol**





5.8 Cymysg oedd y sylwadau ynglŷn â'r hyfforddiant i'r asiantau a'r ymarferwyr creadigol. Roedd y sylwadau cadarnhaol yn dweud bod yr hyfforddiant yn 'rhagorol', 'addysgiadol' ac yn 'ysbrydoli'. Mynegodd eraill iddynt elwa o adeiladu rhwydwaith o gefnogaeth yn y digwyddiadau hyfforddiant hyn.

5.9 Awgrymodd yr ymatebwyr llai cadarnhaol y dylai'r hyfforddiant fod wedi cynnwys mwy ar y broses a'r logisteg, e.e. cwblhau'r gwaith papur angenrheidiol ac ati. Mynegwyd y farn hefyd bod yr hyfforddiant yn fwy priodol i weithwyr proffesiynol amhrofiadol yn y celfyddydau, gan fod y rhan fwyaf o'r cynnwys yn canolbwyntio ar ddarparu sesiynau dysgu creadigol – maes y meddai rhai ymatebwyr fod ganddynt gyfoeth o brofiad ynddo.

5.10 Roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn mai annheg oedd i artistiaid ymrwymo pedwar diwrnod o'u hamser i hyfforddiant gyda'r posibilrwydd o beidio â derbyn unrhyw waith ar ei ddiwedd. Ym marn rhai, ni chafodd hyn ei egluro wrthynt.

5.11 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a fu'n gweithio gyda'r Ysgolion Creadigol Arweiniol i wneud sylwadau ar y profiad hwnnw ac roedd yr adborth yn gadarnhaol (Ffigur 5.2), er bod angen ystyried y nifer fach o ymatebwyr.


**Ffigur 5.2: Adborth artistiaid ar weithio gyda'r Ysgolion Creadigol Arweiniol**




*Canlyniadau canfyddiedig*

5.12 Gofynnwyd i'r artistiaid asesu canlyniadau cymryd rhan yn y cynllun i'r dysgwyr, yr ysgolion a hwy eu hunain / eu sefydliad. Fel a ddangosir yn y graff isod, roedd yr ymateb yn gadarnhaol (os nad yn gadarnhaol *iawn*) ym mhob achos. Yr ymateb mwyaf cadarnhaol oedd y canlyniad canfyddiedig i'w hunain fel Asiantau Creadigol neu Ymarferwyr Creadigol.

**Ffigur 5.3: Canlyniadau canfyddiedig artistiaid o Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol**




5.13 Nifer fach o ymatebwyr yn unig a ddarparodd unrhyw sylwadau i ategu eu hasesiadau o ganlyniadau'r cynllun.


**Rhaglen Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan (Maes 2)**

5.14 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd wneud sylwadau ar amryw elfennau ail faes y rhaglen, sef Rhaglen Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan. Ond isel mewn rhai achosion fu'r nifer yr ymatebion i'r cwestiynau hyn; pwysig yw nodi nad oedd hyn yn annisgwyl, gan mai cymharol newydd oedd y gweithgareddau hynny ar adeg cynnal yr arolwg hwn. Felly rhai elfennau'n unig o Faes 2 a gaiff eu trafod fan hyn, ac fel arfer drwy brism y rhai a gymerodd ran ym maes yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Bydd tonnau dilynol yr arolwg hwn yn mynd i'r afael â hyn.

*Cydweithio Creadigol*

5.15 Roedd 45 o'r 70 o ymatebwyr yn ymwybodol o Gronfa Profi'r Celfyddydau: Cydweithio Creadigol (64%), ond 12 yn unig a wnaeth gais, ac 8 o'r rheiny oedd yn llwyddiannus. Fel a ddangosir yn y graff isod, er bod nifer yr ymatebwyr yn fach, roedd eu hadborth ar y broses ymgeisio yn gadarnhaol.

**Ffigur 5.4: Asesiad yr ymatebwyr o'r broses ymgeisio ar gyfer cyllid Cydweithio Creadigol (yn dangos nifer yr ymatebwyr)**




*Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg*

5.16 Roedd ymwybyddiaeth o'r rhwydweithiau'n uwch ymysg artistiaid a sefydliadau celfyddydol nag oedd ymysg yr athrawon a holwyd, gyda 50 o'r 70 o ymatebwyr (71%) yn ymwybodol ohono. Fodd bynnag, isel oedd y lefel o gymryd rhan yn y rhwydweithiau, gydag 19 (23% o'r holl ymatebwyr) yn unig yn gwneud hynny. Fel yn achos athrawon, mae hyn yn awgrymu bod angen gweithio i ddenu artistiaid a sefydliadau celfyddydol i gymryd rhan yn y rhwydweithiau.

*Parth Dysgu Creadigol*

5.17 Meddai 71 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o'r Parth Dysgu Creadigol, gan gyd-fynd â lefel ymwybyddiaeth o'r rhwydweithiau ac unwaith eto yn uwch na'r lefel ymysg yr athrawon a holwyd. Fodd bynnag, fel yn achos athrawon, roedd mynediad i'r wefan yn isel, gyda 54% yn unig wedi mynd i'r parth dysgu ac un ym mhob saith o'r ymatebwyr yn unig wedi cyfrannu at y parth. Ond mae'n werth nodi mai sefydliadau celfyddydol sydd wedi'u cymeradwyo a'u trefnu'n bartneriaid ac Asiantau Creadigol sy'n gallu cael manylion mewngofnodi i'r Parth Dysgu Creadigol (hynny yw, nid yw ar gael i artistiaid / ymarferwyr creadigol llawrydd).

5.18 Fel yn achos athrawon, gan gydnabod y cynhaliwyd yr arolwg hwn yn gymharol gynnar yn oes y cynllun, mae'r lefelau isel o ymwybyddiaeth o elfennau 'rhannu' a 'lledaenu gwybodaeth' y rhaglen, neu gymryd rhan ynddynt, unwaith eto'n peri rhywfaint o bryder a bydd angen i reolwyr y rhaglen roi ystyriaeth i hyn.

**Canlyniadau canfyddiedig y rhaglen**


5.19 Yr un oedd y dull o asesu'r canlyniadau i'r artistiaid sy'n cymryd rhan yn y rhaglen â'r hyn a ddefnyddiwyd yn achos athrawon, gan ofyn i'r ymatebwyr asesu'u hunain yn erbyn nifer o feini prawf (a ddatblygwyd yn ystod proses y Theori Newid), a myfyrio'n ôl i'r cyfnod cyn iddynt ymwneud â'r rhaglen ac wedyn unwaith yn rhagor ar ddiwrnod yr arolwg.

5.20 Mae angen rhoi ystyriaeth i'r ffaith bod y wybodaeth yn seiliedig ar hunanasesiad gan y rhai sy'n cymryd rhan yn y cynllun; fel cyfranogwyr y rhaglen, mae'n bosibl eu bod yn tueddu i fod yn gadarnhaol tuag at y rhaglen a'r dull sy'n cael ei hyrwyddo ganddi. Fodd bynnag, y mae eu barn, fel grŵp sy'n cymryd rhan yn y rhaglen, unwaith eto o ddiddordeb.

5.21 Yn gyffredinol, yr un yw'r patrwm â'r hyn a welwyd yn achos yr athrawon, gyda barn gadarnhaol bresennol yn cael ei chryfhau yn hytrach na barn yn cael ei newid (nid oedd mwy na 4% yn anghytuno ag unrhyw un o'r gosodiadau cyn yr ymyriad). Unwaith eto, mwy na thebyg nad yw hyn yn syndod, o ystyried cefndir ein sampl.


5.22 Yr eithriad yw'r ymateb i'r gosodiad canlynol: 'Mae rhannu gwybodaeth a phrofiadau ynghylch dysgu creadigol ymysg artistiaid a sefydliadau celfyddydol yng Nghymru yn beth cyffredin', lle mae'n ymddangos y bu rhywfaint o symudiad tuag at y cadarnhaol (roedd 11% yn anghytuno'n gryf cyn yr ymyriad, o gytuno â 3% yn unig wedyn). Yn yr achos hwnnw, roedd 19 o'r 46 (40%) o ymatebwyr yn nodi newid cadarnhaol yn eu barn.

**Ffigur 5.5: Canfyddiadau artistiaid o…. – cyn iddynt ymwneud â'r rhaglen, ac ar ddiwrnod yr arolwg**




5.23 Gofynnwyd i'r artistiaid a holwyd i ba raddau'r oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres bellach o osodiadau i archwilio eu canfyddiad o ganlyniadau'r rhaglen (Ffigur 5.6).

**Ffigur 5.6: Ymatebion yr artistiaid pan ofynnwyd iddynt gytuno neu anghytuno â chyfres o osodiadau cysylltiedig yn cychwyn: "O ganlyniad i raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau…"**




5.24 Cytunai cyfran o'r ymatebwyr â phob gosodiad, gan awgrymu effaith gadarnhaol ym mhob un o'r agweddau hynny. Ond y ddau osodiad yr oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â hwy oedd: 'Mae gan yr ysgolion a'r athrawon rwy'n gweithio gyda nhw fwy o ymwybyddiaeth o werth sgiliau creadigol dysgu ac addysgu' (77%) ac 'Mae gen i (a/neu fy sefydliad celfyddydol) y gallu i ymateb i unrhyw gynnydd yn y galw gan ysgolion am fy ngwaith / ein gwaith' (65%).

# 6. Canfyddiadau Cyfweliadau â Rhanddeiliaid

## Cyflwyniad

6.1 Cynhaliwyd cyfweliadau â 22 o randdeiliaid rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau fel rhan o'r cam hwn o'r gwerthusiad. Roeddynt yn cynnwys cynrychiolwyr:

- Uwch reolwyr y rhaglen – Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru;
- Tîm rheoli a gweinyddu'r rhaglen – canolog a rhanbarthol;
- Cydlynwyr Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg;
- Cynrychiolwyr y Consortia Addysg Rhanbarthol;
- CCE (Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg) – y sefydliad sy'n cynorthwyo Cyngor Celfyddydau Cymru i gyflawni'r rhaglen;
- Estyn, arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru.

6.2 Defnyddiwyd canllaw trafod eang ar gyfer y cyfweliadau hyn a oedd yn cwmpasu dyluniad y rhaglen, y gwaith o'i chyflawni, a'r cyflawniadau hyd yma. Mae'r adran hon yn archwilio prif ganfyddiadau'r cyfweliadau hynny, gan ystyried hefyd sylwadau a wnaed yn ystod cyfweliadau a gynhaliwyd ag athrawon, Asiantau Creadigol ac eraill wrth ymweld â'r ysgolion er mwyn datblygu'r astudiaethau achos a gyflwynwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

## Materion dylunio a chyflawni ar draws y rhaglen

6.3 Pwynt pwysig i'w nodi ar gychwyn y drafodaeth oedd ei bod yn amlwg o'r cyfweliadau a gynhaliwyd bod cryn dipyn o ewyllys da tuag at y rhaglen ar draws yr holl randdeiliaid, gydag ysgogiad a brwdfrydedd cryf tuag at gyflawni'r canlyniadau arfaethedig; mae hyn yn amlwg yn gadarnhaol iawn. Roedd dealltwriaeth gyson a chlir hefyd o nodau ac amcanion y rhaglen ymysg y rhanddeiliaid.

6.4 Roedd yr ymrwymiad clir a nodwyd, o leiaf yn rhannol, o ganlyniad i Adroddiad Donaldson a'r rhaglen bresennol o ddiwygio'r cwricwlwm yng Nghymru. Ystyrir yn eang bod cyhoeddi'r adolygiad yn gynnar yn oes rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar gyflawni'r rhaglen, yn arbennig o ran codi proffil oddi mewn i'r gymuned addysg. Nodwyd bod cyflwyno menter yr

Ysgolion Arloesi (hefyd o ganlyniad i Adroddiad Donaldson) hefyd wedi pwysleisio'r angen am arloesi mewn ysgolion.

"*Donaldson yw'r peth allweddol... dyma'r ysgogiad".* (Rhanddeiliad)

*Integreiddio Meysydd 1 a 2*

"Bum yn bryderus ynglŷn â'r hollt rhwng y ddau faes o'r cychwyn.. dylent fod yn fwy integredig". (Rhanddeiliad)

"Dylai fod wedi bod mwy o orgyffwrdd rhwng y ddau faes ar lefel ranbarthol… Maen nhw wedi'u hollti yn y ffordd maen nhw'n cael eu gweinyddu ac, o edrych yn ôl, roedd hynny'n gamgymeriad." (Rhanddeiliad)

6.5 Elfen allweddol o ddyluniad y rhaglen yw ei bod wedi'i hollti'n ddau faes: Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol (Maes 1) a Chynnig Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan (Maes 2). Y farn gyffredinol oedd bod y ddau faes ormod 'ar wahân' a/neu nad oedd y ddau faes wedi'u hintegreiddio ddigon. Meddai llawer bod y ddau faes yn gweithredu'n effeithiol yn gwbl ar wahân yn hytrach na'u bod yn ddwy elfen o'r un rhaglen. Roedd canfyddiad clir y cafodd Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ei blaenoriaethu o ran cyflawni hyd yma, ar draul Cynnig Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan a oedd, gan aralleirio, 'yn dal i drio dal i fyny'.

6.6 Un nodwedd o'r trafodaethau â nifer o randdeiliaid oedd amseru'r gwaith o sefydlu Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg, a ddaeth ar ôl sefydlu Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Un farn oedd y dylai sefydlu'r rhwydweithiau fod wedi bod yn flaenoriaeth i'r rhaglen fel eu bod yn eu lle i hyrwyddo'r rhaglen a'i chynlluniau wrth iddynt ddatblygu. Y farn arall oedd bod angen sefydlu Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn *gyntaf* er mwyn darparu 'dysgu' i'w ledaenu drwy'r rhwydweithiau wrth iddynt hwythau gael eu sefydlu. Mae i'r ddwy ddadl eu rhinweddau. Ond y mae'r ddwy'n nodi bod angen integreiddio rhwng gwahanol elfennau'r rhaglen.

6.7 Roedd y diffyg integreiddio hwn rhwng y ddau faes yn destun pryder i randdeiliaid yn gyffredinol, gan i elfennau rhwydweithio a rhannu gwybodaeth Maes 2 gael eu hystyried yn hanfodol i 'ledaenu' yr hyn y gobeithiai'r rhanddeiliaid fyddai'n llwyddiant Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol ac annog amrywiaeth eang o ysgolion i ymgeisio i gymryd rhan. Roedd canfyddiad o ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o weithgareddau Maes 2 ymysg yr ysgolion a oedd yn rhan o Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol hefyd yn destun pryder i'r rhanddeiliaid. Pwysleisiwyd hefyd y dryswch cyffredinol ymysg ysgolion ynglŷn â'r gwahaniaeth

rhwng Meysydd 1 a 2 (yn arbennig Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol a Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg) yn ystod camau cynnar y rhaglen, er y dwedwyd bod llawer o'r dryswch hwnnw wedi'i ddatrys bellach wedi i Rwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg gael eu sefydlu. Ond mae sylwadau a wnaed yn ystod rhai o ymweliadau'r astudiaethau achos yn awgrymu y gallai fod rhywfaint o ddryswch o hyd.

6.8 Diddorol yw nodi bod y rhanddeiliaid, ar lefel strategol, yn fwy tebygol o nodi'r gwahaniaethau rhwng Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol a Rhaglen Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan, gan ddweud bod y cyntaf wedi'i ddylunio i ddangos sut mae modd defnyddio creadigrwydd fel ffordd i wella cyrhaeddiad disgyblion, a bod yr ail yn canolbwyntio mwy ar ddarparu cyfleoedd i ysgolion sy'n gysylltiedig â chelf/creadigrwydd. Ond yn y rhan fwyaf o achosion, ystyriwyd bod integreiddio'r ddau faes yn bwysig. Er enghraifft, dwedwyd bod y rhaglen gyfan ar un sbectrwm o 'gelfyddydau a chreadigrwydd mewn ysgolion' (gyda grantiau 'Ewch i Weld' ar un pen y sbectrwm, ac 'Ysgolion Creadigol Arweiniol' ar y pen arall).

6.9 Ystyriwyd bod staff rhanbarthol Cyngor Celfyddydau Cymru (sy'n ymwneud â Chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn unig ar hyn o bryd) yn chwarae rôl allweddol mewn llawer o agweddau ar y rhaglen, gan gynnwys integreiddio'r ddau faes ac adeiladu a chynnal perthnasoedd â phartneriaid ar lefel ranbarthol. Roedd pryder, serch hynny, na fyddai ganddynt hwy (ynghyd â strwythur gweinyddol cyfan y rhaglen) adnoddau digonol i ymgymryd â'r rôl hon yn effeithiol, fel a drafodir isod.

*Capasiti gweinyddol*

> "Mae'n amlwg bod [tîm Cyngor Celfyddydau Cymru] wedi'i ymestyn ormod ac wedi ymrwymo ormod." (Rhanddeiliad)

6.10 Y canfyddiad cyffredinol oedd bod tîm gweinyddol y rhaglen yn gweithio ar 'gapasiti llawn' — o ran nifer yr ysgolion y maent yn gweithio gyda hwy, eu gweithgarwch monitro ac ati — heb lawer o gapasiti, os o gwbl, i ymgymryd â gweithgareddau ychwanegol fel mwy o fyfyrio ar wersi a ddysgwyd a lledaenu canfyddiadau'n genedlaethol a rhanbarthol. Mae hyn yn destun pryder, gan y bydd y baich gweinyddol yn y rhaglen yn cynyddu yn y blynyddoedd nesaf wrth i ragor o ysgolion ymuno â Chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol (y mae disgwyl iddo gyrraedd brig yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18), ac ymgeisio am gyllid

‘Ewch i Weld’ ac ati. Mae’n bwysig nodi bod Cyngor Celfyddydau Cymru eisoes wedi ymateb i’r canfyddiad hwn drwy adolygu’u prosesau ac maent yn ymrwymedig i wneud hynny’n barhaus. Byddem hefyd yn disgwyl gweld cynnydd o effeithlonrwydd yn y system yn y blynyddoedd nesaf, gan fod y systemau bellach wedi’u sefydlu a dylai problemau cychwynnol fod wedi’u datrys. Ond dyma fater y dylid cadw golwg arno’n barhaus.

*Hyrwyddo a chyfathrebu*

6.11 Y farn ymysg rhanddeiliaid yn gyffredinol oedd bod angen i’r gwaith o hyrwyddo a chyfathrebu’r rhaglen, yn arbennig y tu hwnt i’r ‘sector addysg’ (e.e. i rieni), gael ei wella wrth i’r rhaglen fynd rhagddi ac wrth i ‘storïau o newyddion da’ ddechrau cael eu creu. Yn wir, ystyriai llawer fod hyn yn flaenoriaeth bwysig i Gyngor Celfyddydau Cymru wrth symud ymlaen. Ond câi ei gydnabod hefyd mai cyfyngedig yw’r gwaith hyrwyddo a chyfathrebu y bu modd ei wneud hyd yma, am fod angen i’r rhaglen wneud cynnydd cyn i hynny fod yn bosibl. Fodd bynnag, wrth symud ymlaen, yr oedd yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth.

**Ysgolion Creadigol Arweiniol**

*Cyfranogiad ysgolion*

6.12 Roedd y trafodaethau’n awgrymu bod lefel uchel o ddiddordeb gan ysgolion yng Nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Yn wir, mynegodd rhai rhanddeiliaid syndod ynglŷn â’r lefel o ddiddordeb, gan ei phriodoli i’r awydd ymysg ysgolion i ‘roi cynnig ar rywbeth newydd’, Adroddiad Donaldson, a’r cwricwlwm newydd sy’n cael ei ddatblygu.

6.13 Wrth drafod rhwystrau i gymryd rhan yn y cynllun, cyfeiriai’r rhanddeiliaid yn aml at ysgolion (yn arbennig ysgolion sy’n perfformio’n wael) yn dewis peidio â chymryd rhan ar hyn o bryd oherwydd blaenoriaethau ‘brys’ eraill. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys yr angen i baratoi at arolygiad Estyn neu ymateb i faterion a bwysleisiwyd gan arolygiad.

6.14 Roedd pryder ymysg rhai rhanddeiliaid bod Cylch 1 y cynllun wedi ymgysylltu â’r hyn a ddisgrifiwyd gan rai fel ‘yr un rhai arferol’ (*usual suspects*) o ran yr ysgolion a gymerodd ran. Pwysig yw nodi nad oedd hyn yn beth annisgwyl; byddai disgwyl i ysgolion sydd â phrofiad blaenorol o ymgymryd â gweithgareddau ‘creadigol’ geisio cymryd rhan yn y cynllun yn gynharach na’r ysgolion hynny a allai fod yn fwy ‘amheugar’. Ond, fel sydd wedi’i nodi eisoes, roedd ymwybyddiaeth o’r angen i wneud yn siŵr bod y cynllun yn ‘bwrw allan’ i amrywiaeth ehangach o ysgolion

mewn cylchoedd dilynol; barn y rhanddeiliaid hynny sydd â gwybodaeth ymarferol am yr ysgolion a gymerodd ran oedd mai dyma'n wir oedd y sefyllfa. Bydd asesu hyn yn dasg allweddol yn y camau sydd i ddod yn y gwerthusiad.

*Hyfforddiant / Dysgu Proffesiynol Parhaus*

6.15 Yn gyffredinol, roedd cyfraniad Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg (CCE)[9] i strwythur Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cael ei ystyried yn gryfder yn sgil y wybodaeth a'r arbenigedd a gynigant i'r rhaglen. Ond roedd ymwybyddiaeth hefyd o'r angen i sicrhau bod proses effeithiol o 'drosglwyddo gwybodaeth' yn ei lle rhwng CCE a thîm Cyngor Celfyddydau Cymru, gyda'r nod o sicrhau bod modd i weithgareddau hyfforddiant gael eu trosglwyddo'n llwyr i'r tîm hwnnw yn y pen draw. Yn wir, mae hyn eisoes yn digwydd, gyda'r gwaith o hyfforddi athrawon ers Blwyddyn 2 y cynllun yn cael ei wneud gan dimau rhanbarthol, a hwythau'n cymryd at y rôl honno yn lle CCE.

6.16 Yn ystod trafodaethau â'r rhanddeiliaid, roedd cyfeiriadau rheolaidd at bwysigrwydd, effeithiolrwydd ac ansawdd yr hyfforddiant (y cyfeiriwyd ato'n aml fel Dysgu Proffesiynol Parhaus) a ddarparwyd i'r athrawon a'r Asiantau Creadigol / Ymarferwyr Creadigol wrth iddynt ymuno â Chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Ystyriwyd bod hyn yn rhan allweddol o'r broses ac yn arbennig o bwysig mewn perthynas ag 'adeiladu capasiti' mewn ysgolion ac yn sector y diwydiannau creadigol, a fyddai'n hanfodol i sicrhau bod gwaddol clir a pharhaol i'r cynllun.

6.17 Yn gyffredinol, roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn, a dwedwyd bod yr hyfforddiant i athrawon a arweiniwyd gan CCE yn 'ddiddorol' a 'deinamig' a'i fod yn darparu 'syniadau ac ysbrydoliaeth'. Ond mynegwyd barn ei fod yn canolbwyntio ormod ar egwyddorion allweddol ac y gallai ganolbwyntio mwy ar bontio'r bwlch rhwng y theori a chymhwyso hynny'n ymarferol yn yr ystafell ddosbarth o ddydd i ddydd. Er enghraifft, un awgrym oedd y byddai'n ddefnyddiol gweld pecyn cymorth o enghreifftiau o sut gall sgiliau creadigol a dulliau dysgu creadigol gael eu cyflwyno i wersi, y tu allan i'r prosiect penodol gyda'r Ymarferydd Creadigol. Mae'r awgrym hwn yn pwysleisio'r potensial i greu cyswllt rhwng hyfforddiant/gweithgareddau'r Ysgolion Creadigol Arweiniol a'r Parth Dysgu

---

[9] Caiff Creadigrwydd, Diwylliant ac Addysg (CCE) eu contractio gan Gyngor Celfyddydau Cymru i ddarparu cymorth ymgynghori yn y gwaith o reoli a chyflawni Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. I gychwyn, roeddynt hefyd yn cynnal digwyddiadau hyfforddiant yn gysylltiedig â'r cynllun.

Creadigol sy'n cael ei ddatblygu fel rhan o Faes 2 y rhaglen, sy'n gartref amlwg i 'becyn cymorth' o'r fath.

*Rôl yr Asiantau Creadigol a Chydlynydd yr Ysgol*

6.18 Yn ystod y trafodaethau â'r rhanddeiliaid, nodwyd yn aml bod rolau'r Asiantau Creadigol a Chydlynydd Ysgol Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn hanfodol, gan bwysleisio bod angen dethol a recriwtio Asiant Creadigol yn feddylgar, a fyddai'n addas i'r ysgol ac yn gweithio mewn partneriaeth agos gyda Chydlynydd yr Ysgol. Ystyriwyd bod darparu hyfforddiant addas o ansawdd uchel i'r unigolion dan sylw yn allweddol i lwyddiant y cynllun.

6.19 Rhan allweddol o'u rôl oedd sicrhau bod y gweithgareddau a gynhelir wedi'u dylunio'n dda ac yn clymu i mewn i strategaeth neu gynllun ehangach ar gyfer datblygu oddi mewn i'r ysgol, sy'n rhywbeth yr ystyrir yn gyffredinol i fod yn allweddol i lwyddiant y cynllun mewn ysgol. Fel y dwedodd un rhanddeiliad, "mae'n atal gweithgaredd celf neu greadigol rhag bod yn ddarniog… mae bob amser yn cysylltu'n ôl â rhywbeth mwy". Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r astudiaethau achos a drafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad a nododd fod ysgolion yn defnyddio Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol mewn 'ffordd strategol' ac yn gyfle i geisio mynd i'r afael â materion a nodwyd ganddynt, yn hytrach na chyllido gweithgaredd creadigol neu raglen gelfyddydol. Fel y dwedodd rhanddeiliad arall, "mae diben clir i'r [gweithgaredd creadigol]".

*Ymarferwyr Creadigol*

6.20 Mewn rhai trafodaethau, cyfeiriwyd at y rhestr o Ymarferwyr Creadigol a luniwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, a ystyriwyd yn 'fras ac anghyson iawn' gan rai. Yn nodedig, dwedwyd bod diffyg gweithwyr proffesiynol sy'n siarad Cymraeg wedi'u cynnwys, sy'n ofynnol mewn llawer o ysgolion, yn arbennig ysgolion yng Ngheredigion, Gwynedd a Phowys, er enghraifft, sy'n aml yn lleoliadau gwledig ac iddynt boblogaeth wasgaredig. Dylai tîm y rhaglen geisio recriwtio, adeiladu a gwella'r gronfa ddata o weithwyr proffesiynol yn barhaus ar gyfer cylchoedd olynol. Dylai hyn hefyd osgoi dibyniaeth ar ymgysylltu â'r 'un rhai arferol' a 'phobl ry'n ni'n eu hadnabod'.

6.21 Mewn ymateb i'r pwynt uchod, nododd Cyngor Celfyddydau Cymru bod gwybodaeth ar ddod yn Ymarferydd Creadigol wedi'i darparu'n ddwyieithog ar wefan y cyngor, drwy fwletinau ac ati. Caiff Ymarferwyr Creadigol eu cynnwys ar y rhestr hefyd wrth iddynt 'hunanddewis' i gael eu cynnwys, nid drwy wahoddiad gan

Gyngor Celfyddydau Cymru. Ond nid yw cael eu cynnwys ar y rhestr yn rhoi sicrwydd o ymwneud yn y rhaglen; mae ysgolion ac Asiantau Creadigol yn rheoli'r broses o nodi a dethol yr Ymarferwyr Creadigol mwyaf priodol, a darperir rhestr gyfoes iddynt o Ymarferwyr Creadigol fel sy'n briodol.

*Gwaddol*

"Dyma'n wir yw'r mater allweddol i'r holl raglen." (Rhanddeiliad)

"Cynaliadwyedd [y gweithgarwch a ariennir gan Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol] mewn ysgolion, a fydd yn digwydd? Dyna'r cwestiwn allweddol. A oes sylw digonol yn cael ei roi i hyn?" (Rhanddeiliad)

"A oes bylchau? Oes. Camau dilynol. Ymwreiddio'r hyn a ddysgir o'r rhaglen mewn gweithgarwch dydd i ddydd... cwrdd â'r athrawon... darparu adborth…" (Rhanddeiliad)

6.22 Roedd 'rhaeadru' — profiadau, syniadau, gwersi a ddysgwyd ac ati — yn bwnc cyson yn ystod trafodaethau ynghylch Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol gyda'r rhanddeiliaid, ac roedd yn amlwg o'r trafodaethau bod nifer o feysydd lle byddai math o raeadru'n angenrheidiol oddi mewn i'r cynllun, gan gynnwys:

- Oddi mewn i'r ysgolion sy'n cymryd rhan;
- Ymysg ysgolion sy'n cymryd rhan (yn arbennig ar lefel ranbarthol);
- Rhwng ysgolion sy'n cymryd rhan a rhai nad ydynt yn cymryd rhan;
- Ar draws y 'sector addysg';
- Ar draws 'sector y celfyddydau'.

6.23 Pwysleisiodd pob un o'r rhanddeiliad bwysigrwydd rhaeadru (cyfeiriwyd ato hefyd fel 'gwaddol') yr hyn y gobeithient fyddai llwyddiant Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol i ysgolion y tu allan i'r cynllun a'r sector addysg a sector y celfyddydau yn fwy cyffredinol er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau a gaiff eu 'peilota' drwy'r Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cael eu hintegreiddio, lle y bo'n bosibl, i mewn i weithgareddau 'normal' mewn ysgolion. Roedd yn bwysig felly sicrhau y câi sylw ac adnoddau digonol eu neilltuo ar gyfer y gweithgareddau hynny.

6.24 Roedd sawl sylw'n ymwneud yn benodol â'r angen i sicrhau bod yr hyn a ddysgwyd yng Nghylch 1 yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cael ei rannu gydag ysgolion sy'n cymryd rhan yn y cylchoedd dilynol, sy'n rhywbeth y dylid mynd i'r afael ag ef yn awr, yn rhannol o leiaf drwy gyflwyno'r 'maes datblygu' (gweler

Adran 2). Fodd bynnag, bydd rôl bwysig i weithgareddau Maes 2 hefyd, yn arbennig y rhwydweithiau rhanbarthol a'r Parth Dysgu Creadigol.

6.25 Pwynt olaf, ond pwysig iawn, i'w nodi ynglŷn â 'rhaeadru' yw bod angen sicrhau y caiff cymorth digonol ei ddarparu i ysgolion sy'n cymryd rhan yn y cynllun er mwyn rhannu'r hyn a ddysgir *oddi mewn i'w hysgol* ar ôl iddynt adael y cynllun. Barn gref y rhanddeiliaid — a ategwyd gan drafodaethau yn ystod ymweliadau yr astudiaethau achos — oedd y dylid cynnal rhyw lefel o gyswllt ag ysgolion er mwyn trafod, cynghori ac efallai cynorthwyo i raeadru/rhannu gwersi a ddysgwyd a sicrhau bod gwaddol glir o fewn yr ysgol yn sgil cymryd rhan yng Nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Yn wir, y mae dadl y dylai rhyw elfen o weithgaredd 'dilynol' ac adrodd gydag ysgolion sy'n cymryd rhan fod yn rhan orfodol o'r cynllun er mwyn gwaredu'r risg y gallai ysgolion symud ymlaen at y fenter nesaf ar ôl iddynt adael Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.

6.26 Mae'r astudiaethau achos yn dangos yr amrywiaeth o weithgareddau sy'n digwydd fel rhan o Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, a all greu heriau o ran cydgrynhoi a rhannu'r gwersi a ddysgwyd ac arferion da. Er enghraifft, mae rhai athrawon yn gyfarwydd â chael artistiaid a gweithwyr proffesiynol eraill yn gweithio yn eu hystafelloedd dosbarth ac, ar sail hynny, efallai na fyddant yn ymgysylltu'n weithredol yn y sesiynau. Efallai na fanteisir yn llawn bob amser ar y cyfle i'r athrawon gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio, cyflawni a gwerthuso, na dysgu gan yr Ymarferydd Creadigol drwy brosiect yr Ysgolion Creadigol Arweiniol; felly gallai unrhyw waddol o ddulliau addysgu creadigol yn yr ystafell ddosbarth fod yn gyfyngedig.

### Cynnig Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan

*Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg*

> "Dydw i ddim wedi fy argyhoeddi gan y rhwydweithiau…mae angen iddyn nhw ddangos eu gwerth". (Rhanddeiliad)

> "Does dim rheoli ansawdd na goruchwyliaeth o du Cyngor y Celfyddydau… er bod modd dadlau bod hynny'n beth da". (Rhanddeiliad)

6.27 Fel sy'n amlwg o'r drafodaeth yn gynharach yn yr adran hon, barn glir y rhanddeiliaid oedd bod rôl bwysig i'r rhwydweithiau rhanbarthol wrth gyflawni rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Câi ei gydnabod ei bod yn dal yn gymharol gynnar yn oes y rhwydweithiau a'u bod, i aralleirio, 'yn dal i gael eu traed tanynt'. Ond roedd pryder clir hefyd ynglŷn â'r amrywiant yn y ffordd yr oedd y

pedwar rhwydwaith yn gweithredu. Er enghraifft, mae cyllid ar gyfer rhywfaint o weithgarwch DPP ar gael drwy un rhwydwaith rhanbarthol ond nid un arall.

6.28 Yn sgil canfyddiad rhai, byddai'n ymddangos mai achos o ddiffyg llywio clir yw hyn, neu'r hyn a ddisgrifiwyd gan rai rhanddeiliaid yn 'arweiniad strategol', gan Gyngor Celfyddydau Cymru, er y byddent hwythau'n dadlau bod gwybodaeth wedi'i darparu, yn arbennig yn unol â'r briff a ddarparwyd pan wahoddwyd ceisiadau i gyflawni'r rhwydweithiau. Awgrymwyd hefyd bod posibilrwydd o ddiffyg llywio strategol mewn rhai achosion pan oedd y rhwydweithiau rhanbarthol yn penodi'u contractwyr arweiniol. Lle bynnag y mae'r diffyg llywio'n digwydd, y mae'n fater y mae angen mynd i'r afael ag ef.

6.29 Mae'r cylch gwaith eang a roddwyd i'r rhwydweithiau a'r rhyddid i ddatblygu'r rhwydwaith yn ôl eu tyb hwy, yng ngoleuni amgylchiadau ac anghenion lleol, hefyd wedi arwain at ddull anghyson o weithredu. Pwysleisiwyd hefyd ddiffyg dangosyddion perfformiad allweddol a thempled adrodd strwythuredig ar gyfer pob rhwydwaith, er mai pwysig yw nodi y cyflwynwyd newidiadau'n ddiweddar. Perthnasol hefyd yw nodi y comisiynwyd sefydliadau o dri sector gwahanol i gyflawni'r rhwydweithiau (dau awdurdod lleol, un brifysgol ac un sefydliad celfyddydol) sydd ag arddulliau gweithio gwahanol.

6.30 Mae rhesymeg amlwg i ganiatáu hyblygrwydd i rwydweithiau rhanbarthol adlewyrchu amgylchiadau eu rhanbarth fel sy'n briodol. Ond y mae'n anochel bod hyn yn peri risg o ddiffyg cysondeb o ran dull gweithredu, fel yr ystyrir a ddatblygodd fan hyn. Er enghraifft, pwysleisiwyd yn y cyfweliadau bod pob un o'r rhwydweithiau'n datblygu cronfa ddata o gysylltiadau rhanbarthol ond heb fformat cyffredin, gan awgrymu y bydd cyfuno'r cronfeydd data hynny i greu fersiwn genedlaethol yn anoddach na ddylai fod[10]. O ystyried mai rhaglen genedlaethol yw Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, byddai disgwyl bod elfen o weithgarwch rhwydweithio cenedlaethol, er, yn amlwg, bydd gan Gyngor Celfyddydau Cymru rôl i'w chwarae yn hynny o beth.

[10] Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n nodi yr aethpwyd i'r afael â'r mater hwn pan ddigwyddodd.

*Parth Dysgu Creadigol*

> “Rwy’n siomedig iawn â’r Parth Dysgu Creadigol... mae’n llawer rhy gymhleth”. (Rhanddeiliad)

6.31 Mynegodd y rhanddeiliaid bryderon sylweddol ynglŷn â ph’un a oedd y Parth Dysgu Creadigol yn effeithiol. Roedd awgrym mewn un achos, hyd yn oed, bod Rhwydwaith Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg yn ystyried datblygu ei wefan ei hun oherwydd y gwendidau canfyddiedig.

6.32 Roedd yr anawsterau a nodwyd yn ystod trafodaethau ynghylch y Parth Dysgu Creadigol yn cynnwys:

- Gormod o ‘ddiogelwch’ yn y rhwydwaith — yr angen i gofrestru a mewngofnodi — a oedd yn gwneud y platfform yn anodd a rhwystredig;
- Dim lle ar gyfer rhwydweithio cymdeithasol — dim digon o ryngweithio a rhannu syniadau ymysg defnyddwyr;
- Angen “rhywbeth tebycach i Facebook”;
- “Mae’n borth i ddal pethau ond nid yw’n addas i rwydweithio.”

6.33 Roedd y pryderon a fynegwyd yn ddigon sylweddol i rai rhanddeiliaid gwestiynu p’un a oedd y Parth Dysgu Creadigol ar hyn o bryd yn addas i’r diben ac yn sicr yn cyfiawnhau adolygiad o’r elfen hon o’r rhaglen.

*Cronfa Profi’r Celfyddydau*

6.34 Cyfyngedig oedd y sylwadau a wnaed am y Gronfa Profi’r Celfyddydau, a gâi ei hystyried yn gyffredinol yn elfen ‘symlach’ o’r rhaglen. Meddai’r rhai a wnaeth sylwadau fod grantiau ‘Ewch i Weld’ yn ‘boblogaidd’ ac roedd canfyddiad ei bod yn caniatáu i ysgolion gymryd rhan mewn gweithgareddau na fyddai ar gael iddynt fel arall.

6.35 Roedd rhywfaint o bryder ynglŷn â’r diffyg cynnydd o ran nifer ac ansawdd y ceisiadau i’r gronfa ‘Cydweithio Creadigol’, a oedd yn llai o ran nifer ac yn is o ran ansawdd na’r hyn a ddisgwylid (neu o leiaf yr hyn a oedd wedi’i obeithio). Nid oedd rhesymau clir am hyn, ond yr oedd yn fater yr oedd Cyngor y Celfyddydau yn ymwybodol bod angen ei archwilio.

6.36 Mewn gwirionedd, fel a nodwyd yn flaenorol, cyflwynwyd diwygiadau i’r cynllun ym mis Mai 2017, gan gyflwyno ‘Cydweithio Creadigol: Blasu’ (ceisiadau o rhwng £5,000 a £7,500) yn unol â chanllawiau ochr yn ochr â phrif elfen ‘brosiectau’ y cynllun (ceisiadau o £5,000 i £25,000).

### Asesu cyflawniadau'r rhaglen

6.37 Yn amlwg, mae deall beth mae rhaglen yn ei gyflawni yn bwysig ac yn un o amcanion allweddol y gwerthusiad hwn. Ond yr oedd pryder ymysg rhanddeiliaid na fydd yn bosibl asesu'n effeithiol un o amcanion allweddol rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau — ei heffaith ar gyrhaeddiad, llythrennedd a rhifedd disgyblion — oherwydd diffyg mynediad at ddata a gedwir gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n caniatáu cynnal y fath ddadansoddiad (neu o leiaf roi ymgais ar hynny).

6.38 Pwysig yw nodi bod trafodaethau ar y gweill ynglŷn â'r pwynt hwn ar adeg llunio'r adroddiad hwn ac nad oedd yn glir p'un a fyddai data a gedwir gan Lywodraeth Cymru yn wir yn galluogi i ymgymryd â'r dadansoddi arfaethedig nac yn wir p'un a oedd y caniatâd angenrheidiol yn ei le i alluogi i'r data dan sylw gael ei ddefnyddio at y dibenion hynny. Fodd bynnag, pryder y rhanddeiliaid oedd bod angen i'r trafodaethau hynny symud ymlaen a dod i gasgliad fel mater brys.

## 7. Casgliadau ac Argymhellion

7.1 Er ei bod yn dal yn gynnar yn y broses werthuso, mae canfyddiadau'r cam hwn o'r broses werthuso yn gyffredinol gadarnhaol, gyda chynnydd yn cael ei wneud mewn perthynas â chyflawni'r rhaglen a rhywfaint o dystiolaeth o ganlyniadau cadarnhaol yn cael eu cyflawni. Er mai 'interim' yn unig ydynt ar hyn o bryd, y mae cafeatau i'r canfyddiadau, o ystyried eu bod yn seiliedig ar sampl fach ac anghynrychioliadol o ysgolion a gweithgareddau a gynorthwyir gan y rhaglen. Rhaid i'r canfyddiadau felly gael eu hystyried yn rhai interim yn unig ac nid oes modd inni eu cyffredinoli i'r rhaglen yn gyfan ar yr adeg hon.

7.2 Mae maint rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn wahanol i unrhyw beth a gyflawnwyd yn flaenorol. Bellach, mae cannoedd o athrawon, Asiantau Creadigol ac Ymarferwyr Creadigol wedi elwa o'r hyfforddiant a'r cysondeb o ran dull ledled Cymru, o gymharu â'r hyn oedd yn llond dwrn o ysgolion yn y gorffennol. Mae'r rhaglen felly yn darparu capasiti oddi mewn i'r sector addysg a sector y celfyddydau nad oedd yn bodoli'n flaenorol. Ochr yn ochr â chyflawni'r rhaglen yn llwyddiannus, yr her fydd cynnal y capasiti hwnnw (a'r canlyniadau a gyflawnir gan y rhaglen) ar ôl i gymorth y rhaglen ddod i ben. Dyma faes y bydd angen rhoi sylw iddo cyn gynted â phosib yn oes y rhaglen.

7.3 Fodd bynnag, y mae nifer o faterion pwysig wedi'u nodi y dylai timau rheoli a gweinyddu'r rhaglen eu hadolygu, fel a drafodir isod. Yn benodol, mae angen mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â gweithgareddau ar gyfer 'rhaeadru' a rhannu gwersi a ddysgwyd — sy'n hanfodol i gyflawni amcanion y rhaglen.

### Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol

7.4 Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yw elfen fwyaf datblygedig y rhaglen hyd yma, gyda'i gynnydd, i ryw raddau o leiaf, ar draul datblygu gweithgareddau Maes 2 ymhellach. Dangosodd ysgolion ddiddordeb mawr yn y cynllun, ac mae amrywiaeth eang o ysgolion wedi cymryd rhan hyd yma (er y caiff eu proffil a'u cynrychiolaeth eu harchwilio ymhellach mewn camau dilynol o'r gwerthusiad).

7.5 O safbwynt gweinyddol, bydd Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cyrraedd brig yn ystod y flwyddyn academaidd sydd ar ddod, 2017/18, pan fydd yn debygol y bydd tua 400 o ysgolion yn cymryd rhan yn y cynllun. Mae'r adborth bod tîm gweinyddol a phroses weinyddol y cynllun eisoes wedi bod yn gweithredu ar 'gapasiti llawn' ar adeg pan fu llawer llai o ysgolion yn cymryd rhan felly'n arwain at rywfaint o bryder ynglŷn â ph'un a fydd gan y strwythur a'r prosesau gweinyddol y capasiti i ymdopi yn ystod y cyfnod 'brig' sydd ar ddod.

7.6 Mae'n bwysig nodi nad yw hyn o anghenraid yn golygu bod angen cynyddu'r capasiti gweinyddol, gan ei bod yn debygol y bydd y broses yn gweithredu'n fwy effeithlon wrth i'r tîm fagu profiad ac wrth i arbedion effeithlonrwydd gael eu nodi. Pwysig yw nodi hefyd bod yr adolygiad a argymhellir isod yn ystyried y potensial i weithredu'n fwy effeithlon (e.e. drwy asesu p'un a yw'r holl dasgau'n angenrheidiol yn eu ffurf bresennol) ochr yn ochr â'r angen posibl am unrhyw gapasiti ychwanegol.

7.7 **<u>Argymhelliad 1</u>: Dylid adolygu'r capasiti gweinyddol yng Nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol er mwyn sicrhau y gall ymdopi â'r llwyth gwaith a ddisgwylir yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18 a gwaith arall a ddaw i'r amlwg (e.e. cynorthwyo i raeadru'r hyn a ddysgir) heb gyfaddawdu ar gadernid y prosesau sydd yn eu lle.**

7.8 Mae'n bwysig pwysleisio unwaith yn rhagor y cafodd yr ysgolion a ddefnyddiwyd yn astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn eu dewis yn bwrpasol yn enghreifftiau o ysgolion Cylch 1 a gyflawnodd gysyniad yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn effeithiol. Ar y cam hwn, felly, nid oes modd inni ddweud p'un a yw'r canfyddiadau hyn yn nodweddiadol o'r cynllun yn fwy cyffredinol. Y mae hefyd yn amlwg bod sylfaen gref y gallai'r Ysgolion Creadigol Arweiniol adeiladu arni ym mhob un o ysgolion yr astudiaethau achos, na chaiff ei ailadrodd, o bosibl, ar draws y rhaglen. Fodd bynnag, y mae'r astudiaethau achos yn gadarnhaol iawn ac yn dangos yr hyn y gall y cynllun ei gyflawni a'r buddion, yn yr achosion hynny, i'r disgyblion, yr athrawon a'r ysgolion yn gyffredinol.

7.9 Mae’r astudiaethau achos hefyd yn dechrau nodi gwersi pwysig a ddysgwyd, gan gynnwys y canlynol:

- Mae’r cynllun yn benodol o effeithiol lle y mae’n adeiladu ar ymrwymiad cyffredin a phenodol presennol yn yr ysgol i amlygu’r disgyblion i amrywiaeth eang o weithgareddau’r celfyddydau creadigol;
- Mae’r cyflawni’n amrywio’n sylweddol rhwng yr ysgolion sy’n rhan o’r cynllun, yn dibynnu ar y mater(ion) y ceisiwyd mynd i’r afael â hwy a’r cyfrwng y maent yn cyflenwi ynddo yn ystod eu hamser fel Ysgol Greadigol Arweiniol;
- Mae Cydlynydd yr Ysgol a’r Asiant Creadigol (a’r berthynas rhyngddynt) yn chwarae rôl hanfodol, yn arbennig mewn perthynas â’u gweledigaeth a’u dealltwriaeth ar gyfer manteisio’n llawn ar y cyfleoedd a gyflwynir gan y rhaglen;
- Pwysigrwydd cydbwysedd effeithiol rhwng yr artist a’r athro;
- Mae myfyrio’n barhaus cyn cynllunio yn helpu i dargedu dysgwyr a rhoi ffocws i ddyluniad yr ymyriad;
- Mae cynnwys dulliau ar gyfer rhannu gwybodaeth yn golygu y gall yr holl athrawon mewn ysgol ymgysylltu â dull yr artist a chael dealltwriaeth ohono;
- Mae sicrhau cefnogaeth yr uwch arweinwyr yn golygu mai haws yw i bawb fabwysiadu’r arfer o ddefnyddio’r dulliau creadigol;
- Mae dull penodol o gasglu tystiolaeth ar ran yr ysgol yn golygu y gall canfyddiadau’r disgyblion, dyfyniadau, gwaith wedi’i safoni gan athrawon, adborth rhieni a myfyrdodau athrawon fod yn rhan o’r adroddiad gwerthuso terfynol.

7.10 Her allweddol, fel a welir yn ysgolion yr astudiaethau achos, fydd canfod ffyrdd i gynnal y cynnydd a wnaed drwy Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, rhannu’r hyn a ddysgwyd a sicrhau ei fod yn bwydo i mewn i’r rhaglen bresennol o ddiwygio’r cwricwlwm. Nid yw’r broses hon o anghenraid yn un syml, ac mae’n bosibl y bydd angen ei chynorthwyo, gan y bydd yn hanfodol er mwyn i Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol gyflawni’i hamcanion o wirioneddol ‘brif-ffrydio’ gweithgareddau creadigol mewn ysgolion yng Nghymru (hynny yw, eu cynnal heb ddarparu cymorth).

7.11 **<u>Argymhelliad 2</u>: Archwilio'r angen i ddarparu cymorth parhaus i ysgolion, a ffyrdd i wneud hynny, wrth iddynt geisio parhau â'r gweithgareddau a gynhelir a rhaeadru'r gwersi a ddysgwyd oddi mewn i'w hysgol(ion) wedi iddynt adael Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.**

7.12 Pwysig yw nodi cyfyngiadau'r sampl o athrawon ac artistiaid sy'n cwblhau arolygon y gwerthusiad hyd yma. Fodd bynnag, y mae'r data a gydgrynhowyd o arolygon yr athrawon a'r artistiaid hyd yma yn ategu canfyddiadau'r astudiaethau achos. Y maent yn gyffredinol gadarnhaol ynglŷn â Chynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, gan gynnwys adborth cadarnhaol ynghylch:

- Y profiad o weithio gydag Asiantau Creadigol ac Ymarferwyr Creadigol;
- Y cymorth a ddarparwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru;
- Yr hyfforddiant a ddarparwyd

7.13 Mae angen nodi'r adborth llai cadarnhaol ar elfennau 'ymgeisio' a 'myfyrio a gwerthuso' y broses, yn arbennig o ystyried y pwyslais ar 'brofi'r cysyniad' a rhannu canfyddiadau oddi mewn i'r rhaglen hon. Fodd bynnag, yr ydym yn ymwybodol bod camau eisoes ar y gweill i geisio mynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

7.14 **<u>Argymhelliad 3</u>: Dylai'r newidiadau a wneir i ddogfennu gweithgareddau cynllunio a gwerthuso Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol gael eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau eu bod mor effeithlon â phosibl ond eu bod hefyd yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol i fonitro a gwerthuso'r cynllun**.

7.15 Mae'r adborth cadarnhaol gan athrawon ar ganlyniadau cymryd rhan yn y cynllun i'w hunain, i'r dysgwyr ac i'r ysgol yn gyffredinol hefyd i'w groesawu. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma'n awgrymu bod y cynllun yn caniatáu i weithgareddau newydd a gwahanol gael eu cynnal mewn ysgolion, sydd unwaith eto'n gadarnhaol, er, yn bwysig, nid oes modd inni ddweud ar y cam hwn p'un a gaiff y gweithgareddau hynny eu cynnal ar ôl i'r ysgolion adael y cynllun.

7.16 Mae'r ymatebion i'r arolwg hyd yma'n awgrymu bod yr agweddau cadarnhaol presennol ymysg athrawon (ac artistiaid) tuag at rôl y dulliau creadigol o ddysgu yn cael eu cryfhau ymhellach drwy gymryd rhan yng Nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol. Nid oes tystiolaeth hyd yma bod hyn yn newid barn y rhai sy'n llai agored i'r dulliau hyn. Mae'n ymddangos bod gan y rhai sydd eisoes yn cymryd rhan yn y cynllun, er enghraifft, farn gadarnhaol am werth dulliau creadigol o

addysgu. Yn wir, mae hynny'n ffactor ysgogol allweddol i ymgysylltu â'r cynllun. Er hyn, cydnabyddir bod angen archwilio ymhellach y gwahaniaeth rhwng ymrwymiad i'r 'celfyddydau a diwylliant' ac ymrwymiad i 'ddysgu creadigol'. Eir i'r afael â hyn wrth i'r gwerthusiad fynd rhagddo.

7.17 Nid syndod, efallai, ar y cam cymharol gynnar hwn yn y cynllun bod rhanddeiliaid yn cydnabod ei bod y debygol mai'r ysgolion hynny a all weld y posibiliadau y mae Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn eu cynnig yw'r rhai sy'n cymryd rhan. Yr her fydd mynd y tu hwnt i'r grŵp hwnnw o ysgolion (ac athrawon) wrth i'r rhaglen fynd rhagddi; yn wir, mae'r rhanddeiliaid yn nodi — ar sail nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan a lefel y diddordeb yn y cynllun — eu bod o'r farn bod hyn eisoes yn digwydd. Bydd parhau i gasglu tystiolaeth drwy'r gwerthusiad yn profi'r canfyddiad hwn.

**Cynnig Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan**

7.18 Gwnaed llai o gynnydd gan y cynlluniau yng Nghynnig Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan (Maes 2) nag yng Nghynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol (Maes 1), ac mae modd esbonio hynny, o leiaf yn rhannol, gan y ffaith y lansiwyd Maes 1 cyn gweithgareddau Maes 2; o'r herwydd mae llai o bwyslais ar y gweithgareddau hynny yn yr adroddiad hwn.

7.19 Roedd pryder ymysg rhai rhanddeiliaid, a ategwyd gan adborth a gasglwyd o arolygon yr athrawon a'r astudiaethau achos, ynglŷn â diffyg cynnydd — ac yn wir effeithiolrwydd — dwy elfen o Faes 2: Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg a'r Parth Dysgu Creadigol. Testun pryder penodol yw'r lefelau isel ymddangosiadol o ymwybyddiaeth a/neu ddefnydd o'r rhwydweithiau a'r porthol ar-lein. Ystyrir yn eang bod gan y ddwy elfen hon rôl hanfodol o ran cyflawni rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau fel cyfanwaith mewn perthynas â rhannu a rhaeadru'r gwersi a ddysgwyd ar draws sector y celfyddydau a'r sector addysg. Pwysig felly yw mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

7.20 **Argymhelliad 4: Dylid cynnal adolygiad o elfennau Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg a'r Parth Dysgu Creadigol er mwyn sicrhau eu bod yn 'addas i'r diben' a bod modd iddynt gyflawni'r rôl hanfodol y mae'r ddau gynllun wedi'i dylunio i'w chwarae er mwyn cyflawni rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn llwyddiannus.**

**Asesu cyflawniadau'r rhaglen**

7.21 Nododd y gwerthusiad bryder ymysg rhanddeiliaid (sy'n cael ei rannu gan y tîm gwerthuso) na fydd yn bosibl asesu'n effeithiol un o amcanion allweddol rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau — ei heffaith ar gyrhaeddiad disgyblion, yn benodol cynnydd mewn sgiliau llythrennedd a rhifedd — yn sgil diffyg mynediad at ddata a gedwir gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n caniatáu i'r fath ddadansoddiad gael ei gynnal (neu o leiaf roi ymgais ar hynny). Roedd trafodaethau ynglŷn â'r mater hwn ar y gweill ar adeg llunio'r adroddiad hwn; fodd bynnag, mae'n bwysig i'r mater gael ei ddatrys cyn gynted â phosibl.

**Sylwadau i gloi**

7.22 Gan ddod i gasgliad, mae'n werth nodi unwaith yn rhagor yr ewyllys da sydd tuag at y rhaglen ar draws yr holl grwpiau o randdeiliaid, ac mae'r ysgogiad a'r brwdfrydedd cryf tuag at gyflawni uchelgais y rhaglen yn amlwg. Mae hyn yn beth cadarnhaol iawn ac yn argoeli'n dda ar gyfer y camau nesaf o gyflawni'r rhaglen.

7.23 Mae dangosyddion canlyniadau cadarnhaol (Ysgolion Creadigol Arweiniol yn benodol) yn gadarnhaol ac i'w croesawu, er bod angen ystyried hyn, unwaith yn rhagor, yng nghyd-destun y data cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer y gwerthusiad ar yr adeg hon. Ond y mae cynnal y cynnydd a wnaed yn yr ysgolion sy'n cymryd rhan, rhannu'r hyn a ddysgwyd ac ymgysylltu â'r athrawon, yr ysgolion a'r artistiaid (a'r sectorau yn ehangach) nad ydynt yn ymwneud â'r rhaglen yn uniongyrchol, yn hanfodol er mwyn cyflawni uchelgeisiau'r rhaglen i sicrhau newid parhaus mewn arferion addysgu yng Nghymru. O ystyried eu rôl o ran lledaenu gwybodaeth ac ehangu ymgysylltiad, mae'r materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg a'r Parth Dysgu Creadigol ar-lein felly'n destun pryder ac mae angen mynd i'r afael â hwy fel mater brys.

**Camau nesaf y gwerthusiad**

7.24 Caiff y cylch nesaf o waith maes ar gyfer y gwerthusiad ei gynnal yn niwedd 2017 ac yn nechrau 2018. Bydd hyn yn cynnwys ton bellach o arolygon athrawon ac artistiaid yn ogystal â datblygu cylch pellach o astudiaethau achos. Disgwylir i'r adroddiad nesaf gael ei gwblhau ym mis Ebrill 2018.

## Atodiad 1: Rhagor o fanylion am Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol (Maes 1)

### Y broses ymgeisio

Mae'r ysgolion sy'n ymgeisio i fod yn Ysgolion Creadigol Arweiniol yn nodi materion allweddol y maent yn dymuno mynd i'r afael â hwy drwy ddull creadigol o ddysgu. Er enghraifft, gallai ysgol uwchradd ddewis mynd i'r afael â chyrhaeddiad isel mewn mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 3 gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau er mwyn ymgysylltu â'r dysgwyr a'u hysgogi. Efallai y byddai ysgol gynradd yn dymuno datblygu dulliau arloesol, trawsgwricwlaidd er mwyn hybu sgiliau llythrennedd.

Mae'r broses ddylunio a sicrhau ansawdd mewn perthynas ag ymgeisio, dethol a recriwtio ysgolion yn hanfodol, gyda'r nod o sicrhau bod y materion a nodir gan ysgolion yn ymarferol ac yn cyd-fynd â nodau trosfwaol mewn perthynas â llythrennedd a rhifedd. Caiff ceisiadau Ysgolion Creadigol Arweiniol gan ysgolion eu gwirio gan dimau rhanbarthol Cyngor Celfyddydau Cymru o ran eu cymhwysedd, a chaiff eu dangosyddion categoreiddio sylfaenol eu nodi er mwyn sicrhau y caiff gwasgariad da o ysgolion eu rhoi ar y rhestr fer:

Categori cymorth yr ysgol[11]

Canran y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim

Nifer y disgyblion

Ysgol Gymraeg a/neu wledig.

Caiff cyfarfod safoni rhanbarthol ei gynnal lle bydd cynrychiolwyr y Consortia Addysg Rhanbarthol yn cyfarfod â staff Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol Cyngor Celfyddydau Cymru er mwyn safoni'r gwaith o sgorio ac asesu ceisiadau lleol a defnyddio eu gwybodaeth bresennol am yr ysgolion er mwyn argymell, neu gynghori'n erbyn, eu cynnwys yn y cylch hwn o Ysgolion Creadigol Arweiniol. Caiff y penderfyniad terfynol ynglŷn â chynnig grant ei wneud yng nghyfarfod y Panel Cenedlaethol, lle gellir argymell amodau ychwanegol i'r grant ar gyfer ceisiadau

[11] System Genedlaethol Categoreiddio Ysgolion – 3 lefel: Grŵp Safonol 1-4 (1 perfformiad da iawn yn gyffredinol, a 4 yr angen mwyaf i wella perfformiad), Capasiti i Wella A-D (A y capasiti mwyaf i wella eu hunain, a D y capasiti lleiaf i wella eu hunain). Caiff y rhain wedyn eu cyfuno i roi Categori Cymorth i bob ysgol fel a ganlyn: Gwyrdd – ysgol effeithiol iawn – y cymorth lleiaf; Melyn – ysgol effeithiol; Ambr – angen gwella; a Choch – angen y gwelliant mwyaf – y cymorth mwyaf.

llwyddiannus. Mae’r Panel Cenedlaethol yn cynnwys Llywodraeth Cymru a chynghorwyr allanol, yn ogystal â swyddogion Cyngor Celfyddydau Cymru.

Dyma’r meini prawf yr edrychir amdanynt yng ngheisiadau’r Ysgolion Creadigol Arweiniol:

Ymrwymiad yr uwch reolwyr a’u gallu i ysgogi staff

Tystiolaeth o gynnwys dysgwyr yn weithredol

Tystiolaeth bod Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yn greiddiol i weledigaeth yr ysgol a blaenoriaethau eu cynllun datblygu ysgol

Tystiolaeth o gyfraniad at wella llythrennedd a rhifedd / lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad

Capasiti i gyflawni.

Mae cyfarfod safoni’r Panel Cenedlaethol hefyd yn ceisio:

Cyflawni cydbwysedd ledled Cymru / y rhanbarthau

Sicrhau gwasgariad da o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig

Adlewyrchu anghenion ysgolion gwledig / cyfrwng Cymraeg

Edrych ar y flaenoriaeth a roddir i ysgolion sy’n wynebu heriau sylweddol.

**Gweithredu**

Caiff ‘Asiant Creadigol’ wedi’i hyfforddi’n arbennig ei ddynodi ar gyfer ysgolion a gynorthwyir, sy’n gweithio gyda’r ysgol er mwyn datblygu prosiect a fydd yn mynd i’r afael â’r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer yr ysgol. Treulir tymor cyntaf y flwyddyn ysgol (tymor yr hydref) yn cynllunio’r rhaglen ar gyfer tymor y gwanwyn. Ar y cam cynllunio hwn, caiff gweithgareddau ac Ymarferwyr Creadigol eu nodi a chyflwynir Ffurflen Gynllunio i’w chymeradwyo gan staff rhaglen Dysgu Creadigol drwy’r Celfyddydau. Caiff gweithgarwch dysgu creadigol yr ystafell ddosbarth ei gynnal rhwng y disgyblion, yr athrawon a’r ‘Ymarferydd Creadigol’ yn nhymor y gwanwyn a chaiff gwerthusiad myfyriol mewnol o’r gweithgaredd ei gynnal yn nhymor yr haf. Caiff yr ysgolion eu cynorthwyo am ddwy flynedd — a’r un strwythur sydd i’r ail flwyddyn â’r flwyddyn gyntaf, a chyda’r blaenoriaethau a’r gweithgareddau wedi’u cyfarwyddo gan yr hyn a ddysgwyd ym Mlwyddyn 1.

Caiff Asiantau Creadigol eu recriwtio gan Gyngor Celfyddydau Cymru, a’u contractio iddynt, a chaiff yr Ymarferwyr Creadigol eu nodi gan yr Asiantau Creadigol a’r ysgolion a’u contractio’n uniongyrchol gan yr ysgol drwy ddyfarniad grant yr Ysgolion

Creadigol Arweiniol. Darparodd Cyngor Celfyddydau Cymru restr wedi'i chydgrynhoi o Ymarferwyr Creadigol posibl, sef unigolion neu sefydliadau a gyflwynodd Ddatganiadau o Ddiddordeb. Nid yw Cyngor Celfyddydau Cymru'n cymeradwyo nac yn asesu'r datganiadau hyn o ddiddordeb. Nid oes gorfodaeth ar ysgolion i ddewis o'r Gofrestr o Ddiddordeb hon, ond caiff ei darparu fel offeryn i'w helpu. Mae'r tabl canlynol yn dangos sut caiff costau eu dyrannu ar draws Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol.

Dwedir bod athrawon yn ganolog i'r cynllun, gan bartneru â'r 'Ymarferwyr Creadigol' i ddylunio a chyflawni dulliau newydd a myfyrio ar eu harferion. O'r herwydd, rhagwelir y caiff gwybodaeth ei throsglwyddo ac y bydd gwelliant/newid mewn dulliau addysgu mewn perthynas â'u harferion eu hunain yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r ffaith i'r athrawon gael eu cynnwys ar lefel ddofn fel hyn yn ystod y camau cyflawni hefyd wedi'i ddylunio i sicrhau bod ganddynt synnwyr o berchnogaeth a'r bwriad yw eu helpu i fagu hyder wrth gyflwyno'r celfyddydau a sgiliau creadigol newydd.

I sicrhau bod yr ysgol yn cymryd perchnogaeth o'r broses wella, rhagwelir y caiff y rhaglen ei hymwreiddio hefyd yng Nghynllun Gwella'r Ysgol — gan gytuno ar y meini prawf meincnodi a chasglu data yn dystiolaeth o'r effaith.

Gan y bydd artistiaid profiadol yn gweithio fel Asiantau Creadigol ac Ymarferwyr Creadigol yn rhan weithredol o gyflawni'r rhaglen, rhagwelir y bydd o ansawdd uchel ac y bydd yn sicrhau bod sgiliau/priodoleddau creadigol yn sbarduno newid. Er hyn, bydd angen prosesau recriwtio ac ymsefydlu effeithiol i sicrhau y bydd ansawdd yr artistiaid a'r Ymarferwyr Creadigol yn ddigon uchel i ychwanegu gwerth i brosiectau a modelu'r priodoleddau a'r sgiliau creadigol y mae'r rhaglen yn anelu i'w meithrin.

Caiff yr ysgolion sy'n cymryd rhan eu cynorthwyo am o leiaf ddwy flynedd i sicrhau gwelliannau mewn canlyniadau i'r dysgwyr; disgwylir y caiff newidiadau eu hymwreiddio mewn arferion addysgu er mwyn creu effaith gynaliadwy. Dwedir bod cymorth yr uwch reolwyr i ymwreiddio'r ymyriad mewn polisi gwella ar gyfer yr ysgol gyfan yn allweddol i lwyddiant yr ymyriad.

Am y bydd disgwyliad clir o'r cychwyn y bydd yr athrawon yn rhannu'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad a gânt drwy'r cynllun, oddi mewn i'w hysgol a chydag ysgolion eraill, rhagwelir y bydd effaith sylweddol yn goferu, gan helpu i wella ansawdd addysgu creadigol mewn ysgolion a rhwng ysgolion.

## Atodiad 2: Rhagor o fanylion am Raglen Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan (Maes 2)

### Rhwydweithiau Rhanbarthol y Celfyddydau ac Addysg

Sefydlwyd pedwar rhwydwaith rhanbarthol, wedi'u diffinio gan yr un ffiniau â'r Consortia Addysg Rhanbarthol presennol, i weithio gydag ysgolion, y Consortia Addysg Rhanbarthol, awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid yn y sectorau addysg, celfyddydol, creadigol, diwylliannol a threftadaeth. Eu bwriad yw cynyddu a gwella profiadau a chyfleoedd yn y celfyddydau mewn ysgolion drwy godi pontydd rhwng y sector addysg a sector y celfyddydau.

Dyma weinyddwyr y rhwydweithiau, a benodwyd drwy broses ymgeisio gystadleuol:

Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Gogledd Cymru – consortiwm dan arweiniad Cyngor Sir y Fflint

Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Canol De Cymru – consortiwm dan arweiniad Actifyddion Artistig[12]

Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Canolbarth a Gorllewin Cymru – consortiwm dan arweiniad Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg De-ddwyrain Cymru – consortiwm dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Mae i'r rhwydweithiau y cylch gwaith canlynol:

a) Cydgrynhoi a lledaenu arferion gorau

b) Sefydlu a chydlynu cyfleoedd rhwydweithio'r celfyddydau a dysgu creadigol (wyneb yn wyneb a digidol) i athrawon, artistiaid a sefydliadau celfyddydol a diwylliannol

c) Darparu gwasanaeth 'broceru' rhwng ysgolion, artistiaid a sefydliadau celfyddydol/diwylliannol

d) Darparu cyfleoedd hyfforddiant i ymarferwyr y celfyddydau i wella a theilwra eu darpariaeth at anghenion a blaenoriaethau'r ysgolion

[12] Elusen gofrestredig yw Ymddiriedolaeth Actifyddion Artistig sy'n cynorthwyo prosiectau addysg, cymunedol ac ymgysylltu â chynulleidfa o Neuadd Dewi Sant a'r New Theatre yng Nghaerdydd. Nod Rhaglen Actifyddion Artistig yw annog pobl, o'r ieuengaf i'r hynaf, i ymgysylltu â gweithgarwch y celfyddydau a'i fwynhau.

e) Darparu cyfleoedd i athrawon ac artistiaid ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau

f) Rheoli a chydlynu rhaglen o 'Hyrwyddwyr Lleol y Celfyddydau' (a gyflwynir isod).

Fel cyfle pellach i elwa o raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, caiff ysgolion enwebu aelod uwch o staff i ymgymryd â rôl Hyrwyddwr Creadigrwydd a Chelfyddydau'r Ysgol. Bydd yr unigolyn yn gyswllt rhwng yr ysgol a'r cyfleoedd sydd ar gael drwy'r rhwydwaith rhanbarthol. Bydd yr hyrwyddwyr yn athrawon profiadol y celfyddydau; mewn Ysgolion Creadigol Arweiniol, felly, mae'n bosibl mai Cydlynwyr Ysgolion Creadigol Arweiniol fydd yr hyrwyddwyr hyn. Caiff eu hysgolion eu hariannu i'w rhyddhau i dreulio cyfnodau byr yn hyrwyddo arferion gorau, cynorthwyo eraill i fabwysiadu dulliau tebyg a/neu ddod ag eraill i mewn i'r ysgol i arsylwi a dysgu. Caiff artistiaid a sefydliadau celfyddydol/diwylliannol gyfle i ymgymryd â'r rôl hon hefyd.

**Cronfa Profi'r Celfyddydau**

Mae Cronfa Profi'r Celfyddydau'n ymwneud ag annog ysgolion i ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc fynd 'un cam ymhellach' wrth archwilio profiadau creadigol, diwylliannol a chelfyddydol. Mae'n cynnwys dau faes o gymorth, fel a gyflwynir isod.

*Ewch i Weld*

Gall ysgolion ymgeisio am grantiau bach untro o hyd at £1,000 i ariannu ymweliadau unigol â digwyddiadau celfyddydol o ansawdd uchel mewn lleoliadau ledled Cymru. Gallai profiadau Ewch i Weld gynnwys ymweliadau â pherfformiadau ac arddangosfeydd neu ymweliadau i brofi gweithwyr proffesiynol yn y celfyddydau yn datblygu a chreu eu gwaith. Ni fydd dyddiad cau ar gyfer Ewch i Weld, gan olygu y gall ysgolion wneud cais ar unrhyw adeg ond bydd angen iddynt wneud hynny o leiaf bedair wythnos cyn y digwyddiad y maent yn dymuno mynd iddo. Dyma enghreifftiau o weithgareddau y gellid eu hariannu:

Llogi coets neu gostau trafnidiaeth gyhoeddus eraill;

Costau tocynnau;

Costau gweithdai.

*Cydweithio Creadigol*

Mae Cydweithio Creadigol yn fwy beichus ar yr ymgeisydd nag Ewch i Weld ond y mae hefyd yn cynnig lefelau uwch o gyllid gyda'r nod o gynorthwyo cynigion a phartneriaethau mwy uchelgeisiol. Gall ysgolion a/neu sefydliadau celfyddydol ymgeisio am rhwng £5,000 a £25,000 i ddatblygu prosiectau mwy uchelgeisiol a pharhaus.

Mae sesiynau 'Blasu' Cydweithio Creadigol (£5,000 i £7,500) yn canolbwyntio ar brosiectau ar raddfa llai sydd ag elfen gref o arbrofi a/neu gymryd risg creadigol. Gallant gynnwys elfennau o ymchwil a datblygu. Mae'r prosiectau hyn yn ymwneud â 'rhoi blaen y droed yn y dŵr' a dylai'r pwyslais fod ar arloesi, partneriaethau creadigol newydd a rhoi cynnig ar rywbeth cwbl newydd. Diben elfen 'Prosiectau' Cydweithio Creadigol (£5,000 i £25,000) yw cynorthwyo cynigion am waith newydd ac arloesol ar raddfa fwy. Dyma enghreifftiau o weithgareddau y gellid eu hariannu:


- Ffioedd proffesiynol artistiaid, ymarferwyr creadigol a sefydliadau celfyddydol;
- Costau deunyddiau;
- Llogi offer a chymorth technegol;
- Prynu meddalwedd, neu fwyafswm o 12 mis o fynediad at blatfform ar-lein, e.e. ar gyfer prosiect yn seiliedig ar godio.

Bydd tri chyfle i ymgeisio am Gydweithio Creadigol (haf a hydref 2017 a gwanwyn 2018). Caiff dyddiadau cau'r ceisiadau eu cyhoeddi ar wefan Cyngor Celfyddydau Cymru a'u datgan ym mwletinau Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.


# Atodiad 3: Data ychwanegol o'r arolwg o athrawon ac artistiaid sy'n cymryd rhan

## Dosbarthiad ymatebwyr yr arolwg: athrawon


### Ffigur A.1: Dosbarthiad yr ymatebwyr, yn ôl Awdurdod Lleol (n=108)




**Ffigur A.2: Dosbarthiad yr ymatebwyr, yn ôl blwyddyn academaidd a addysgir (n=108, atebion lluosog yn bosibl)**




**Ffigur A3: Dosbarthiad yr ymatebwyr, yn ôl pwnc a addysgir (n=108)**



**Ffigur A.4: Nifer y blynyddoedd y bu'r ymatebwyr yn addysgu mewn ysgolion (n=108)**





**Ffigur A.5: Cyfrwng iaith addysgu'r ymatebwyr (n=108)**




**Dosbarthiad ymatebwyr yr arolwg: artistiaid a sefydliadau celfyddydol**


**Ffigur A.6: Statws cyflogaeth ymatebwyr arolwg yr artistiaid (n=70)**





**Ffigur A.7: Grŵp oedran, rhyw ac ethnigrwydd ymatebwyr arolwg yr artistiaid (n=70)**



**Ffigur A.8: Blynyddoedd o brofiad ymatebwyr arolwg yr artistiaid (n=70)**




**Ffigur A.9: Prif ffurf gelf / ymarfer creadigol ymatebwyr arolwg yr artistiaid (n=70)**



**Ffigur A.10: Lleoliad ymatebwyr arolwg yr artistiaid (n=70)**

